Rhif Ymchwil Cymdeithasol:
03/2017
Dyddiad cyhoeddi:
31/01/2017

# Gwerthusiad proses o'r cynllun peilot Sgiliau Hanfodol i'r rhai ar Ddedfrydau yn y Gymuned (SHDdG)

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol: 978-1-4734-8379-8

Gwerthusiad proses o’r cynllun peilot Sgiliau Hanfodol i’r rhai ar Ddedfrydau yn y Gymuned (SHDdG)

Evelyn Hichens / Carney Green
Daniel Murray / Carney Green
Dr Paul Gray / MMU
Dr Hannah Smithson / MMU
Richard McHugh / MMU

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid o raid farn Llywodraeth Cymru

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Sara James
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 6812
Ebost: sara.james@wales.gsi.gov.uk

**Tabl cynnwys**

Rhestr tablau ........ 2
Rhestr ffigyrau ........ 3
Geirfa ........ 4
1. Cyflwyniad ........ 5
2. Canfyddiadau ac argymhellion allweddol ........ 7
3. Methodoleg ........ 15
4. Canfyddiadau'r ymchwil ansoddol ........ 22
5. Canfyddiadau'r ymchwil meintiol ........ 41
Adran gyfeirio ........ 50
Atodiad A: Termau chwilio yn yr adolygiad llenyddiaeth o'r arferion gorau ........ 54
Atodiad B: Adolygiad llenyddiaeth o'r arferion gorau– Canfyddiadau manwl ........ 55
Atodiad D: Arfau Gwaith Maes ........ 67
5 Rhowch ddisgrifiad byr o'ch ymwneud â chyflwyno'r rhaglen SHDdG? (e.e. asesu cymhwyster troseddwyr am sgiliau hanfodol, a/neu gyflwyno hyfforddiant sgiliau hanfodol i droseddwyr) ........ 79
Atodiad E: Gweithgareddau dysgu a gynigiwyd fesul lefel ........ 84
Atodiad F: Dadansoddiad data meintiol atodol ........ 86

**Rhestr tablau**

Tabl 1.1: Amserlenni gwerthuso ........ 6
Tabl 3.1: Rhanbarth cyflwyno cynllun peilot SHDdG a rhanbarth gyflwyno gyfatebol GGPC/CAC gyda'r darparwyr cyflwyno ........ 18
Tabl 3.3: Niferoedd dosbarthiad yr arolwg – rheolwyr troseddwyr ........ 19
Tabl 3.4: Cyfanswm nifer ymatebion fesul grŵp rhanddeiliaid ........ 20
Tabl 5.1: Nifer troseddwyr gydag angen Sgiliau Hanfodol o gymharu â nifer y troseddwyr a ymrestrodd/gychwynnodd ar hyfforddiant hyfforddiant Sgiliau Hanfodol ym mhob ardal gyflwyno SHDdG ........ 49

**Rhestr ffigyrau**

Ffigwr 5.1: Nifer unigolion a gychwynnodd gweithgareddau dysgu gyda phob darparwr hyfforddiant (2015-16) ........41
Ffigwr 5.2: Nifer gweithgareddau dysgu a gychwynnwyd gyda phob darparwr hyfforddiant 42
Ffigwr 5.3 Cyfran y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd gan droseddwyr, fesul darparwr cyflwyno ........44
Ffigwr 5.4: Cyfran y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd: rhyw ........45
Ffigwr 5.5: Cyfran y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd: dysgwyr gyda a heb anabledd a/neu anhawster dysgu ........46
Ffigwr F.1: Lefelau gweithgaredd dysgu: Cyfran pob lefel gwblhawyd ........86
Ffigwr F.2: Dulliau cyflwyno: Cyfran y gweithgareddau a gwblhawyd ........87
Ffigwr F.3: Cyfran y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd ........87

**Geirfa**

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| ACE | Addysg Oedolion yn y Gymuned |
| BKSB | Adeiladydd Sgiliau Sylfaenol ac Allweddol |
| UCCs | Unedau Credyd Cyfatebol |
| CRC | Cwmni Asefydlu Cymunedol |
| CSCS | Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu |
| GDG | Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |
| DG | Dyddiad Geni |
| DWP | Adran Gwaith a Phensiynau |
| MD | Mynegiant Diddordeb |
| ESP | Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyaeth |
| SHDdG | Sgiliau Hanfodol i'r rhai ar Ddedfrydau yn y Gymuned |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Gwaith |
| CDU | Cynllun Dysgu Unigol |
| IOM | Rheolaeth Integredig ar Droseddwyr |
| LLWR | Cofnod Dysgu Gydol Oes |
| MMU | Prifysgol Metropolitan Manceinion |
| MOJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| MD | Memorandwn Dealltwriaeth |
| NDelius | National Delius |
| YG | Yswiriant Gwladol |
| NOMS | Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr |
| GPC | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| NTfW | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| OASys | System Asesu Troseddwyr |
| OCN | Rhwydwaith y Coleg Agored |
| OLASS | Gwasanaeth Sgiliau a Dysgu Troseddwyr |
| PPOs | Troseddwyr Lluosog ac eraill sy'n Flaenoriaeth |
| SfEW | Sgiliau i Gyflogaeth Cymru |
| DSW | Dysgu Seiliedig ar Waith |
| WEST | Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru |
| CBAC | Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r ffordd y rheolir troseddwyr yn y gymuned yng Nghymru wedi newid ers i Lywodraeth y DU gyhoeddi (2013) Transforming rehabilitation: A Strategy for Reform[1], yn bennaf trwy agor y farchnad i amrywiaeth o ddarparwyr adsefydlu. O 2014 ymlaen, cafodd Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) presennol Cymru y dasg o reoli troseddwyr a nodwyd fel rhai â risg uchel o niwed difrifol, a daeth Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CAC) newydd Cymru yn gyfrifol am droseddwyr oedd â risg ganolig neu isel o niwed difrifol i'r cyhoedd. Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn, cafwyd datblygiadau hefyd yn y ffordd o gyflwyno Sgiliau Hanfodol i droseddwyr yn y gymuned. Rhwng 2009 a Mawrth 2015, cyllidwyd hyfforddiant Sgiliau Hanfodol i droseddwyr dan oruchwyliaeth statudol yn y gymuned, naill ai ar orchymyn cymunedol neu ar drwydded wedi gadael carchar, gan Lywodraeth Cymru dan Femorandwm Dealltwriaeth (MD) gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS). Yr oedd y trefniant hwn hefyd yn gymwys i hyfforddiant Sgiliau Hanfodol i droseddwyr oedd ar ddedfrydau mewn carchar. Comisiynodd NOMS Ymddiriedolaeth Prawf Cymru i reoli cyflwyno'r ddarpariaeth ac fe wnaethant hwy yn eu tro is-gontractio i ddarparwyr Sgiliau Hanfodol a gyflwynodd yr asesu a'r dysgu yn swyddfeydd y gwasanaeth prawf ledled Cymru dan gontract i'r Ymddiriedolaeth.

1.2 Newidiodd hyn ym mis Ebrill 2015pan lansiodd Llywodraeth Cymru y cynllun peilot Sgiliau Hanfodol i'r rhai ar ddedfrydau yn y gymuned (SHDdG). Bryd hynny, dechreuodd Llywodraeth Cymru gomisiynu'r ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol yn uniongyrchol trwy gontract gyda'r darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW). Fffurfir y rhwydwaith DSW o fudiadau y dyfarnwyd contractau iddynt i gyflwyno rhaglenni Prentisiaethau, Hyfforddi a Thwf Swyddi Cymru, fel rhan o'i Haen Parod i Waith i bobl 18 oed neu hŷn, sydd yn ddiwaith ac yn derbyn budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

**Amcanion y gwerthuso**

1.3 Pwrpas y gwerthusiad hwn oedd deall sut yr oedd yr agwedd newydd at gyflwyno hyfforddiant Sgiliau Hanfodol i droseddwyr yn y gymuned yn gweithio, a darparu argymhellion, ar sail tystiolaeth gadarn (a gasglwyd trwy ymchwil meintiol ac ansoddol, ac adolygiad o'r arferion gorau o fannau eraill), fel sail o wybodaeth i ddarparu sgiliau cyflogadwyaeth gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

---

[1] https://www.gov.uk/government/publications/transforming-rehabilitation-a-strategy-for-reform.

1.4 Nod yr ymchwil oedd:

- darparu tystiolaeth am yr arferion gorau
- gosod allan sut y gweithredodd y prosiect yn ymarferol, ac a wnaed hyn yn ôl y cynllun
- ymchwilio i a deall newidiadau mewn cyfraddau cyfranogi, a
- bod yn sail o wybodaeth i benderfyniadau yn y tymor hwy ynghylch y model cyflwyno gorau.

**Amserlenni gwerthuso**

1.5 Cychwynnodd y gwerthuso ym mis Mawrth 2016. Mae'r meysydd ymchwil allweddol, a'r amserlenni cyfatebol, yn Nhabl 1.1.

**Tabl 1.1: Amserlenni gwerthuso**

| Camau gwerthuso allweddol | Amserlenni |
|---|---|
| Adolygiad damcaniaeth newid | Mawrth ac Ebrill 2016 |
| Adolygiad llenyddiaeth o'r arferion gorau | Mawrth ac Ebrill 2016 |
| Cyfweliadau (unigol) ymchwil ansoddol ac arolwg arlein o reolwyr troseddwyr a darparwyr hyfforddiant | Mai a Mehefin 2016 |
| Adolygu a dadansoddi data rheoli | Mehefin a Gorffennaf 2016 |

Ffynhonnell: Carney Green, 2016

1.6 Mae manylion methodoleg yr ymchwil yn Adran 3.

**Strwythur yr adroddiad**

1.7 Dyma strwythur gweddill yr adroddiad hwn:

- Adran 2: Canfyddiadau ac argymhellion allweddol
- Adran 3: Methodoleg
- Adran 4: Canfyddiadau'r ymchwil ansoddol
- Adran 5: Canfyddiadau'r ymchwil meintiol

## 2. Canfyddiadau ac argymhellion allweddol

### Arferion gorau

2.1 Cymharol ychydig o esiamplau sydd o werthusiadau cynlluniau sy'n cyflwyno hyfforddiant Sgiliau Hanfodol i droseddwyr. Er hyn, amlygodd yr adolygiad llenyddiaeth nifer o ffactorau ynghylch arferion gorau. Ymysg y rhai mwyaf perthnasol i'r cynllun peilot SHDdG a chyflwyno darpriaeth yn y dyfodol yr oedd:

- pwysigrwydd cyflwyno darpariaeth unswydd wedi ei deilwrio ar gyfer pob cleient;
- yr angen i ddefnyddio arfau asesu cadarn a phriodol; ac
- i Sgiliau Hanfodol fod yn rhan o becyn holistig o gefnogaeth i droseddwyr.

2.2 Datgelodd yr ymchwil ansoddol ar gyfer y gwerthusiad hwn fod rhai elfennau o'r arferion gorau a nodwyd o'r adolygiad llenyddiaeth yn digwydd ledled Cymru dan y cynllun peilot. Cafwyd enghreifftiau o hyfforddwyr yn teilwrio darpariaeth i droseddwyr ac fel rhan o'r contract, yr oedd gofyn i ddarparwyr gwasanaeth ddefnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) neu erfyn cyfatebol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru i asesu anghenion troseddwyr.

2.3 Nododd y gwaith maes ansoddol hefyd esiamplau o amrywiaeth o agweddau ledled Cymru i gyflwyno Sgiliau Hanfodol er mwyn cwrdd ag anghenion troseddwyr gydag anghenion Sgiliau Hanfodol. Yr oedd arferion a nodwyd fel rhai arbennig o effeithiol yn cynnwys y canlynol:

- sesiynau cyfathrebu cychwynnol lle'r oedd darparwyr cyflwyno yn rhoi gwybod i reolwyr troseddwyr am y cynnig Sgiliau Hanfodol;
- datblygu perthynas rhwng hyfforddwyr a rheolwyr troseddwyr o'r cychwyn cyntaf – yr oedd hyn yn alluogwr pwysig o ran ennyn hyder, ac yn helpu i wella cyflymder gweithredu'r cynllun peilot;
- trefnu apwyntiadau Sgiliau Hanfodol i ddysgwyr ar yr un dyddiau ag yr oedd gofyn iddynt ymweld â swyddfeydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) neu'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol i gyrchu gwasanaethau cefnogi eraill er mwyn lleihau nifer y siwrneiau yr oedd angen iddynt wneud;
- newid y corff arholi/dyfarnu i ganiatáu cyflwyno unedau unigol yn hytrach na chymwysterau llawn;
- datblygu dealltwriaeth rhwng hyfforddwyr a dysgwyr;

- cyflwyno sesiynau i fenywod yn unig;
- newidiadau i amseroedd sesiynau; a
- creu deunyddiau dysgu unswydd wedi eu teilwrio.

**Gweithredu a chyflwyno**

2.4 Yr oedd y cynllun peilot yn mynnu bod hyfforddwyr yn cefnogi dysgwyr i weithio tuag at Lefel Mynediad 1 i Lefel 2, a lle bo modd, eu cyrraedd, mewn: cyfathrebu, cymhwyso rhif, a TGCh; a Lefel Mynediad 3 i Lefel 2 mewn sgiliau cyflogadwyedd[2]. Fodd bynnag, dangosodd dadansoddiad o'r data a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru gan ddarparwyr hyfforddiant nad oedd 40 y cant o weithgareddau dysgu yn canoli ar ennill cymwysterau.

2.5 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd hyfforddiant Sgiliau Hanfodol yn cael ei gyflwyno yn swyddfeydd GPC/CAC. Cyflwynodd dau ddarparwr hyfforddiant o ganolfannau darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW).

2.6 Tynnodd y gwerthusiad sylw at sawl her wrth weithredu'r cynllun peilot, ac yr oedd a wnelo'r rhain yn aml ag ymwneud darparwyr cyflwyno newydd. Arweiniodd hyn at oedi cyn cychwyn y ddarpariaeth, gan iddi gymryd amser i'r cynnig newydd gael ei gyfleu rhwng y darparwyr cyflwyno a'r rheolwyr troseddwyr, ac i weithdrefnau gael eu gosod yn eu lle.

2.7 Yn gyffredinol, ni thybiwyd fod cyfathrebu yn effeithiol. Er enghraifft, canfu'r gwerthusiad nad oedd gan reolwyr troseddwyr GPC/CAC ddealltwriaeth glir o feini prawf cymhwyster y cynllun peilot, a bod dryswch yn eu mysg ynghylch argaeledd daearyddol y ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol, ac felly i ble'r oedd modd cyfeirio troseddwyr.

2.8 Yr oedd yn amlwg hefyd fod anghysonderau rhwng yr hyn yr oedd rheolwyr troseddwyr yn disgwyl i gyflwyno ei olygu (e.e. yng nghyswllt sesiynau unigol neu grŵp), beth a gofiai rhai o'r cyfnod pan oedd cyflwyno dan reolaeth Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, a'r hyn y bwriadai darparwyr gyflwyno.

2.9 Teimlai rheolwyr troseddwyr GPC/CAC na chawsant y cyfle i gyfrannu at fanyleb y cynllun peilot, na chyfle chwaith i ymwneud â'r cynllun gweithredu ar gyfer Sgiliau Hanfodol, a allasai fod wedi helpu i wella dealltwriaeth o'r hyn yr oedd y darparwyr

[2] Mae cymwysterau Lefel Mynediad ar lefel is na chymwysterau Lefel 1. Mae cymhwyster Lefel 1 yn cyfateb i NVQ Lefel 1 neu TGAU D-G;cymhwyster Lefel 2 yn cyfateb i NVQ Lefel 2 neu TGAU A*-C; cymhwyster Lefel 3 yn cyfateb i NVQ Lefel 3 neu lefel A. Mae mwy o fanylion ar wefan Cymwysterau Cymru yn: http://cymwysteraucymru.org/cymwysterau/lefel-mynediad-cymhwyster/?lang=cy.

am ei gyflwyno a'r hyn y teimlai rheolwyr troseddwyr oedd fwyaf addas i'w cleientiaid. Teimlwyd y pryder hwn gryfaf yng nghyswllt cleientiaid risg-uchel GPC. Hefyd, adroddwyd mai prin oedd profiad blaenorol y darparwyr o weithio gyda throseddwyr, a chanlyniad hyn oedd nad oedd y darparwyr yn barod i gynnig agwedd sydd yn cwrdd ag anghenion penodol y dysgwyr.

2.10 Gwelwyd y model ariannol fel ffactor oedd yn cyfyngu ar yr hyn y gallai darparwyr gyflwyno; gwelwyd cyflwyno sesiynau unigol neu sesiynau grwpiau llai fel rhywbeth oedd yn llai ariannol hyfyw na sesiynau grwpiau mawr.

2.11 Yr oedd cyflwyno Sgiliau Hanfodol yn swyddfeydd GPC/CAC yn cael ei weld fel peth priodol, yn enwedig pan oedd yn cael ei gynllunio ochr yn ochr â darpariaeth gefnogol arall er mwyn lleihau nifer y teithiau y byddai'n rhaid i droseddwr wneud i'r swyddfa. Fodd bynnag, yr oedd lleoliad daearyddol y ddarpariaeth a'r pellter yr oedd yn rhaid i rai troseddwyr deithio yn cael ei weld fel rhwystr i ymwneud, ac nid oedd argaeledd felly yn cael ei weld fel rhywbeth oedd yn gyffredinol. Nid oedd gan rai swyddfeydd GPC/CAC ddarpariaeth fewnol, a lle'r oedd ar gael yn fewnol, cafwyd enghreifftiau o ddarpariaeth yn dirwyn i ben dros gyfnod y cynllun peilot. Yr oedd hyn yn groes i'r hyn yr oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddarparwyr gyflwyno, gan y dywedwyd yn glir y dylai'r ddarpariaeth fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd y gwasanaeth prawf yn eu rhanbarth gyflwyno.

**Cyfraddau cyfranogi**

2.12 Dangosodd y dadansoddiad o'r data meintiol ostyngiad (44 y cant) yn nifer y gweithgareddau dysgu a gychwynnwyd yn ystod y cynllun peilot, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2014/15). Dangosodd y data hefyd gryn amrywiaeth rhwng nifer y dysgwyr a gychwynnodd weithgareddau dysgu gyda phob darparwr cyflwyno (yn amrywio o 1 i 91) o fewn y cynllun peilot cyfredol.

2.13 Dyma'r rhesymau allweddol a nodwyd o adborth rhanddeiliaid am gyfranogiad is yn y cynllun peilot SHDdG o gymharu â'r rhaglen a reolwyd gan Ymddiriedolaeth Prawf Cymru:

- Yr oedd GPC a CAC yn dal i fynd trwy newid sefydliadol mewnol yn ystod cyfnod gweithredu'r cynllun peilot SHDdG.
- Yr oedd bwlch amserol yn y ddarpariaeth, rhwng yr hyfforddiant a reolwyd gan Ymddiriedolaeth Prawf Cymru a chyflwyno'r cynllun peilot fel y'i goruchwyliwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi gadael rheolwyr

troseddwyr yn amheus o’r ddarpariaeth newydd ac yn gwneud i ffwrdd â phosibilrwydd trosiad diwnïad i ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol.

- Nid oedd yn edrych fel petai proses glir ar gael i ddarparwyr cyflwyno oedd yn cefnogi cleientiaid risg uchel GPC. Dywedodd rheolwyr troseddwyr GPC nad oeddent felly yn teimlo’n hyderus yn cyfeirio’r garfan hon at y ddarpariaeth. Mae’r canfyddiad, o’r dadansoddiad meintiol, fod y rhai sy’n cychwyn gweithgareddau dysgu yn dueddol o fod yn droseddwyr llai aml, gyda hanes troseddu byrrach (ac felly yn llai tebygol o gael eu rheoli gan GPC) yn cefnogi hyn.
- Dywedodd pedwar o reolwyr busnes/tîm GPC/CAC nad oedd eu rheolwyr troseddwyr yn teimlo fod lleoliad grŵp yn wastad yn addas i’w cleientiaid, a’u bod wedi gofyn am i sesiynau unigol gael eu cyflwyno, ond dywedasant na allai’r darparwyr yn y rhan fwyaf o achosion gwrdd â’r angen hwn. Nid oedd manyleb y darparwr yn datgan a fyddai’r ddarpariaeth yn cael ei gyflwyno mewn grŵp neu yn unigol.
- Yr oedd y contract ariannol ar gyfer darparwyr cyflwyno yn golygu eu bod yn cael eu talu yn unig am y dysgwyr yr oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â hwy. Felly, er mwyn cael yr elw ariannol mwyaf, yr oedd yn well iddynt hwy gyflwyno i grwpiau mawr. Golygodd hyn fod darpariaeth yn llai tebygol o fod ar gael yn swyddfeydd llai GPC/CAC.
- Yr oedd bron i draean o’r rhai a ymatebodd i’r arolwg yn ansicr sut y byddai anghenion iaith Gymraeg dysgwyr yn cael eu hadnabod er mwyn bod yn sail o wybodaeth i gyflwyno Sgiliau Hanfodol, ac nid oeddent felly yn sicr a oedd anghenion iaith Gymraeg y grŵp cleientiaid yn cael eu hateb.

2.14 Er bod contract y darparwr yn dweud y byddai ’r darparwyr o GPC, CAC a DSW yn ceisio datblygu arferion gwaith cyson er mwyn sicrhau bod cytundeb yn bodoli ar lefel Cymru gyfan i rannu gwybodaeth briodol am droseddwyr, y gwendid a grybwyllwyd fwyaf gan yr ymatebwyr i’r arolwg am y cynllun peilot oedd diffyg cyfathrebu.

2.15 Canfu’r dadansoddiad data, o’r gweithgareddau dysgu a gyflwynwyd dan ddarparwyr, fod llai na 50 y cant wedi eu cwblhau (46%), gyda’r un gyfran o ddysgwyr yn tynnu allan o’u gweithgareddau dysgu (yn hytrach na’u cwblhau). Yr oedd menywod yn llai tebygol na dynion o gwblhau’r holl weithgareddau dysgu a gychwynnwyd ganddynt,

ac yr oeddent yn llai tebygol i beidio â chwblhau unrhyw weithgareddau dysgu. Y prif bethau a nodwyd gan randdeiliaid oedd yn rhwystro'r grŵp cleient hwn rhag cymryd rhan mewn Sgiliau Hanfodol oedd: eu bod yn teimlo nad oedd arnynt ei angen neu nad oedd ganddynt gymhelliant; nad oeddent eisiau gweithio mewn grŵp; fod eu bywydau yn ddi-drefn; cyfrifoldebau gofal plant a gyrfa; a dod o hyd i waith.

2.16 Canfu'r ymchwil ansoddol fod rhanddeiliaid yn feirniadol o addasrwydd meini prawf cymhwyster y cynllun peilot. Tybiwyd fod y meini prawf yn rhy gaeth, e.e. nid oedd y sawl oedd mewn gwaith (a allai fod ar gontractau dim-oriau) na rhai dinasyddion tramor yn gymwys er bod rhanddeiliaid yn teimlo, o fewn y grwpiau hyn, fod gan gyfran uchel angen am Sgiliau Hanfodol.

2.17 Nid oedd y cofnodion data am y cynllun peilot yn cynnwys manylion am gyfeirio at ddarpariaeth at Sgiliau Hanfodol. Nid oedd modd felly i'r dadansoddiad hwn nodi lle cyfeiriwyd troseddwyr at ddarpariaeth SHDdG, ond na chynigiwyd hyfforddiant iddynt, neu lle nad oeddent wedi ei gymryd. Mae hyn yn fwlch pwysig yn y data. O ddadansoddi National Delius (NDelius) NOMS datgelwyd fod gan bron i 2,700 o droseddwyr ar ddedfrydau yn y gymuned anghenion Sgiliau Hanfodol, ac eto yr oedd y nifer a gychwynnodd ddarpariaeth SHDdG yn ystod cyfnod y cynllun peilot yn llai nag un o bob deg o'r nifer hwn. Efallai bod llawer o resymau pam na dderbyniodd y rhai ag angen Sgiliau Hanfodol y ddarpariaeth. Heb fanylion ynghylch a bennwyd bod y troseddwyr hyn yn addas ar gyfer y ddarpariaeth neu beidio, neu a gawsant eu cyfeirio, nid oes modd dod i gasgliad am gyfraniadau cymharol cyfraddau cyfeirio isel, nifer isel a dderbyniodd na ffactorau eraill, i gyfradd isel y ddarpariaeth.

**Argymhellion**

Ar sail y canfyddiadau allweddol a drafodwyd uchod, datblygwyd nifer o argymhellion ar gyfer cyflwyno Sgiliau Hanfodol yn y dyfodol i droseddwyr:

1. Datgelodd y gwerthusiad dystiolaeth, mewn rhai ardaloedd, fod Sgiliau Hanfodol yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â mathau eraill o gefnogaeth i droseddwyr. Dylid ymestyn yr arfer hwn fel bod SHDdG yn cael ei ystyried yn holistig fel rhan o becyn ehangach o gefnogaeth sydd ar gael i droseddwyr trwy reolwyr troseddwyr GPC/CAC. Dylai cefnogaeth gael ei roi mewn dilyniant ynghylch blaenoriaethu anghenion troseddwyr ac felly dylid rhoi pwyslais ar amseru cyfeiriadau yn briodol. Dylai hyn gael ei arwain a'i gydgordio gan y rheolwr troseddwyr.

2. Wrth gynllunio'r fanyleb ar gyfer Rhaglen Cyflogadwyaeth Pob Oedran newydd Llywodraeth Cymru, dylid creu panel o reolwyr busnes/tîm GPC a CAC a chynrychiolwyr rheolwyr troseddwyr, gyda'r nod o fod yn sail o wybodaeth i'r fanyleb, er mwyn gwneud yn sicr fod gwersi'n cael eu dysgu o gyflwyno blaenorol a bod y ddarpariaeth yn cwrdd ag anghenion eu cleientiaid.

3. Datgelodd y gwerthusiad rai enghreifftiau lle'r oedd darparwyr cyflwyno y dyfarnwyd contractau iddynt dan y cynllun peilot eisoes yn gyfarwydd â gweithio gyda throseddwyr. Ar gyfer rhaglenni'r dyfodol, dylai darparwyr cyflwyno naill ai feddu ar brofiad blaenorol o gyflwyno hyfforddiant Sgiliau Hanfodol i droseddwyr, neu dylid eu hysbysu yn glir am anghenion y grŵp hwn cyn tendro am y gwaith (gallai hyn fod ar ffurf gweithdy gyda chynrychiolaeth o blith rheolwyr troseddwyr). Trwy i ddarparwyr cyflwyno ddod i ddeall yn iawn anghenion y garfan (e.g. dangosodd y data mai lefel isel iawn o sgiliau oedd gan y garfan, gyda'r cymhwyster uchaf gan dri chwarter y rhai a gychwynnodd weithgareddau dysgu ar lefel is na Lefel Mynediad), dylai arwain at agweddau cyflwyno mwy effeithiol sydd yn cwrdd â'u hanghenion.

4. Ar gyfer rhaglenni'r dyfodol, lle bo modd, dylid cael cyfnod o orgyffwrdd lle penodir darparwyr newydd i gyflwyno SHDdG tra bod y ddarpariaeth flaenorol yn dal i gael ei chyflwyno. Byddai hyn yn caniatáu cyfnod arweiniol i reolwyr busnes/arweinyddion timau, lle gallai darparwyr cyflwyno weithio gyda rheolwyr swyddfa, ac adeiladu perthynas gyda hwy, i gynllunio cyflwyno a chytuno ar brotocolau rhannu gwybodaeth.

5. Lle bo modd, dylid annog yr arfer o ganiatáu hyblygrwydd yn narparu SHDdG, a ddatgelwyd mewn mannau trwy'r astudiaeth hon, er mwyn gallu teilwrio cefnogaeth i'r unigolyn neu anghenion grwpiau penodol (e.e. cyflwyno sesiynau i fenywod yn unig).

6. Mae rhaglenni'r dyfodol angen agwedd glir a chadarn tuag at adnabod anghenion iaith Gymraeg dysgwyr a gofalu fod darpariaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cwrdd ag anghenion dysgwyr Cymraeg eu hiaith.

7. Adolygu'r gofyniad cymhwysedd ynghylch cyflogaeth. Er y dylid blaenoriaethu y sawl nad ydynt mewn gwaith, nid oedd meini prawf cymhwysedd SHDdG yn ystyried y math o swydd yr oedd yr unigolyn yn wneud, na'r math o gontract oedd ganddo (h.y., fe allai fod yn gontract dim-oriau). Gallai hyfforddiant

Sgiliau Hanfodol alluogi unigolyn i symud ymlaen yn y farchnad gyflogaeth neu gael swydd fwy parhaol.

8. Dylai'r un arfau asesu gael eu defnyddio gan reolwyr troseddwyr GPC/CAC, ac y mae angen llunio trefniadau monitro mwy effeithiol i adolygu data sy'n cael ei fewnbynnu a sicrhau y darperir y rhain i hyfforddwyr o fewn terfynau amser penodedig. Dylai hyn gael ei gefnogi trwy weithio ar y cyd rhwng GPC/CAC a Llywodraeth Cymru i gytuno ar brosesau asesu a chyfeirio ar gyfer rhaglenni'r dyfodol.

9. Ar gyfer rhaglenni'r dyfodol, dylid adolygu'r mecanweithiau cyllido ar gyfer cyflwyno Sgiliau Hanfodol, er mwyn gwneud SHDdG yn fwy hygyrch ledled Cymru ac yn y rhanbarthau. Ni ddylai'r modd y mae contractau'n cael eu llunio droi darparwyr ymaith oddi wrth wneud darpariaeth mewn lleoliadau niferus a mwy cyfleus (i'r dysgwyr), neu o ymwneud â grwpiau llai.

10. Dylai rhaglenni'r dyfodol ymchwilio i bosibilrwydd cael hyfforddwyr i ymwneud mwy â'r prosesau cyfeirio a chadw. Os bydd eu talu yn ddibynol ar nifer y rhai sy'n manteisio ar hyfforddiant Sgiliau Hanfodol a roddir ganddynt, dylent fod â lefel uwch o ymwneud â chefnogi ymwneud a chadw.

11. Gan adeiladu ar arferion da a nodwyd mewn rhai ardaloedd, lle medrodd hyfforddwyr a dysgwyr ddatblygu cyd-ddealltwriaeth, dylai rhaglenni yn y dyfodol sy'n cyflwyno SHDdG annog darparwyr cyflwyno i ddarparu sesiynau blasu galw heibio i droseddwyr yn swyddfeydd GPC/CAC. Byddai hyn yn galluodi darparwyr i ymwneud mwy yn gynharach a bod â pheth cyfrifoldeb ynghylch nifer y troseddwyr a gyfeiriwyd, yn hytrach na bod hyn yn gyfrifoldeb rheolwyr yn unig. Gallai hyn helpu i sicrhau bod y cynnig Sgiliau Hanfodol yn glir i droseddwyr a gallai helpu i wella symbyliad troseddwyr (rhwystr i ymuno a nodwyd gan yr astudiaeth).

12. Mae angen gwella arfau a phrosesau adborth ar gyfer rheolwyr troseddwyr GPC/CAC a darparwyr cyflwyno yn rhaglenni'r dyfodol. Er y cafwyd enghreifftiau o arfer da, nid oedd y prosesau yn y rhaglen beilot SHDdG yn gyson ar draws y rhanbarthau, ac nid oeddent yn effeithiol. Ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol, dylid edrych i mewn i bosibilrwydd datblygu erfyn arlein i hyfforddwyr gofnodi adborth. Da o beth fyddai cysoni'r wybodaeth a gofnodwyd gydag NDelius, fel na fydd angen cofnodi'r un wybodaeth ddwywaith.

13. Ar y lefel strategol, mae angen gwella'r mecanweithiau adrodd a monitro gan ddarparwyr i GPC/CAC ac oddi wrth GPC/CAC i Lywodraeth Cymru, er mwyn bod yn fwy atebol. Ar hyn o bryd, dim ond niferoedd sy'n ymrestru a gofnodir yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ac nid yw niferoedd y sawl a gyfeirir yn cael eu casglu ynghyd yn ganolog. Felly, ni all dadansoddiad ddangos faint o gyfeiriadau a wnaed na faint a arweiniodd at ymrestru. Da o beth fyddai i gofnodi cyfeiriadau fod yn ofyniad contractaidd ar reolwyr troseddwyr. Byddai hyn yn rhoi mwy o drosolwg i staff rheoli GPC a CAC am y modd mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno, yn ogystal â rhoi cyfle i randdeiliaid strategol adolygu pa mor dda y mae'r polisi Sgiliau Hanfodol yn gweithio.

# 3. Methodoleg

3.1 Yr adroddiad hwn yw canlyniad terfynol y broses werthuso. Seili yr ymchwil ar adolygiad llenyddiaeth, gwybodaeth ansoddol a gasglwyd o gyfweliadau ac arolwg arlein a data meintiol o ddadansoddiad o gofnodion gweinyddol wedi eu gwneud yn ddienw am droseddwyr yr oedd eu cofnodion yn dangos angen am Sgiliau Hanfodol a niferoedd y rhai a ymrestrodd mewn gwirionedd ac a dderbyniodd hyfforddiant. Nid oedd barn y troseddwyr ac effaith eu canlyniadau cyflogaeth/troseddu o fewn y cwmpas ac ni edrychwyd i mewn i hyn. Mae'r adrannau a ganlyn yn disgrifio'r agwedd fethodolegol at y gwerthuso.

**Agwedd**

3.2 Cwmpas yr ymchwil oedd i asesu pa mor llwyddiannus y gweithredwyd ac y cyflwynwyd yr agwedd newydd tuag at gyflwyno SHDdC. Ni fwriadwyd i'r gwerthuso fesur effaith gweithgareddau a deilliannau'r cynllun peilot.

*Damcaniaeth newid*

3.3 Fel cam cyntaf yn y gweithgareddau gwaith maes gwerthuso, cynhaliwyd adolygiad damcaniaeth newid. Yr oedd hyn yn golygu adolygu dogfennau am y cynllun peilot ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol fu'n ymwneud â'i ddatblygu a'i gyflwyno. Yr oedd yn cynnwys ymwneud â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), CAC, a GPC. Bu'r trafodaethau hyn yn sail i ddealltwriaeth y tîm gwerthuso o'r canlynol: cefndir datblygu'r cynllun peilot; ei resymeg; y gwahanol weithgareddau a'r deilliannau oedd eu hangen i gyrraedd nod y rhaglen yn y tymor hir; dangosyddion llwyddiant a'r arferion gorau; a'r hyn y disgwylid iddo newid ac i ba raddau. Manylion y ddamcaniaeth hon fu'n llywio creu arfau'r gwaith maes ar gyfer gweddill y gwerthuso.

3.4 Mae canfyddiadau'r adolygiad o ddamcaniaeth newid i'w gweld yn Adran 4.

*Ymchwil eilaidd*

3.5 Cynhaliwyd adolygiad byr o lenyddiaeth arbenigol cyfoes o'r DU ac yn rhyngwladol ynghylch yr arferion gorau o ran cyflwyno hyfforddiant Sgiliau Hanfodol i droseddwyr ar ddedfrydau yn y gymuned. Mae rhestr lawn o'r termau chwilio a ddefnyddiwyd yn Atodiad A. Darperir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol yn Adran 1, gyda'r adolygiad llawn yn Atodiad B.

*Adolygiad a dadansoddiad o ddata rheoli*

3.6 Ers i Lywodraeth Cymru gymryd rheolaeth uniongyrchol o'r ddarpriaeth SHDdC ym mis Ebrill 2015, defnyddiwyd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)[3] i gofnodi'r hyfforddiant Sgiliau Hanfodol a gyflwynwyd wedi hynny dan y cynllun peilot. Yr oedd y set ddata LLWR a ddarparwyd i'r tîm gwerthuso yn cynnwys data yn ymwneud â 237 o unigolion a gychwynnodd ar weithgareddau dysgu rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 ar draws Cymru gyfan. Yn ogystal â chynnwys data ar lefel unigol, yr oedd set ddata LLWR hefyd yn cynnwys data ar lefel gweithgaredd dysgu. Rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, cychwynnwyd cyfanswm o 447 o weithgareddau dysgu gan y 237 dysgwr.

3.7 Cymharodd y gwerthusiad hwn hefyd gofnodion troseddwyr lle nodwyd angen posib am ymyriad Sgiliau Hanfodol, ond am wahanol resymau, na chawsant eu cofnodi fel rhai oedd wedi ymrestru ar ddarpariaeth SHDdC. Golygodd hyn gymharu cofnodion dysgwyr o set ddata LLWR i bob achos GPC Cymru a CAC Cymru oedd â Gorchymyn Prawf cyfredol (fel ar 23/06/16) lle nodwyd unrhyw rai o'r wyth amrywyn a ganlyn – tri o'r System Asesu Troseddwyr (OASys[4]) a phump o NDelius. Mae Atodiad C yn gosod allan fanylion y gweithdrefnau echdynnu a chyfatebu data.

- Problemau gyda darllen (OASys)
- Problemau gydag ysgrifennu (OASys)
- Problemau gyda rhifedd (OASys)
- Anawsterau dysgu a/neu anableddau (NDelius)
- Pryderon darllen/llythrennedd (NDelius)
- Pryderon rhifedd (NDelius)
- Pryderon iaith/cyfathrebu (NDelius)
- Pryderon sgrinio sgiliau (NDelius)

3.8 Nodwyd 223 o'r dysgwyr yn set ddata LLWR yn set ddata NOMS NDelius. Cymharwyd nodweddion y 223 dysgwr hyn â nodweddion y 2,698 troseddwr yn set ddata NOMS NDelius nad oeddent, er eu bod wedi dangos angen posib am

[3] Set ddata weinyddol fyw yw cronfa ddata Dysgu Gydol Oes Cymru a ddelir gan Lywodraeth Cymru. Fe'i defnyddir i reoli a moinhtro darpariaeth dysgu ôl-16 sy'n cael ei chyllido. Mae gofyn i ddarparwyr dysgu ôl-16 gyflwyno data yn rheolaidd am ddysgwyr yng Nghymru trwy'r LLWR.

[4] Erfyn asesu yw OASys a ddefnyddir gan NOMS i asesu tebygolrwydd risg aildroseddu a risg niwed difrifol.

ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol, wedi eu cofnodi fel rhai a ymrestrodd ar ddarpariaeth SHDdC.

3.9 Galluogodd y ddwy set ddata hyn – set ddata LLWR a set ddata NOMS NDelius – y tîm gwerthuso i a) broffilio'r ddarpariaeth SHDdC yr ymrestrwyd troseddwyr arno yn 2015-16, ac i edrych i weld sut y 'perfformiodd' y sawl a ymrestrodd ar gyrsiau (o ran cwblhau, cymwysterau a enillwyd etc.), a b) ymchwilio i weld a oedd unrhyw wahaniaethau rhwng y sawl a gofnodwyd fel rhai wedi ymrestru ar ddarpariaeth SHDdC a'r sawl oedd heb, er iddynt ddangos angen posib am ymyriad Sgiliau Hanfodol. Fodd bynnag, am bod nifer y dysgwyr a ymrestrwyd mor isel, ac yng ngoleuni'r canfyddiad o'r ymchwil ansoddol – nad oedd rheolwyr troseddwyr wedi llawn ddeall y ddarpariaeth na'i defnyddio – y teimlad oedd na fyddai canfyddiad o ddadansoddiad o'r berthynas rhwng nodweddion troseddwyr a'r tebygolrwydd y buasai'n cychwyn ar ddarpariaeth, yn ddibynadwy nac yn rhoi gwybodaeth.

*Ymchwil ansoddol*

3.10 Yr oedd dwy elfen i'r ymchwil ansoddol,cyfweliadau unigol ac arolwg arlein. Mae crynodeb o'r agweddau hyn isod, gyda gwybodaeth atodol (arfau gwaith maes) ar gael yn Atodiad D.

*Cyfweliadau unigol*

3.11 Yng Nghymru, mae'r GPC a'r CAC fel ei gilydd yn gweithredu ar draws pum ardal gyflwyno, tra bod y cynllun peilot SHDdC wedi ei rannu yn saith rhanbarth. Contractwyd chwe darparwr cyflwyno i gyflwyno'r ddarpariaeth. Mae Tabl 3.1 yn cyfatebu ardaloedd cyflwyno GPC a CAC i ranbarthau'r cynllun peilot SHDdC, ac yn amlygu'r darparwr cyflwyno dros bob un rhanbarth SHDdC.

**Tabl 3.1: Rhanbarth cyflwyno cynllun peilot SHDdG a rhanbarth gyflwyno gyfatebol GGPC/CAC gyda'r darparwyr cyflwyno**

| Rhanbarth gyflwyno GPC/CAC | Rhanbarth gyflwyno cynllun peilot SHDdC | Darparwr cyflwyno |
|---|---|---|
| Gogledd Cymru | Rhanbarth 1(Môn, Gwynedd, Conwy) | Grŵp Llandrillo Menai |
| | Rhanbarth 2 (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam) | |
| Dyfed Powys | Rhanbarth 4 (De-Orllewin Cymru a'r Canolbarth – Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys) | Hyfforddiant Cambrian |
| De Cymru 1 | Rhanbarth 7 (De-Ddwyrain Cymru a'r Cymoedd – Bro Morgannwg a Chaerdydd) | Coleg Caerdydd a'r Fro |
| De Cymru 2 | Rhanbarth 3 (De-Orllewin Cymru a'r Canolbarth – Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot) | Grŵp T2 (A adwaenir hefyd fel Corfforaeth Marr) |
| | Rhanbarth 6 (De-Ddwyrain Cymru a'r Cymoedd – Merthyr Tudful, Rhondda, Cynon Taf, Penybont) | Academi Sgiliau Cymru (Coleg Sir Benfro) |
| Gwent | Rhanbarth 5 (De-Ddwyrain Cymru a'r Cymoedd – Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Casnewydd, Sir Fynwy) | Hyfforddiant Torfaen |

Ffynhonnell: Carney Green, 2016
Seilir y tabl hwn ar ddogfennau cefndir a ddarparwyd i dîm yr ymchwil gwerthuso.

3.12 Gwahoddwyd rheolwyr busnes/tîm rhanbarthau cyflwyno GPC/CAC i gymryd rhan mewn cyfweliadau teliffon unigol[5], felly hefyd gynrychiolydd o bob darparwr cyfwyno[6]. Dangosir nifer y cyfweliadau a gwblhawyd fesul grŵp rhanddeiliad a rhanbarth cyflwyno GPC/CAC yn Nhabl 3.2. Am weddill yr adroddiad, byddwn yn cyfeirio at y rhanddeiliaid y buom yn siarad â hwy trwy'r cyfweliadau unigol fel a ganlyn – rheolwyr busnes/tîm GPC, rheolwyr busnes/tîm CAC, ac arweinwyr cyflwyno.

Tabl 3.2: Cyfweliadau a gwblhawyd fesul rhanbarth

| Rhanbarth | Cyfanswm nifer y cyfweliadau |
|---|---|
| Gogledd Cymru | 3 |
| Dyfed Powys | 3 |
| De Cymru 1 | 3 |
| De Cymru 2 | 3 |
| Gwent | 2 |
| **Cyfanswm nifer y cyfweliadau** | **13**[7] |

Ffynhonnell: Carney Green, 2016

5 Helpodd arweinwyr GPC a CAC yng Nghymru i nodi'r rheolwr busnes/tîm/unigolyn mwyaf priodol i siarad ag ef/hi ym mhob rhanbarth.
6 Ni fedrodd y tîm gwerthuso gyfweld un o chwe chynrychiolydd y darparwyr cyflwyno.
7 Cynrychiolwyd 14 o grwpiau rhanddeiliaid, ond cwblhawyd 13 o gyfweliadau oherwydd bod un rheolwr busnes/tîm CAC yn ymestyn dros 2 ranbarth.

3.13 Cyn cynnal y cyfweliadau, cafodd y rhai a gyfwelwyd daflen wybodaeth yn amlinellu pwrpas y gwerthuso, a sail i'r trafodaethau oedd canllaw pwnc lled-strwythuredig (gweler Atodiad D am y naill erfyn a'r llall).

*Arolwg arlein*

3.14 Yn ychwanegol at y cyfweliadau unigol, crewyd arolwg arlein i'w gwblhau gan y rheolwyr troseddwyr a hyfforddwyr Sgiliau Hanfodol (y cyfeirir atynt fel 'hyfforddwyr') er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o gyflwyno'r cynllun peilot yn weithredol.

3.15 Adolygwyd yr arolwg gan grŵp llywio'r gwerthusiad a dau reolwr troseddwyr, un o GPC a'r llall o CAC. Yr oedd eu hymateb yn sail i ail-ddrafftio'r arolwg cyn iddo gael ei lansio yn swyddogol.

3.16 Nodwyd un rheolwr arweiniol ar gyfer GPC ac un o CAC Cymru i gefnogi dosbarthiad yr arolwg. Ar 31 Mai 2016, cyn i'r arolwg fynd yn fyw, anfonodd yr arweinwyr hyn daflen wybodaeth[8] yn amlinellu diben y gwerthuso a'r arolwg arlein at eu rheolwyr rhanbarthol, gan ofyn iddynt eu dosbarthu i'w rheolwyr troseddwyr. Defnyddiwyd yr un agwedd i ddosbarthu'r dolenni at yr arolwg arlein pan aeth yn fyw ar 10 Mehefin, 2016[9]. Gofynnwyd i bob rheolwr busnes/tîm rhanbarthol i adrodd am nifer y rheolwyr troseddwyr yr anfonwyd dolen yr arolwg atynt (Tabl 3.3).

3.17 Un peth oedd yn cyfyngu ar yr agwedd hon oedd ei bod yn dibynnu ar randdeiliaid yn anfon y wybodaeth allan yn hytrach na bod yr ymchwilwyr yn anfon y dolenni'n uniongyrchol at y rheolwyr troseddwyr. Nid oedd cronfa ddata gyswllt ganolog y gallai tîm ymchwil y gwerthusiad ei gyrchu fel bod modd anfon dolenni uniongyrchol.

**Tabl 3.3: Niferoedd dosbarthiad yr arolwg – rheolwyr troseddwyr**

| | Gogledd Cymru | Dyfed Powys | De Cymru 1 | De Cymru 2 | Gwent | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GPC | 49 | 23 | 52 | 83 | 30 | 237 |
| CAC | 40 | 29 | 45 | 85 | 30 | 229 |
| Cyfanswm | 89 | 52 | 97 | 168 | 60 | 466 |

Ffynhonnell: Carney Green, 2016

Seilwyd y tabl hwn ar ymatebion gan chwech o reolwyr busnes/tîm rhanbarthol o GPC a CAC

3.18 Gofynnwyd i arweinwyr cyflwyno mewn cyfweliadau i roi manylion cyswllt y sawl oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r ddarpariaeth SHDdC. Cafodd y tîm gwerthuso

[8] Yr oedd y daflen wybodaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

[9] Yr oedd yr arolwg arlein ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

fanylion cyswllt 12 o hyfforddwyr[10]. Anfonwyd y daflen wybodaeth at bob hyfforddwr ynghyd â dolen i'r arolwg arlein (gyda'r un amserlenni ag ar gyfer y rheolwyr troseddwyr). O'r 12, llwyddwyd i gysylltu â naw hyfforddwr. Nid oedd gan dri o'r bobl gyswllt gyfrifon ebyst gweithredol bellach[11].

3.19 Y terfyn amser cychwynnol ar gyfer ymatebion oedd 20 Mehefin 2016. Fodd bynnag, erbyn y dyddiad hwn yr oedd y gyfradd ymateb yn isel a phenderfynwyd felly ymestyn y terfyn amser i 24 Mehefin, ac wedi hynny 5 Gorffennaf. Anfonwyd nodiadau atgoffa allan ar 20 Mehefin a 30 Mehefin, yn rhoi gwybod i reolwyr troseddwyr a hyfforddwyr fod y terfyn amser wedi ei ymestyn.

3.20 43 oedd cyfanswm nifer yr ymatebion a dderbyniwyd, sef cyfradd ymateb o 9.2 y cant. Amlygodd trafodaethau anffurfiol gyda rhanddeiliaid mai'r rheswm tebygol dros y gyfradd ymateb isel hon oedd ymwybyddiaeth wael o'r cynllun peilot ymysg rheolwyr troseddwyr. Felly, er bod rheolwyr troseddwyr yn cael eu hannog i gwblhau'r arolwg, hyd yn oed os na fuont yn rhan o'r cynllun peilot, ni ddigwyddodd hyn bob tro. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli canfyddiadau arolwg sydd â chyfradd ymateb mor wael. Ni ellir rhagdybio fod y canfyddiadau yn cynrychioli'r holl reolwyr troseddwyr a hyfforddwyr.

3.21 O'r 43 ymateb, dywedodd deg na fuont yn ymwneud o gwbl â'r cynllun peilot. Mae dadansoddiad o'r ymatebion fesul grŵp rhanddeiliaid yn Nhabl 3.4.

**Tabl 3.4: Cyfanswm nifer ymatebion fesul grŵp rhanddeiliaid**

| Grwp rhanddeiliaid | Nifer ymatebion |
|---|---|
| Rheolwr Swyddfa GPC | 1 |
| Rheolwyr Troseddwyr GPC | 12 |
| Rheolwyr Troseddwyr CAC | 18 |
| Hyfforddwyr | 12 |

Ffynhonnell: Arolwg gwerthuso cynllun peilot SHDdC
Carney Green, 2016

Sylfaen = pob (43) ymatebydd i'r arolwg,
Seilir y tabl hwn ar yr ymatebion i ddau gwestiwn yn yr arolwg – *Ticiwch y teitl sydd yn disgrifio eich safle orau (dewisiadau: rheolwr swyddfa, rheolwr troseddwyr, hyfforddwr cyflwyno, neu arall);* a *Nodwch i ba sefydliad yr ydych yn gweithio a disgrifiwch eich swyddogaeth benodol.*

[10] Ni allodd arweinwyr darparwyr cyflwyno roi manylion cyswllt i'r holl diwtoriaid sy'n ymwneud â chyflwyno'r ddarpariaeth am eu bod wedi symud ymlaen i sefydliadau eraill ac nid oeddent yn medru rhoi eu manylion cyswllt.
[11] Ceisiodd y tîm ymchwil gysylltu ymhellach gyda'r tiwtoriaid hyn trwy alwadau ffôn a chyswllt ychwanegol gydag arweinwyr darparwyr cyflwyno.

3.22 Cynrychiolwyd y rhan fwyaf o ranbarthau yn yr ymatebion i'r arolwg, ac eithrio, o bosib, Rhanbarth 6. Dywedodd cyfanswm o 14 ymatebydd nad oeddent yn gwybod pan ofynnwyd iddynt o ba ranbarth yr oeddent yn gweithredu, ac felly efallai mai yn Rhanbarth 6 yr oedd rhai o'r ymatebwyr hyn. Fodd bynnag, ni allwn fod yn sicr o hyn am na roddodd bron i draean o ymatebwyr ranbarth.

# 4. Canfyddiadau'r ymchwil ansoddol

4.1 Mae'r bennod hon yn tynnu ar dystiolaeth o'r canlynol:

- Adolygiad llenyddiaeth o'r arferion gorau;
- Cyfweliadau damcaniaeth newid;
- Cyfweliadau unigol gyda rheolwyr busnes/tîm GPC a CAC[12], ac arweinwyr cyflwyno[13]; ac
- Arolwg o reolwyr troseddwyr a hyfforddwyr GPC/CAC.

**Arferion gorau o ran cyflwyno hyfforddiant Sgiliau Hanfodol i droseddwyr ar ddedfrydau yn y gymuned**

4.2 Er mwyn bod yn sail o wybodaeth i gyflwyno hyfforddiant Sgiliau Hanfodol yn y dyfodol i droseddwyr yn y gymuned, a nodi meysydd arferion gorau i'w rhannu gyda chanfyddiadau'r gwerthuso, cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth arbenigol gyfoes yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae Adran 4.3 isod yn rhoi crynodeb byr o'r adolygiad hwn, gyda'r asesiad llawn yn Atodiad B. Ceir mwy o fanylion am y broses o gynnal yr adolygiad yn Adran 3, Methodoleg.

4.3 Er i'r adolygiad ddatgelu ychydig yn unig o enghreifftiau o werthuso cynlluniau tebyg, fe welwyd nifer o ffactorau yn ymwneud â'r arferion gorau a chyflwyno Sgiliau Hanfodol, gan gynnwys:

- Mae angen cyflwyno agwedd integredig sy'n canoli ar y cleient (unswydd) (Clinks, 2014a; Employability Scotland, 2012; Wilson, 2014; Canton, Hine a Welford, 2011).
- Pwysigrwydd defnyddio arfau asesu cadarn a phriodol wrth sefydlu anghenion gwaelodlin, gosod targedau ar draws y grŵp cleient, a gofalu bod adolygu cyson yn digwydd (Employability Scotland, 2012; Canton *et al*, 2011; Molnar a Hopkins, 2006), yn ogystal â defnyddio'r un erfyn asesu ar draws sefydliadau (Employability Scotland, 2012).
- Gwelwyd fod cynnig holistig o gefnogaeth yn esgor ar ddeilliannau cadarnhaol, er enghraifft, ochr yn ochr â chefnogaeth sgiliau a chyflogaeth, da o beth yw cynnwys cefnogaeth ategol yn y meysydd canlynol: defnyddio

[12] Cyfeirir at arweinwyr GPC a CAC o hyn allan fel 'arweinwyr' onid oes angen gwahaniaethu rhwng y ddau gorff.
[13] Cyfeirir at ddarparwyr cyflwyno o hyn allan fel 'darparwyr'.

sylweddau; tai; hunan-barch; cefnogaeth i'r teulu; cyrchu ac adnabod dogfennau; a rheoli dyledion (Clinks, 2014; Wilson, 2014).

- Mae angen rhoi cefnogaeth mewn 'dilyniant' – rhaid ymdrin â materion eraill yn gyntaf er mwyn cefnogi deilliannau cyflogaeth cadarnhaol (Cronfa'r Loteri Fawr (Arrivo Consulting), 2013).
- Mae partneriaeth holistig yn galluogi sefydliadau i ganoli eu hymdrechion gyda'i gilydd ar ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddi, a gwelwyd hyn fel rhan annatod o gael canlyniadau cadarnhaol (Clinks, 2014a; Halsey, Martin, a White, 2006).
- Mae'n bwysig datblygu perthynas waith gref rhwng cyflogwyr a'r sector i gefnogi cyflogadwyedd cyn-droseddwyr (Clinks, 2014a; A Fairer Chance, 2011; Canton, Hine a Welford, 2011).
- Gellir defnyddio menter gymdeithasol fel ffordd o oresgyn rhwystrau at waith i gyn-droseddwyr (Clinks, 2014a). Mae hefyd yn ddull o gwrdd ag amcanion economaidd a chymdeithasol (*ibid*).
- I droseddwyr gael y dewis o ymwneud â darpariaeth Sgiliau Hanfodol neu beidio (Canton, Hine a Welford, 2011). Mae ei wneud yn orfodol yn debyg o gynyddu gwrthwynebiad, a dylai rheolwyr troseddwyr felly fod yn greadigol wrth gael cleientiaid i ddewis cymryd rhan yn hytrach na chael eu gorfodi.

**Adolygiad damcaniaeth newid**

4.4 Mae'r adran nesaf yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau o'r adolygiad damcaniaeth newid. Seilir yr holl ganfyddiadau yn yr adran hon ar ddogfennau am y cynllun peilot ac ymgynghori ag uwch-randdeiliaid fu'n ymwneud â'i ddatblygu a'i gyflwyno. Dengys yr adolygiad y newidiadau fu yn y modd y cyflwynwyd Sgiliau Hanfodol i droseddwyr yn y gymuned trwy'r cynllun peilot SHDdC.

*Polisi sgiliau a chyflogaeth*

4.5 Mae sgiliau yn faes polisi allweddol a ddatganolwyd i Lywodraeth Cymru. Mae cyrraedd Lefel 2 Sgiliau Hanfodol i bob oedolyn yn ddyhead sgiliau allwedol i'r

Llywodraeth fel sy'n cael ei amlinellu yn eu polisi ar ar sgiliau, a'u cynllun gweithredu sgiliau[14].

*Cefndir cynllun peilot SHDdC*

4.6 Fel sy'n cael ei ddatgan ym mharagraff 1.1, cyn cynllun peilot SHDdC, contractiwyd NOMS trwy Gytundeb Memorandwm Dealltwriaeth (MD) i ddarparu Sgiliau Hanfodol hyd at ac yn cynnwys Lefel 2 i droseddwyr dan oruchwyliaeth yn y gymuned. Fe'i cyflwynwyd yn swyddfeydd GPC gan ddarparwyr allanol ar draws Cymru gyfan, a dynnwyd o restr o ddarparwyr cymeradwy ym mhob ardal. Gorffennodd NOMS reoli'r contract ar 31 Mawrth 2015, ac ar 1 Ebrill 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru y ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol yn uniongyrchol a chontractio gyda'r rhwydwaith Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW), fel rhan o'r Haen Parod i Waith[15].

4.7 Cychwynnwyd cyflwyno'r cynllun peilot ar 1 Ebrill 2015 a bwriadwyd yn wreiddiol iddo redeg tan fis Awst 2016. Fodd bynnag, penderfynwyd y byddai'r cynllun peilot yn dod i ben ar ddiwedd Mawrth 2016, yn unol â diwedd y Rhaglen Parod i Waith (diwedd y contractau DSW am y cylch cyflwyno hwnnw) gyda darpariaeth i'w ymgorffori mewn rhaglen cyflogadwyaeth newydd i oedolion o fis Medi 2016 ymlaen.

4.8 Comisiynwyd chwech o ddarparwyr o'r fframwaith DSW i wneud y canlynol:

- Cyflwyno Sgiliau Hanfodol i droseddwyr sydd ar eu dedfrydau yn y gymuned hyd at Lefel 2 yn holl swyddfeydd GPC a CAC ledled Cymru; a
- Cynnal asesiad o droseddwyr a gyfeiriwyd gan ddefnyddio erfyn asesu a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn sgrinio gan GPC/CAC.

4.9 Mae cyfres Sgiliau Hanfodol Cymru o gymwysterau yn rhoi un ysgol gynnydd, dros chwe lefel (Lefelau Mynediad 1,2, a 3 a Lefelau 1,2,3)[16] ac sy'n cynnwys cymwysterau yn y canlynol:

- Cymhwyso Sgiliau Rhif Hanfodol (Mynediad 1 i Lefel 3)
- Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol (Mynediad 1 i Lefel 3)

---

[14] Llywodraeth Cymru (2014) Datganiad polisi ar sgiliau, ar gael: http://gov.wales/docs/dcells/publications/140129-policy-statement-on-skills-cy.pdf; Llywodraeth Cymru (2014) Cynllun Gweithredu Sgiliau, ar gael: http://gov.wales/docs/dcells/publications/140714-skills-implementation-plan-cy.pdf.

[15] Yr oedd y rhaglen Parod i Waith yn cefnogi pobl 18 oed neu hŷn oedd yn ddiwaith ac yn derbyn budd-daliadau gan y DWP. Roedd yn canolbwyntio ar gefnogi pobl i mewn i waith neu i ddysgu pellach.

[16] Bwriadwyd darpariaeth SHDdG i fod at L2 yn unig.

- Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol (Mynediad 1 i Lefel 3)
- Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol (Mynediad 3 i Lefel 3)

4.10 Bwriadwyd i gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru gael eu defnyddio mewn amrywiaeth o leoliadau. Maent yn canoli ar gymhwyso'r sgiliau hyn yn ymarferol, yn enwedig gallu'r dysgwyr i drosglwyddo eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth rhwng cyd-destunau a dibenion. Gallodd darparwyr gyrchu cronfa ddata o'r enw Cronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru (DAQW)[17] oedd yn rhestru'r holl gymwysterau priodol dan yr Haen Parod i Waith y caniatawyd iddynt eu defnyddio.

4.11 Fel rhan o gyfres cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, cynigiwyd cymwysterau Sgiliau Hanfodol ar gyfer Gwaith a Bywyd hefyd i ddysgwyr. Cryfder y cymwysterau Sgiliau Hanfodol ar gyfer Gwaith a Bywyd hyn yw eu hyblygrwydd, gan y gall dysgwyr ddewis cyfuniadau o unedau mewn cyfathrebu, rhifedd ac (yn fwy diweddar) llythrennedd digidol ar lefelau gwahanol i adeiladu cymwysterau o wahanol feintiau. Mae'r rhain yn gymwysterau delfrydol i'r carcharorion hynny ar ddedfrydau byrion neu'r sawl sydd ar remand.

4.12 Yr oedd tâl i ddarparwyr yn seiliedig ar nifer yr oriau a gofnodwyd o gyflwyno gweithgareddau dysgu i ddysgwyr. Defnyddiwyd fformiwla i weithio allan nifer yr Unedau Credyd Cyfatebol (UCC) y gellid eu cyllido am bob gweithgaredd dysgu ar sail yr oriau a gofnodwyd. Gellid cyllido un UCC am bob chwe awr a gofnodwyd (e.e., pe cofnodid 24 awr yna byddai pedair UCC yn gallu cael eu cyllido). Hefyd, yr oedd modd cyllido ychwanegiad seiliedig ar ganolfan[18] o 1.3 am y cyflwyno o ganolfan. Câi llwyddiannau eu cyllido ar ddeg y cant o werth sylfaenol yr UCC (heb gynnwys unrhyw ychwanegiad).

4.13 Mae gan droseddwyr sydd dan oruchwyliaeth GPC neu CAC reolwr troseddwyr sydd â chyfrifoldeb statudol dros sicrhau eu bod yn cydymmfurfio â gofynion eu dedfryd. Mae hyn yn golygu monitro cynnydd yn erbyn cynllun dedfryd y cytunwyd arno. Lle nodwyd angen, dylasai Sgiliau Hanfodol fod wedi bod yn rhan o'r cynllun dedfryd, ond ni ddylasai fod yn orfodol i unigolion ymwneud â'r elfen hon. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â gorfodaeth o unrhyw fath lle mae'n arwain at gosb.

---

[17] Daeth system newydd – Cymwysterau Cymru (CC) - yn lle'r Gronfa Ddata Cymwysterau Cydnabyddedig yng Nghymru (DAQW) ym mis Ebrill 2016.

[18] 'Oriau seiliedig ar ganolfan yw lle mae hyfforddwr yn bresennol i roi cyfarwyddyd penodol, darlithoedd, tiwtorialau neu astudio dan oruchwyliaeth tuag at y gweithgaredd dysgu. Fe all gynnwys gweithgaredd grŵp y tu allan i'r ganolfan ddysgu.

4.14 Dywedodd uwch-randdeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy eu bod, ar wahân i reolaeth y contract, yn rhagweld y byddai'r agwedd gyflwyno yn debyg i'r hyn oedd yn digwydd dan reolaeth NOMS. Fodd bynnag, nodwyd rhai newidiadau yn y dull cyflwyno:

- Y bwriad oedd i'r ddarpariaeth gael ei chyflwyno yn swyddfeydd GPC a CAC, fel o'r blaen. Fodd bynnag, cytunodd Llywodraeth Cymru a NOMS i rai gweithgareddau gael eu cyflwyno mewn adeiladu eraill a gymeradwywyd (cytunwyd ar hyn fesul achos).
- Er bod gwaith grŵp yn cael ei annog, defnyddiodd darparwyr mewn gwahanol ardaloedd amrywiol agweddau (cymysgedd o waith unigol a sesiynau gwaith grŵp).

*Rhesymeg y cynllun peilot*

4.15 Mae polisi ar sgiliau a chyflogaeth yng Nghymru yn amlygu angen i godi lefelau sgiliau'r diwaith a'r rhai sydd mewn gwaith. Yr oedd Transforming Rehabilitation[19] a diwygio'r gwasanaeth prawf yn gyfle i Lywodraeth Cymru hefyd ymchwilio i newidiadau yng nghyflwyno Sgiliau Hanfodol i droseddwyr. Bu hyn yn gyfle i roi prawf ar agwedd newydd; edrych i mewn i weld a oedd cyflwyno Sgiliau Hanfodol i droseddwyr yn ffitio'n effeithiol o fewn strwythurau cyflwyno presennol Llywodraeth Cymru; a deall sut y gellid ei integreiddio i raglen ehangach sgiliau oedolion Llywodraeth Cymru (sydd ar gael i bob oedolyn nad yw mewn gwaith).

4.16 Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwneud yn sicr fod cyflwyno Sgiliau Hanfodol i droseddwyr wedi asio gyda'r agwedd strategol o ran sgiliau a chyflogaeth. Fel y disgrifiwyd eisoes, ceisiodd Llywodraeth Cymru redeg modelau cyflwyno arloesol a chost-effeithiol. Yr oedd y cynllun peilot SHDdC mewn gwirionedd yn cynnig agwedd fwy uniongyrchol at reolaeth Llywodraeth Cymru o'r contract, a chomisiynu gwasanaethau yn uniongyrchol trwy ei fframwaith DSW, yn hytrach na bod y contract yn cael ei reoli gan NOMS.

4.17 Trwy gomisiynu gwasanaethau'n uniongyrchol trwy fframwaith DSW, asiwyd darpariaeth i droseddwyr oedd yn cael ei reoli yn y gymuned fwyfwy â darpariaeth sgiliau gyffredinol Llywodraeth Cymru i oedolion. Yr oedd hyn yn ceisio creu agwedd fwy cyson at gyflwyno dysgu i unigolion diwaith ledled Cymru, a fuasai, mewn egwyddor, yn cynnig potensial i gyflwyno agwedd fwy unedig a llyfn at gyrchu Sgiliau Hanfodol a symud ymlaen.

---

19 https://www.gov.uk/government/publications/transforming-rehabilitation-a-strategy-for-reform (gweler paragraff 1.1).

*Cymhwysedd/cyfeirio*

4.18 Y grŵp targed ar gyfer y cynllun peilot oedd troseddwyr heb fod mewn gwaith, oedd angen cefnogaeth Sgiliau Hanfodol hyd at ac yn cynnwys Lefel 2, oedd ar ddedfrydau yn y gymuned dan oruchwyliaeth y GPC neu CAC. Er mwyn bod yn gymwys, rhaid oedd i unigolion fod yn 18 oed neu'n hŷn, ac yn byw yng Nghymru. Rôl GPC/CAC oedd cyfeirio troseddwyr oedd angen cefnogaeth Sgiliau Hanfodol hyd at a chan gynnwys Lefel 2, i ddarparwyr.

4.19 Byddai GPC/CAC yn cynnal asesiad cychwynnol o anghenion cefnogaeth troseddwyr, oedd yn ymdrin â sgiliau a chyflogaeth, fel rhan o'r System Asesu Troseddwyr (OASys)[20]. Petai'r system yn tynnu sylw at y ffaith y gall fod troseddwr ag angen Sgiliau Hanfodol, yna byddai rheolwyr troseddwyr GPC/CAC yn pennu angen Sgiliau Hanfodol ac yn cadarnhau ei b/fod yn gymwys ar gyfer dysgu. Byddai gofyn i reolwyr troseddwyr wedyn lenwi ffurflen gyfeirio Sgiliau Hanfodol. Cafodd hyn ei ddyfeisio a'i gadarnhau gan Lywodraeth Cymru a NOMS, ac yr oedd yn ei le cyn cychwyn y cynllun peilot ym mis Ebrill 2015.

4.20 Unwaith i'r cyfeiriad gael ei wneud at y ddarpariaeth, roedd gofyn wedyn i hyfforddwyr gynnal asesiad Sgiliau Hanfodol llawn gan ddefnyddio Pecyn Gwybodaeth Sgiliau Hanfodol Cymrut (WEST) neu erfyn cyfatebol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru i bennu lefel sgiliau ac anghenion datblygu unigolyn. Yn dilyn yr asesiad cychwynnol, dylai pob troseddwr fod wedi cael Cynllun Dysgu Unigol (CDU). Dylai'r dysgwr wedyn gael ei asesu a'r cynnydd gael ei adolygu yn ôl y galw er mwyn gwneud yn siwr fod y dysgwr yn bwrw ymlaen tuag at y nod angenrheidiol.

4.21 O ymgynghori â'r uwch-randdeiliaid gwelwyd amrywiaeth yn y modd yr oedd anghenion Sgiliau Hanfodol yn cael eu nodi a'u hasesu. Er enghraifft, disgrifiodd un ymatebydd sut y buont yn defnyddio erfyn sgrinio i ddechrau, ond iddynt wedyn gael ar ddeall fod yr hyfforddwyr naill ai heb fod ei eisiau neu nad oeddent yn ei ddefnyddio, ac felly rhoesant hwythau'r gorau i'w ddefnyddio.

4.22 Er nad yw ymwneud â darpariaeth Sgiliau Hanfodol yn orfodol i droseddwyr yr oedd disgwyl y byddid yn tynnu sylw yn y llys at y ffaith fod darpariaeth Sgiliau Hanfodol ar gael, ac y byddai hyn yn cael ei annog fel rhan o ddedfryd y troseddwr neu ran o amodau ei d/thrwydded adeg ei r/rhyddhau o garchar.

[20] Erfyn asesu yw OASys a ddefnyddir gan NOMS i asesu tebygolrwydd risg aildroseddu a risg niwed difrifol.

*Ymwneud*

4.23 Cafodd darparwyr hyblygrwydd o ran cyflwyno Sgiliau Hanfodol ar yr amod y cafwyd caniatad Llywodraeth Cymru via llinell ymholiadau AskWBL. Yn amodol ar asesiad risg gan GPC/CAC a chymeradwyaeth, byddid yn cymeradwyo dulliau hyblyg o gyflwyno, e.e., cyflwyno mewn campfa.

4.24 Rhannwyd Cymru yn saith rhanbarth gyflwyno. Yr oedd y llythyr Mynegiant Diddordeb (MD) a anfonwyd at ddarparwyr yn amlinellu sut y dylai darparwyr sicrhau bod Sgiliau Hanfodol yn cael eu cyflwyno ym mhob swyddfa brawf.

4.25 Y bwriad yn wreiddiol oedd i Sgiliau Hanfodol gael eu cyflwyno mewn grwpiau. Soniodd un uwch-randdeiliad sut yr helpodd dysgu troseddwyr mewn grŵp i greu amgylchedd dysgu mwy effeithiol, lle gallai troseddwyr ddysgu ymddwyn yn briodol gyda'i gilydd a chyda tiwtor mewn sefyllfa dosbarth. Cafwyd bod hyn hefyd yn fwy effeithlon yn ariannol.

4.26 Yr oedd darpriaeth ar gael i ddysgwyr cyhyd â'u bod dan oruchwyliaeth CAC neu GPC yng Nghymru. Os byddai'r unigolyn angen cefnogaeth dysgu ychwanegol unwaith i'r goruchwylio ddod i ben, byddai'n cael ei gyfeirio gan yr hyfforddwr at ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol brif-ffrwd yn y gymuned.

*Gweledigaeth ar gyfer cyflwyno llwyddiannus*

4.27 Gofynnwyd i uwch-randdeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy ddisgrifio sut beth fyddai 'llwyddiant' o ran cyflwyno'r cynllun peilot SHDdC. Crynhoir yr ymatebion isod:

- Cyfres gadarn o ddeilliannau lle'r enillodd troseddwyr gymwysterau Sgiliau Hanfodol a symud gam yn nes at gael gwaith.
- Byddai'n cefnogi symud diwnïad ymlaen i raglenni sgiliau eraill, yn enwedig gan mai rhan o'r rhesymeg oedd ei asio gyda'r ddarpariaeth sgiliau ehangach a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Yn y pen draw, y nod oedd i'r cynllun peilot gyfrannu at lai o aildroseddu.

4.28 Y senario ddelfrydol fyddai i droseddwyr gwblhau eu dedfrydau cymuned neu gyfnod trwydded yn llwyddiannus a bod yn barod am waith.

4.29 Teimlai'r uwch-randdeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy fod angen gweithredu'r ffactorau canlynol er mwyn llwyddo:

- I GPC/CAC a'r darparwyr cyflwyno ddeall y cynllun peilot yn glir a'r hyn yr oedd yn ceisio wneud.

- I brosesau clir fod yno o'r cychwyn cyntaf.
- Cael mecanweithiau cyfeirio clir.
- Yr angen am ddeall natur orfodol yn glir.
- I'r darparwyr cyflwyno fod â pherthynas dda gyda darparwyr hyfforddiant allanol prif-ffrwd, yn enwedig o ran cefnogi cyfeirio at weithgareddau.

*Monitro perfformiad*

4.30 Yr oedd perfformiad yn cael ei fesur yn erbyn y canlynol:

- Canran yr holl adawyr a enillodd gymwysterau/unedau o gymwysterau (targed: 50% o bawb a gymerodd ran).
- Canran gadawyr aeth ymlaen i waith (20%).
- Canran gadawyr aeth ymlaen i ddysgu pellach (20%).

4.31 Rhaid oedd i bob darparwr gydymffurfio â'r gofynion cofnodi a thystiolaeth gefnogol a nodwyd ar gyfer y rhaglen Parod i Waith. Fodd bynnag, dywedodd un uwch-randdeiliad yr ymgynghorwyd ag ef, er bod targedau yn bod, nad oedd perfformiad yn erbyn y rhain yn effeithio ar ddeilliant perfformiad cyffredinol y darparwyr (e.e., cyflwyno'r rhaglen sgiliau oedolion, prentisiaethau a chynlluniau hyfforddi oedd yn bod eisoes). Gwnaed y penderfyniad hwn am bod darparwyr yn gyndyn i ymgymryd â'r contract petai hyn yn effeithio ar eu perfformiad cyffredinol cysylltiedig â'r taliad.

4.32 I fonitro cynnydd troseddwyr, roedd gofyn i ddarparwyr cyflwyno gysylltu â hwy wedi tri mis (wedi iddynt roi'r gorau i ymwneud â hyfforddiant Sgiliau Hanfodol) i ddarganfod eu cyrchfan (e.e., hyfforddiant pellach, gwaith etc.).

4.33 Yr oedd datganiad trefniant y darparwr ar gyfer y contract yn datgan y byddai'r darparwyr GPC, CAC a DSW yn ceisio datblygu arferion gweithio cyson er mwyn sicrhau cytundeb ar sail Cymru gyfan ar rannu gwybodaeth briodol am droseddwyr, gan dalu sylw arbennig i'r canlynol:

- Prosesau i dderbyn gwybodaeth gyfeirio ym mhob lleoliad.
- Cefnogaeth yn ystod dysgu.
- Bwydo gwybodaeth yn ôl i Reolwyr Troseddwyr (e.e., presenoldeb a chymwysterau a enillwyd).
- Cyrchfannau cleientiaid.
- Gwybodaeth a chyfeirio.

4.34 Yn strategol, cafodd y cynllun peilot ei fonitro trwy i gynrychiolwyr allweddol o GPC/CAC a NOMS fynychu cyfarfodydd Sgiliau Hanfodol Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) gyda darparwyr DSW eraill. Cynhaliodd yr NTfW hefyd gyfarfodydd ar wahân yn unig ar gyfer y darparwyr Sgiliau Hanfodol yn y Gymuned, CAC, GPC a NOMS a Llywodraeth Cymru.

**Canfyddiadau o'r arolwg a chyfweliadau**

4.35 Mae'r adran isod yn cyflwyno'r canfyddiadau o'r cyfweliadau unigol gyda rheolwyr busnes/tîm CAC a GPC ac arweinwyr cyflwyno, a'r arolwg arlein o reolwyr troseddwyr a hyfforddwyr. Mae'n ymdrin â: dealltwriaeth rhanddeiliaid o gefndir a rhesymeg y cynllun peilot; gweithredu; cymhwyster a chyfeirio; cyflwyno; a monitro, adrodd a rhannu gwybodaeth.

*Cefndir a rhesymeg SHDdC*

4.36 Er bod y rhanddeiliaid yn deall fod y cynllun peilot yn canoli ar gyflwyno Sgiliau Hanfodol,gyda rhywfaint o grybwyll cysylltiadau i'w derfynu, dangosodd eu hymatebion nad oedd yn deall yn glir nac yn fanwl resymeg y cynllun peilot. Dywedodd rhai rhanddeiliaid nad oeddent yn gwybod pam fod rheolaeth y ddarpariaeth wedi newid, a bod hyn wedi arwain at ddarparwyr newydd (yn y rhan fwyaf o achosion) yn cyflwyno Sgiliau Hanfodol.

> 'Wel, dyw e ddim wedi torri, pam eich bod yn ei newid? Pam ei drwsio ac yntau'n gweithio'n iawn i ni nawr?'
>
> Rheolwr busnes/tîm CAC

4.37 Yn groes i hyn, datgelodd canfyddiadau'r arolwg, er bod rhai ymatebwyr yn ansicr am resymeg a nod y cynllun peilot, ei bod yn ymddangos fod gan y staff gweithredol well lefel o ddealltwriaeth o'i resymeg. Cyfeiriodd ymatebwyr yr arolwg at y ffaith fod darpariaeth Sgiliau Hanfodol yn canoli ar gyflwyno llythrennedd, rhifedd, a dysgu am TGCh (tri o'r meysydd dysgu y manylwyd arnynt yn y contract cyflwyno fel y'i gosodwyd allan ym mharagraff 4.9), er na chrybwyllwyd yr olaf mor aml. Cyfeiriodd cyfran uchel o ymatebwyr (16) at bwysigrwydd gwella Sgiliau Hanfodol er mwyn cefnogi troseddwyr i gael gwaith yn y dyfodol.

4.38 Dywedodd nifer o randdeiliaid mai'r brif flaenoriaeth i reolwyr troseddwyr oedd atal aildroseddu a sicrhau diogelwch y cyhoedd. Gan fod hyfforddiant Sgiliau Hanfodol yn cael ei weld fel un o'r ffactorau cyfrannu/gweithgareddau posib i leihau aildroseddu, yr oedd ei bwysigrwydd yn cael ei gydnabod (ffactorau eraill a

grybwyllwyd gan reolwyr busnes/tîm oedd dod o hyd i waith a chyfleoedd hyfforddi pellach).

4.39 Doedd dim consensws clir o blith y rheolwyr busnes/tîm ynghylch ag a ddylid ymgorffori'r cynllun peilot i'r ddarpariaeth ehangach sgilau cyflogadwyedd i oedolion. Fodd bynnag, yr oeddent yn cydnabod fod anghenion troseddwyr yn dueddol o fod yn wahanol i rai'r boblogaeth ehangach, ac y byddai angen ateb y gofynion hyn petai ymgorffori yn digwydd.

*Gweithredu*

4.40 Wrth i'r cynllun peilot gael ei lansio, gosodwyd y contract am y ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol o'r newydd gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd y rhan fwyaf o'r darparwyr y cysylltwyd â hwy wedi cyflwyno darpariaeth Sgiliau Hanfodol i droseddwyr o'r blaen. Fodd bynnag, yn Nyfed Powys, gwnaeth y darparwyr newydd a gomisiynwyd is-gontractio cyflwyno SHDdC i'r cyrff fu'n cyflwyno'r contract o'r blaen.

4.41 Soniodd mwyafrif y rhanddeiliaid fod y cyfnod gweithredu cychwynnol yn hirfaith iawn, a'u bod yn teimlo bod hyn wedi arwain at fwlch yn y ddarpariaeth. Disgrifiodd rheolwyr busnes/tîm sut yr oedd y bwlch hwn yn andwyol i fwrw ymlaen gyda'r cynllun peilot, gan ei fod wedi golygu bod rheolwyr troseddwyr yn teimlo wedi siomi ac yn amheus o'r ddarpariaeth newydd. Galwodd un rheolwr busnes/tîm hyn yn *'golli'r cwch'*, gan nodi'r oedi hwn fel un o'r ffactorau a gyfrannodd at y niferoedd isel a gyfeiriwyd (gweler *cymhwysedd a chyfeirio*). Yn Nyfed Powys, lle'r is-gontractiwyd y cyflwyno yn ôl i'r darparwyr blaenorol, yr oedd yr amseroedd gweithredu yn fyrrach.

4.42 Nododd y rheolwyr busnes/tîm a'r arweinwyr cyflwyno nifer o ffactorau a gyfrannodd at yr oedi wrth gyflwyno. Yn eu mysg yr oedd:

- yr amser oedd ei angen i gyfleu'r cynnig Sgiliau Hanfodol newydd rhwng darparwyr, rheolwyr swyddfeydd a rheolwyr troseddwyr;
- darpariaeth Wi-Fi heb fod ar gael yn swyddfeydd GPC/CAC , gan fod rhai darparwyr wedi bwriadu defnyddio deunyddiau dysgu seiliedig ar y rhyngrwyd; a
- diffyg cyswllt rhwng yr hyn y comisiynwyd darparwyr i'w gyflwyno a'r hyn yr oedd rheolwyr troseddwyr eisiau/yn teimlo oedd ei angen i gwrdd ag anghenion eu cleientiaid.

4.43 Ymddengys mai'r ffactor olaf hwn oedd y rhwystr pennaf, a'i fod wedi golygu fod rheolwyr troseddwyr yn gyndyn o gyfeirio eu troseddwyr at y ddarpariaeth.

4.44 Yn y rhan fwyaf o achosion, soniodd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd am y modd yr oedd darparwyr cyflwyno wedi bwriadu cynnig sesiynau grŵp; fodd bynnag, disgrifiodd y rheolwyr busnes/tîm fel yr oedd rheolwyr troseddwyr yn teimlo nad oedd hyn yn wastad yn briodol ar gyfer eu cleientiaid (yn enwedig y sawl â lefel isel iawn o lythrennedd a rhifedd, a rhai o gleientiaid GPC, gan gyfeirio'n benodol at y rhai oedd mewn dosbarth risg uchel). Er i randdeiliaid yng ngogledd Cymru ddisgrifio sut yr oedd peth darpariaeth unigol yn eu rhanbarth, fel rheol dywedodd rheolwyr busnes/tîm a darparwyr cyflwyno nad oedd modd cael darpariaeth unigol oherwydd mecanweithiau cyllido'r contract cyflwyno, oedd yn golygu nad oedd yr agwedd hon yn ariannol hyfyw. Amlygwyd y cynllun cyllido oedd yn cael ei ddefnyddio hefyd fel un o wendidau'r cynllun peilot, a nodwyd gan bump o ymatebwyr i'r arolwg (pedwar ohonynt yn hyfforddwyr).

4.45 Gwnaed rhai cyfeiriadau hefyd – gan ddau reolwr busnes/tîm (un GPC ac un CAC) a dau arweinydd cyflwyno – at anaddasrwydd lansio cynllun peilot mewn cyfnod o newid sefydliadol, sef cyfeiriad at GPC a CAC a ddaeth yn lle Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, oedd yn gyfrifol yn wreiddiol am reoli cyflwyno Sgiliau Hanfodol yn y gymuned.

> 'Dwyf i ddim yn meddwl bod amseru'r prosiect hwn yn wych.'
>
> rheolwr busnes/tîm GPC

> 'Rwy'n meddwl mai'r her fwyaf oedd nad oedd wir yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Prawf… fe ddywedson nhw eu bod ar y pryd yn mynd trwy'r newidiadau enfawr hyn.'
>
> Arweinydd cyflwyno

4.46 Cyfeiriodd dau randdeiliad yn uniongyrchol aty ffaith fod argaeledd daearyddol y ddarpariaeth yn 'ysbeidiol' a 'thameidiog'. Cafwyd peth cyfeirio at ddarparwyr yn tynnu'n ôl oherwydd yr heriau ariannol, gydag un darparwr yn dweud *'na wnaeth erioed gychwyn mewn gwirionedd'*. Adroddodd rhanddeiliaid fod hyn wedi arwain at ddryswch ymysg rheolwyr troseddwyr rynghylch yr hyn oedd ar gael ac at ba wasanaethau y gallent gyfeirio eu cleientiaid atynt, a nodwyd hyn fel rheswm am nifer is y rhai a gychwynnodd o gymharu â blynyddoedd blaenorol (gweler Adran 5).

4.47 Mewn cyfweliadau, cymysg oedd barn rhanddeiliaid am effeithiolrwydd cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru a darparwyr cyflwyno yn y cyfnod gweithredu. Negyddol oedd yr ymatebwyr i'r arolwg: diffyg cyfathrebu, eglurder a dealltwriaeth o'r cynnig (naw o ymatebwyr) a ddyfynnwyd amlaf fel gwendidau'r cynllun peilot.

4.48 Ar waethaf yr heriau hyn, disgrifiodd un arweinydd darparu sut y buont yn cynnal gweithdai i reolwyr troseddwyr i roi gwybod iddynt am y ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol a'r hyn a olygai; canfu'r arweinydd cyflwyno fod y rhain yn effeithiol i gyfleu'r cynnig ac i greu perthynas gyda rheolwyr troseddwyr. Dywedodd bron bob arweinydd cyflwyno fod i hyfforddwyr ddatblygu perthynas gyda rheolwyr troseddwyr o'r cychwyn yn alluogwr pwysig i ennyn ymddiriedaeth, a helpu i gau'r bwlch yn amserlenni'r ddarpariaeth.

*Cymhwysedd a chyfeirio*

4.49 Yn gysylltiedig â'r cyfathrebu cyffredinol wael ynghylch y newidiadau yn y ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol, nid oedd ymatebwyr i'r arolwg o GPC a CAC yn gyffredinol fel petaent yn deall yn glir feini prawf cymhwysedd y cynllun peilot, gyda chyfran uchel yn dweud nad oeddent yn ymwybodol o'r meini prawf (rheolwyr troseddwyr oedd y rhain fel rheol, a ddywedodd nad oeddent yn ymwneud â'r cynllun peilot).

4.50 Y consensws cyffredinol gan randdeiliaid mewn cyfweliadau oedd pryder am addasrwydd y meini prawf cymhwysedd, gan eu bod yn tybio eu bod yn rhy gaeth. Er enghraifft, nid oedd un arweinydd cyflwyno yn teimlo ei bod yn briodol i droseddwyr mewn gwaith fod yn anghymwys ar gyfer y ddarpariaeth, am fod hyn yn golygu na fyddai troseddwyr oedd ar gontractau dim oriau neu oedd yn gwethio'n rhan amser (ac felly yn gweithio yn anfynych) yn gymwys. Teimlai rheolwr busnes/tîm GPC y dylai dinasyddion tramor fod yn gymwys am y ddarpariaeth, oherwydd bod gan gyfran uchel o'r grŵp hwn anghenion Sgiliau Hanfodol[21]. Dywedodd y rheolwr busnes/tîm hwn hefyd fod ar droseddwyr angen rhif Yswiriant Gwladol (YG), ond nad oedd gan bob troseddwr un.

4.51 Cyfeiriodd ymatebwyr at arfau sgrinio (gyda rhai yn cyfeirio'n benodol at First Move, fel y'i nodwyd yn namcaniaeth newid, a holiaduron ac asesiadau Basic and Key

[21] Mae contractau DSW Llywodraeth Cymru, y cyflwynwyd y cynllun peilot hwn drwyddynt, yn gweithredu dan feini prawf cymhwysedd caeth iawn, i gydymffurfio a rheolau CGE sydd yn cyfyngu mynediad i bobl sydd yn "ddinasyddion tramor anghymwys a'r sawl sydd mewn gwaith rhan neu lawn amser".

Skill Builder (BKSB[22]) pan ofynnwyd iddynt sut y byddent yn asesu anghenion Sgiliau Hanfodol troseddwyr. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt mewn cyfweliadau am effeithiolrwydd y broses asesu gychwynnol, cymysg oedd yr ymateb gan rhanddeiliaid arweiniol ynghylch y modd y dilynwyd y broses hon gan reolwyr troseddwyr; dywedodd rhai nad oedd yr arfau hyn yn wastad yn llwyddiannus (h.y., nid oeddent yn nodi troseddwyr addas, neu ni lwyddwyd i gyfeirio troseddwyr cymwys) neu nid oedd y sgrinio wedi digwydd hyd yn oed. Ailadroddwyd hyn trwy ganfyddiadau'r arolwg; pan ofynnwyd a oeddent yn tybio fod cyfranogwyr cymwys yn cael eu nodi'n effeithiol neu beidio, na oedd ateb 25 o 43 ymatebydd[23]. Teimlai tri hyfforddwr fod hyn yn rhannol am mai cyfrifoldeb y rheolwr troseddwyr oedd cyfeirio, heb unrhyw ymwneud gan yr hyfforddwyr. Ymysg rhesymau eraill a nowyd gan ymatebwyr yr arolwg yr oedd: Sgiliau Hanfodol yn cael eu gweld fel blaenoriaeth isel/heb gael eu cymryd o ddifrif (dau reolwr troseddwyr CAC); a chyfyngu ar reolwyr troseddwyr gan feichiau achos trwm a phwysau gwaith (rheolwr troseddwyr CAC).

> 'Mae adnabod i ddechrau yn dibynnu ar y rheolwr troseddwyr: / (i) yn gwybod pa wasanaeth yr oeddem yn gynnig / (ii) yn gwybod beth oedd lefelau sgiliau'r troseddwyr yr oeddent yn gweithio gyda hwy – y gwiriwr sgiliau cychwynnol (na welsom yn cael ei ddefnyddio beth bynnag!)'
>
> Hyfforddwr (ymatebydd i'r arolwg)

4.52 Yn ystod y cyfweliadau unigol, soniodd yr holl arweinwyr GPC am bryderon nad oedd anghenion eu cleientiaid yn cael eu hystyried yn llawn adeg datblygu'r cynllun peilot Sgiliau Hanfodol.

> 'Doedd hi ddim yn teimlo bod neb wedi meddwl yn ddwys am y peth, o safbwynt ein clientele.'
>
> rheolwr busnes/tîm GPC

> 'Roedd y cyflwyno blaenorol gymaint yn well; yn y bôn, mae'r cyflwyno hwn wedi bod yn drychinebus, dim byd yno, heb fod yn addas at y diben o gwbl, felly allwn ni ddim ymwneud.'
>
> rheolwr busnes/tîm GPC

[22] Mae Asesiad Cychwynnol BKSB yn asesiad rhyngweithiol hunan-farcio llawn sy'n caniatau i'r darparwr cyflwyno bennu lefel cyfredol dysgwr o allu o Gyn-Fynediad at Lefel 2.

[23] Pan ofynwyd 'Ydych chi'n meddwl fod cyfranogwyr cymwys yn cael eu hadnabod yn effeithiol?'atebodd 9 ymatebydd 'Ydw', dywedodd 25 ymatebydd 'Na' , ac ni roddodd 9 ymatebydd ateb.

4.53 Doedd rhanddeiliaid ddim yn siwr a oedd anghenion iaith Gymraeg y grŵp cleient yn cael eu hateb. Er enghraifft, dywedodd un arweinydd cyflwyno nad oedd ganddynt diwtoriaid Cymraeg eu hiaith ac na fuasent felly wedi gallu ymateb i'r angen hwn petai galw'n codi.

4.54 Yn yr un modd, ni roddodd 12 o ymatebwyr i'r arolwg ymateb neu nid oeddent yn sicr sut y nodwyd gofynion iaith Gymraeg pan holwyd. Fodd bynnag, cafwyd rhai cyfeiriadau at nodi anghenion iaith Gymraeg troseddwyr gan ymatebwyr i'r arolwg: adeg cynefino (pedwar ymatebydd), ar eu ffurflen gyfeirio (tri ymatebydd), yng Nghynllun Dysgu Unigol (CDU) y troseddwr (dau ymatebydd), gan y tiwtor (dau ymatebydd), ac ar NDelius (dau ymatebydd).

4.55 Cyfeiriodd 23 o ymatebwyr yr arolwg at ddefnyddio ffurflen gyd-gyfeirio Sgiliau Hanfodol GPC a CAC. Disgrifiodd mwyafrif ymatebwyr yr arolwg sut y cyflwynwyd y ffurflenni cyfeirio at y tiwtoriaid cyflwyno trwy ebost neu gopi papur.

*Ymrestru*

4.56 Er y gallai unigolion fod wedi eu nodi fel rhai ag angen Sgiliau Hanfodol gan reolwyr troseddwyr, disgrifiodd GPC/CAC sut nad oedd hyn yn wastad yn arwain at ymrestru, gan y gallai'r troseddwyr unigol fod wedi penderfynu peidio ag ymwneud. Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg roi rhesymau pam na fyddai troseddwyr cymwys fod wedi dymuno derbyn hyfforddiant Sgiliau Hanfodol. Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd: nid oeddent yn teimlo fod arnynt ei angen neu nad oedd ganddynt symbyliad (12 ymatebydd);nid oeddent eisiau gweithio mewn sefyllfa grŵp (pum ymatebydd); fod eu bywydau yn ddi-drefn (pum ymatebydd); a bod ganddynt broblemau ynghylch hyder/ofn cymryd rhan (pedwar ymatebydd)[24]. Cyfeiriodd rheolwyr busnes/tîm ac arweinwyr cyflwyno hefyd at brofiadau negyddol troseddwyr o addysg, yn ogystal â'r ffaith mai gwirfoddol oedd presenoldeb (ac nad oedd modd ei orfodi felly).

4.57 Disgrifiodd un arweinydd cyflwyno sut y gallodd gynnig rhai sesiynau blasu i droseddwyr cyn iddynt ymrwymo i ymrestru ar yr hyfforddiant. Roedd yn teimlo y gallasai mwy o sesiynau blasu fod wedi helpu i godi'r niferoedd ymrestru, gan eu bod yn helpu i ddangos i'r troseddwyr bwysigrwydd Sgiliau Hanfodol a'r hyn y gallasent ennill o gymryd rhan.Fodd bynnag, dywedodd yr arweinydd y buasai hyn yn fwy hyfyw petai mwy o arian ar gael yn y contract cyflwyno.

[24] Seiliedig ar atebion wedi eu codio – gallodd ymatebwyr roi mwy nag un rheswm.

4.58 Pan ofynnwyd beth fyddai'n digwydd pe na bai troseddwyr cymwys eisiau derbyn hyfforddiant, dywedodd yr hyfforddwyr a'r rheolwyr troseddwyr sut y cyfeiriwyd hwy at wasanaethau cefnogi eraill (11 o ymatebwyr i'r arolwg), ac y cawsant gynnig y ddarpariaeth eto'n gyson trwy gydol cyfnod eu gorchymyn cymunedol (saith ymatebydd i'r arolwg).

4.59 Dywedodd 16 o ymatebwyr i'r arolwg nad oeddent yn sicr sut yr oedd lefel yr ymwneud/presenoldeb ar y cynllun peilot yn cymharu â'r contract blaenorol a gyflwynwyd dan NOMS. Nododd ymatebwyr i'r arolwg mai diffyg neu gost cludiant i leoliad y cyflwyno oedd y rhwystr mwyaf i ymwneud (wyth ymatebydd), yn enwedig i'r sawl oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig. Disgrifiodd un rheolwr busnes/tîm GPC sut y byddai rheolwyr troseddwyr a hyfforddwyr yn ceisio goresgyn y rhwystr hwn trwy gyfyngu ar nifer yr adegau y byddai'n rhaid i droseddwr deithio i'r swyddfa bob wythnos, er enghraifft trwy drefnu cyfarfodydd cefnogi eraill ar yr un dydd â'r ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol. Disgrifiwyd hefyd sut yr oedd ad-dalu treuliau teithio yn help i oresgyn rhwystrau.Fodd bynnag, soniodd rheolwr busnes/tîm GPC gwahanol fel yr oedd y broses o ad-dalu yn golygu taliad uniongyrchol i gyfrif banc troseddwr. Ni welwyd bod hyn yn addas, gan nad oedd gan bob troseddwr gyfrif banc.

4.60 Rhwystrau eraill i ymrestru/presenoldeb a grybwyllwyd gan ymatebwyr i'r arolwg oedd: cyfrifoldebau gofal plant a gofalu (saith ymatebydd); cael gwaith (pump o ymatebwyr); a phroblemau iechyd (pedwar ymatebydd). I oresgyn rhwystrau i ymwneud, cyfeiriodd y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg at bwysigrwydd cael rheolwr troseddwyr i annog a chynnal gweithgareddau symbylu.

*Cyflwyno Sgiliau Hanfodol*

4.61 Yr oedd yn ymddangos bod y cynnig Sgiliau Hanfodol, fel y'i disgrifiwyd gan reolwyr busnes/tîm ac arweinwyr cyflwyno, yn amrywio ledled Cymru, er bod ymatebwyr (i gyfweliadau unigol a'r arolwg) fel rheol yn cyfeirio at ddarparu hyfforddiant sgiliau llythrennedd a rhifedd. Dan y contract, gallai darparwyr cyflwyno gyflwyno cyfres o gymwysterau yn ymdrin â sgiliau cyfathrebu, cymhwyso rhif, sgiliau llythrennedd digidol, a sgiliau cyflogadwyedd. Fodd bynnag, soniodd rheolwyr busnes/tîm ac arweinwyr cyflwyno hefyd am gyflwyno gweithgareddau ychwanegol gan gynnwys: dinasyddiaeth, hyfforddiant iechyd a diogelwch, hyfforddiant cerdyn Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladwaith (CSCS); a gweithdai crefft.

4.62 Cyfeiriodd arweinwyr cyflwyno at bwysigrwydd cwrdd ag anghenion troseddwyr. Er enghraifft, cyfeiriodd un arweinydd cyflwyno at deilwrio'r deunyddiau dysgu at ddiddordebau penodol troseddwyr er mwyn cynal eu diddordeb. Yr oedd hyn yn cynnwys creu taflenni gwaith a gweithgareddau unswydd am hobïau neu swyddi yr oedd gan y dysgwyr ddidordeb ynddynt. Cafwyd esiampl hefyd o ddinasyddiaeth weithredol trwy weithgareddau yn ymwneud ag elusen; trefnodd un darparwr i ddysgwyr greu mur crefft Cennin Pedr Marie Curie. Rhaid oedd i'r dysgwyr ddilyn cyfarwyddiadau am sut i greu'r Cennin Pedr a dysgu ar yr un pryd am ffyrdd o helpu pobl eraill. Yn y dderbynfa yr oedd y mur, lle gallai ymwelwyr roi rhoddion i'r elusen.

4.63 Soniodd dau reolwr busnes/tîm GPC hefyd am sut y cyflwynodd y darparwyr yn eu rhanbarth sesiynau galw heibio i fenywod yn unig, a bod hyn yn effeithiol. Yr oedd y menywod yn cefnogi ei gilydd a chyflwynwyd y ddarpariaeth mewn *"awyrgylch anffurfiol a chyfeillgar"*. Dywedwyd bod hyn, ynghyd ag ystyried ymrwymiadau gofal plant a gwyliau ysgol wrth drefnu'r rhestr, wedi helpu i leihau rhwystrau i ymwneud.

4.64 Nodwyd y cyswllt a ddatblygodd y tiwtor gyda'r dysgwyr fel ffactor bwysig ar gyfer arfer effeithiol, gyda chryfder cyflwyno yn dibynnu ar diwtoriaid unigol yn hytrach nag agwedd sefydliadau cyflwyno yn gyffredinol.

4.65 Disgrifiodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y sut y cyflwynodd y cynllun peilot weithgareddau grŵp/mewn dosbarth, gyda nifer fechan o ymatebwyr yn unig yn sôn fod hyfforddwyr wedi hwyluso sesiynau unigol. Ni thybiwyd ei bod yn wastad yn briodol i ddysgwyr fynychu sesiynau grŵp oherwydd eu hanghenion troseddu, ac felly gofynnodd y rheolwyr troseddwyr am sesiynau unigol. Fodd bynnag, esboniwyd nad oedd yr angen hwn yn cael ei ateb ran amlaf.

4.66 Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg fod y ddarpariaeth yn cael ei gyflwyno o swyddfeydd GPC/CAC ar y cyd (22 o ymatebwyr). Fodd bynnag, disgrifiwyd y ddarpariaeth ddaearyddol ar draws Cymru gan un rheolwr busnes/tîm CAC fel un *'doredig'* a chan randdeiliaid mewn cyfweliad fel un nad oedd yn gyson ar draws rhanbarthau. Yr oedd hyn yn wahanol i'r hyn a osodwyd allan yn nogfennau'r tender i ddarparwyr oedd yn dweud y dylent sicrhau y cyflwynir Sgiliau Hanfodol ym mhob swyddfa brawf.

4.67 Disgrifiodd rhanddeiliad yn Nyfed Powys sut, o gymharu â'r rhanbarthau eraill, fod eu baich achos yn fach, ond eu bod yn ymestyn dros fwy na 50 y cant o Gymru. Mae llawer o'r rhanbarth yn wledig, ac oherwydd y beichiau achos bach, nid oedd

yn ariannol hyfyw i'r darparwyr gyflwyno allan o bob swyddfa. O ganlyniad, nid oedd y ddarpariaeth yn hygyrch i bob troseddwr.

4.68 Dywedodd rhanddeiliaid fod darpariaeth ddaearyddol anghyson hyfforddiant Sgiliau Hanfodol i'w bridoli i'r mecanweithiau cyllido a ddefnyddiwyd ar gyfer y cynllun peilot, a nodwyd hyn fel rhwystr mawr i gyflwyno gan arweinwyr GPC/CAC. Yr oedd darparwyr yn cael eu talu ar sail nifer yr oriau dysgu a gyflwynwyd i droseddwyr, yn ogystal â'r hyn yr oedd y dysgwyr wedi cwblhau/llwyddo. Felly, gwelwyd fod darparwyr yn cael eu 'cosbi' yn ariannol os oedd presenoldeb y dysgwyr yn wael neu'n afreolaidd. Barn un o'r arweinwyr cyflwyno oedd mai un o brif wendidau'r cynllun peilot oedd nad oedd yr hyfforddwyr yn ymwneud â chyfeirio troseddwyr at y ddarpariaeth, gan mai rôl y rheolwyr troseddwyr oedd hyn. Adroddodd rhanddeiliaid eu bod yn teimlo fod beichiau achos bychain ac ymwneud gwael yn golygu fod darparwyr yn tynnu allan am nad oedd yn ariannol hyfyw i ddarparu gwasanaeth, neu ganolbwyntio ar gyflwyno'r ddarpariaeth mewn swyddfeydd gyda beichiau achos mwy.

4.69 Yr oedd y darparwyr oedd dan gontract i gyflwyno'r ddarpariaeth o'r rhwydwaith Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW), fel rhan o'r Haen Parod i Waith (gweler yr adolygiad damcaniaeth newid).Disgrifiodd un arweinydd cyflwyno fel yr oedd y dysgwyr oedd ar SHDdC yn hollol wahanol i'r dysgwyr yr arferent gefnogi. Soniodd yr ymatebydd hwn fod dysgwyr SHDdC yn llai abl i weithio, gan fod ganddynt lai, neu ddim, profiad o waith, a'u bod ar lefel Sgiliau Hanfodol is, oedd yn golygu bod darparwyr yn gorfod addasu eu dull cyflwyno. Dywedodd un arweinydd cyflwyno eu bod hefyd wedi newid y corff arholi y bwriadent ddefnyddio/a ddefnyddiwyd ganddynt o'r blaen wrth gyflwyno'r contract DSW, fel y gallent (fel y disgrifir yn yr adolygiad damcaniaeth newid) ddewis cyfuniadau o unedau mewn cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol i adeiladu cymwysterau o wahanol feintiau[25].

4.70 Disgrifiodd yr un arweinydd cyflwyno sut yr oedd cyflwyno unedau, yn hytrach na chymwysterau llawn, yn llai llethol i rai troseddwyr gyda lefel isel iawn o allu Sgiliau Hanfodol. Dywedodd arweinydd cyflwyno arall nad oedd y dysgwyr yn mynychu'n rheolaidd, a'u bod felly yn cyflwyno unedau cyflogadwyedd, y gellid eu cwblhau mewn llai o sesiynau na chymhwyster Sgiliau Hanfodol.

[25] Mae'r corff arholi a dyfarnu Agoriad yn caniatau cyflwyno unedau bychain (pob un yn cymryd chwe awr i'w cwblhau), yn hytrach na chymwysterau llawn.

4.71 Byrddau arholi eraill a ddefnyddiwyd gan ddarparwyr, fel y nodwyd yn yr arolwg, oedd Cymwysterau'r City and Guilds, Rhwydwaith y Coleg Agored (OCN), a Chyd-Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC).

4.72 Amlygodd sylwadau ar fater gorfodi yr angen am well dealltwriaeth sefydliadol, a phwysleisio eto nad oedd rhai darparwyr yn deall y garfan yn iawn. Disgrifiodd rhai arweinwyr cyflwyno sut yr oeddent eisiau i hyfforddiant Sgiliau Hanfodol fod yn orfodol. Cyfeiriodd rheolwr busnes/tîm GPC at hyn, gan adrodd fod hyfforddwr wedi dweud:

> 'Wel os ydynt wedi archebu un o'm sesiynau, rwyf eisiau iddynt gael eu gorfodi os nad ydynt yn mynychu," a dyna lle'r oedden ni yn dweud, "Wel nid fel yna mae'n gweithio. Allwch chi ddim gorfodi os yw'n wirfoddol." …Dwyf i ddim yn meddwl eu bod wir yn deall y gwasanaeth prawf, rhai o'r darparwyr oedd yn dod atom.'

rheolwr busnes/tîm GPC

4.73 Fel y disgrifiwyd yn yr adran ar weithredu, yr oedd bwlch mewn cyflwyno cyn lansio'r cynllun peilot yn andwyol i'w lwyddiant yn y dyfodol, fel yr adroddwyd gan yr ymatebwyr. Dywedodd dau reolwr busnes/tîm (un GPC ac un CAC) eu bod yn pryderu, gan i'r cynllun peilot ddod i ben ym Mawrth 2016, eu bod yn awr mewn sefyllfa debyg heb ddim darpariaeth i'w troseddwyr.

> 'Yr hyn sy'n fy mhryderu i yn fwy na dim yw'r ffaith fod y cynllun peilot wedi dod i ben ar 31 Mawrth. Rwy'n ymwybodol y byddwn yn cael rhai trefniadau newydd, ond tydyn nhw ddim wedi dechrau eto. Felly o safbwynt y troseddwr, tydyn nhw ddim wedi cael unrhyw gyfraniad Sgiliau Hanfodol ers 31 Mawrth yw eu bod yn gofyn drwy'r amser, "Pryd mae'n dod yn ôl?" ac alla'i ddim dweud wrthynt beth sy'n mynd i ddigwyddd nesaf.'

rheolwr busnes/tîm CAC

*Monitro, adrodd a rhannu gwybodaeth rhwng hyfforddwyr a rheolwyr troseddwyr*

4.74 Adroddodd rhanddeiliaid am gael eu gwahodd i ddod i gyfarfodydd monitro deufisol NTfW. Llywodraeth Cymru oedd yn arwain y cyfarfodydd hyn. Disgrifiodd rhanddeiliaid sut yr oedd y cyfarfodydd yn gyfle i drafod cyfeiriadau, rhannu'r arferion gorau, amlygu unrhyw heriau a gweld sut i'w goresgyn.

4.75 Gwendid mwyaf y cynllun peilot yn ôl yr ymatebwyr i'r arolwg oedd diffyg cyfathrebu (saith ymatebydd). Roeddent yn cyfeirio'n benodol at adborth gan hyfforddwyr ar gynnydd dysgwyr i reolwyr troseddwyr, a pha ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol a hyfforddiant a dderbyniodd y troseddwyr yn y carchar. Yn gyffredinol, nid oedd yn ymddangos fod proses glir i rannu gwybodaeth.

4.76 Canfu'r arolwg fod gwybodaeth rhwng hyfforddwyr a rheolwyr troseddwyr yn tueddu i gael ei rannu trwy ebost, adroddiadau cynnydd ar bapur, a chyfathrebu wyneb yn wynebers, (oedd o les i hyfforddwyr yn bennaf oedd yn cyflwyno darpariaeth Sgiliau Hanfodol yn swyddfeydd GPC/CAC ar y cyd). Cydnabu rhanddeiliaid fod lle i wella rhannu gwybodaeth rhwng rheolwyr troseddwyr a darparwyr cyflwyno.

4.77 Amlygodd ymateb un hyfforddwr i'r arolwg yr anhawster gafwyd wrth anfon gwybodaeth ystadegol ymlaen yn electroinig oherwydd y systemau mur cadarn a ddefnyddid gan y gwasanaeth prawf, ac felly bod cyfathrbu yn bennaf ar bapur neu wyneb yn wyneb. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith nad oedd gan rai darparwyr gyfrifon ebost diogel. Golygai hyn nad oedd dulliau cyfathrebu yn effeithiol o ran yr amser a gymerwyd, oherwydd bod angen rhannu/mewnbynnu'r un manylion ddwywaith – yn gyntaf ar bapur gan yr hyfforddwr ac yna eto gan reolwr troseddwyr neu aelod o dîm gweinyddu GPC/CAC i NDelius.

'Roedd gwaith papur yn cymryd amser; byddai erfyn digidol wedi bod yn well.'

Ymatebydd i'r arolwg, tiwtor cyflwyno

4.78 Roedd gwybodaeth a rannwyd rhwng hyfforddwyr a rheolwyr troseddwyr, fel y nodwyd gan ymatebwyr i'r arolwg, yn dueddol o fod am bresenoldeb, cynnydd a lefel ymwneud. Dywedwyd fod hyfforddwyr hefyd wedi rhoi adborth am ymddygiad ac agwedd. Rhwystr i ymwneud a nodwyd gan rai hyfforddwyr oedd eu hanallu i gysylltu â throseddwyr a'u hannog i fynychu, gan nad oeddent yn cael manylion cyswllt. Rhaid oedd i hyfforddwyr felly ddibynnu ar y rheolwyr troseddwyr i wneud hyn. Ddywedodd hyfforddwyr ei bod yn bwysig cynnal cyswllt gyda rheolwyr troseddwyr i wneud yn siwr fod y ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol yn aros ar eu radar.

4.79 Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr [26] mai rôl y rheolwr troseddwyr oedd adolygu cynnydd a phresenoldeb, ac annog ymwneud. O ran GPC, soniodd rheolwyr busnes/tîm hefyd yn benodol fod rheolwyr troseddwyr yn parhau i fonitro risg.

'Eich rôl chi oedd annog, cefnogi a symbylu.'

rheolwr busnes/tîm GPC


# 5. Canfyddiadau'r ymchwil meintiol

5.1 Ers i Lywodraeth Cymru gymryd rheolaeth uniongyrchol dros y ddarpariaeth SHDdC ym mis Ebrill 2015, defnyddiwyd cronfa ddata LLWR gan ddarparwyr i gofnodi eu darpariaeth hyfforddiant Sgiliau Hanfodol. Fe geir isod ddadansoddiad o gofnodion ar bob unigolyn a gychwynnodd ac a gwblhaodd weithgareddau dysgu rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

**Dysgwyr Unigol**

5.2 Yn y flwyddyn 2015-2016, cychwynnodd cyfanswm o 237 unigolyn weithgareddau dysgu (Ffigwr 5.1).

**Ffigwr 5.1: Nifer unigolion a gychwynnodd gweithgareddau dysgu gyda phob darparwr hyfforddiant (2015-16)[27]**




Ffynhonnell: MMU, 2016, data LLWR

N = 237 (siart yn eithrio dau ddarparwr)


5.3 Yr oedd niferoedd yr unigolion a gychwynnodd weithgareddau dysgu a gyflwynwyd gan Grŵp Llandrillo Menai, oedd yn ymestyn dros ardal chwech awdurdod lleol gogledd Cymru, a Choleg Sir Benfro, oedd yn ymestyn dros Ferthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, a Phenybont yn bump neu'n is ym mhob achos, ac felly'n rhy fach i'w cynnwys yn y ffigwr. Arwydd yw hyn mai ychydig iawn o ddysgwyr oedd yn naw o 22 ardal awdurdodau lleol Cymru.

5.4 Gan Goleg Caerdydd a'r Fro, sydd yn ymestyn dros Fro Morgannwg a Chaerdydd, yr oedd y nifer uchaf o ddechreuwyr (38 y cant), ac yna Gwmni Hyfforddiant Cambrian, sy'n ymestyn dros Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys (25 y cant) a Hyfforddiant Torfaen (18 y cant).

[27] Yr oedd nifer yr unigolion a gychwynnodd weithgareddau dysgu gyda Grŵp Llandrillo Menai (DSW) a Choleg Sir Benfro yn rhy fach i adrodd amdanynt (≤ 5).

5.5 Cychwynnodd y 237 unigolyn hyn 447 o weithgareddau dysgu gwahanol. O gymharu hyn â'r blynyddoedd blaenorol, mae tuedd gref yn dangos gostyngiad blynyddol o rhwng traean a hanner yn nifer y gweithgareddau dysgu a gychwynnwyd yn amlwg. Er enghraifft, 800 oedd nifer y gweithgareddau a gychwynnwyd yn 2014-15. Yn 2013-14, 1,502 oedd y ffigwr hwn[28], a 2,331 yn 2012-13[29]. Dengys Ffigwr 5.2 nifer y gweithgareddau dysgu a gychwynnwyd gyda phob darparwr hyfforddiant ar draws y gwahanol ddarparwyr (gweler Ffigwr 5.2). roedd gan Goleg Caerdydd a'r Fro, a Chorfforaeth Marr Cyf., fwy o weithgareddau dysgu a gychwynnwyd am bob dysgwr (cyfartaledd o 2.42 a 2.08) na'r darparwyr eraill.

**Ffigwr 5.2: Nifer gweithgareddau dysgu a gychwynnwyd gyda phob darparwr hyfforddiant[30]**




Ffynhonnell: MMU, 2016, data LLWR

N = 447 (siart yn eithrio dau ddarparwr)

5.6 Fel gyda niferoedd dysgwyr, yr oedd nifer y gweithgareddau dysgu a gychwynnwyd gyda Grŵp Llandrillo Menai (DSW) oedd yn cyflwyno yn chwe ardal awdurdodau lleol gogledd Cymru, a Choleg Sir Benfro, oedd yn cyflwyno ym Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phenybont, yn bump neu'n llai, ac felly yn rhy fychan i'w dangos yn y ffigwr. Mae hyn yn cadarnhau mai ychydig iawn o ddarpariaeth oedd yn naw o 22 ardal awdurdodau lleol Cymru.

5.7 Mae rhestr lawn o'r gweithgareddau dysgu a gynigiwyd gan y darparwyr yn Atodiad E. Nid oedd deugain y cant o'r gweithgareddau a gyflwynwyd gan y darparwyr, er

[28] Darpariaeth dan gontract y gwasanaeth prawf.
[29] Darpariaeth dan gontract y gwasanaeth prawf.
[30] Yr oedd nifer yr unigolion a gychwynnodd weithgareddau dysgu gyda Grŵp Llandrillo Menai (DSW) a Choleg Sir Benfro yn rhy fach i adrodd amdanynt (≤ 5).

eu bod ym maes cyflogadwyedd ac felly yn briodol, yn canolbwyntio ar gymwysterau[31].

**Ymwneud a chwblhau**

5.8 O'r 447 o weithgareddau dysgu a gychwynnwyd, fe gafwyd:

- 206 dysgwr yn cwblhau[32] (46 y cant)
- 208 dysgwr yn tynnu'n ôl (47 y cant)
- 26 darparwr yn tynnu'n ôl (chwech y cant)
- 7 yn trosglwyddo i weithgaredd dysgu newydd (dau y cant)[33]

O'r 208 gweithgaredd y tynnodd y dysgwyr yn ôl ohonynt:

- Am 37 o'r gweithgareddau (18 y cant), cofnodwyd y rheswm am dynnu'n ôl fel un personol;
- Am 30 o'r gweithgareddau (14 y cant), y rheswm oedd methiany cyn diwedd y rhaglen ddysgu;
- Am 23 o'r gweithgareddau (11 y cant) tynnodd y dysgwr yn ôl am resymau iechyd;
- Am chwech o'r gweithgareddau (tri y cant) gadawodd y dysgwr i fynd i waith;
- Am 41 o'r gweithgareddau dysgu (20 y cant), rhoddwyd rheswm arall; ac
- Am 71 o'r gweithgareddau (34 y cant), nid oedd y rheswm yn hysbys.


**5.9** O ran cyfran y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd, dengys Ffigwr 5.3 mai gan Hyfforddiant Torfaen a Chorfforaeth Marr Cyf. yr oedd y ganran uchaf o gwblhau (76 y cant a 64 y cant). Dim ond 19 y cant o'r gweithgareddau a ddarparwyd gan Gwmni Hyfforddi Cambrian a gwblhawyd (Dengys Ffigyrau F.1 ac F.2 yn Atodiad F gyfraddau cwblhau yn ôl lefel a dull cyflwyno).

[31] Roedd 'Cwblhau a Defnyddio Curriculum Vitae', 'Siarad a Gwrando', a 'Sgiliau Meddal' wedi eu dosbarthu fel rhai nad oeddent yn arwain at gymhwyster penodol. Yr oedd y tri gweithgaredd hwn yn cyfrif am 181 o'r 447 gweithgaredd.

[32] Gall gweithgaredd 'a gwblhawyd' fod wedi golygu ennill cymhwyster, neu beidio.

[33] Ymysg rhesymau eraill dros dynnu'n ôl yr oedd: Rheswm anhysbys dros adael (n=71); Methiant cyn diwedd y rhaglen ddysgu (n=30); ac Arall (n=41). Ni roddwyd manylion am yr union resymau dros dynnu'n ôl.

**Ffigwr 5.3 Cyfran y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd gan droseddwyr, fesul darparwr cyflwyno** [34]




Ffynhonnell: MMU, 2016, data LLWR

N = 447 (siart yn eithrio dau ddarparwr)

5.10 Cychwynnodd bron i ddau o bob pump (38 y cant) o'r 237 unigolyn a gychwynnodd weithgareddau dysgu un gweithgaredd dysgu yn unig. Cychwynnodd ychydig dan hanner (44 y cant) ddau o weithgareddau; cychwynnodd 12 y cant dri; cychwynnodd pump y cant bedwar; a dim ond tri unigolyn (un y cant) a gychwynnodd bump.

5.11 O'r 237 unigolyn a gychwynnodd weithgareddau dysgu, cwblhaoedd ychydig dan hanner (49 y cant) *o leiaf un* gweithgaredd. Tynnodd y gweddill (51 y cant) allan o'u holl weithgareddau, heb gwblhau unrhyw weithgareddau dysgu. Dengys Ffigwr F.3 yn Atodiad F gyfran y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd, fesul nifer y gweithgareddau a gychwynnwyd. Mae'n dangos, o'r 44 dysgwr a gychwynnodd dri neu fwy o weithgareddau, maio dim ond dau ddysgwr a fethodd gwblhau unrhyw weithgareddau. Ar y llaw arall, o'r 193 dysgwr a gychwynnodd un neu ddau o weithgareddau, methodd bron i ddwy ran o dair (119) o ddysgwyr gwblhau unrhyw weithgareddau.

### Nodweddion y sawl a elwodd


5.12 Oherwydd bod nifer y dysgwyr a gofnodwyd mor isel, yn enwedig mewn rhai ardaloedd, a bod y rhesymau dros iddynt fod mor isel yn lluosog a chymhleth, teimlwyd na fyddai'n briodol dod i unrhyw gasgliadau o batrymau yng nghyswllt

[34] Yr oedd nifer yr unigolion a gychwynnodd weithgareddau dysgu gyda Grŵp Llandrillo Menai (DSW) a Choleg Sir Benfro yn rhy fach i adrodd amdanynt (≤ 5).

nodweddion y rhai a elwodd a'r tebygolrwydd y byddai gwahanol grwpiau yn cyrchu'r ddarpariaeth. Yn syml, yr oedd swm y dysgwyr yn rhy fach i grynodeb o ffigyrau am y nodweddion hyn ddatgelu unrhyw beth mwy na disgrifiad o'r boblogaeth o ddysgwyr dan y cynllun peilot.

5.13 O ran rhyw, dynion oedd bron i ddwy ran o dair o'r rhai a gychwynnodd weithgareddau dysgu; menywod oedd y gweddill. Fel y gwelir yn Ffigwr 5.4, yr oedd menywod yn llai tebygol na dynion i gwblhau'r holl weithgareddau dysgu a gychwynnwyd ganddynt (dynion fymryn dros ddau o bob pump, menywod un o bob pump), ac yn fwy tebygol o beidio â chwblhau unrhyw weithgareddau dysgu (ychydig llai na hanner y dynion; ac ychydig dan dri o bob pump o fenywod). Mae hyn er bod y cymhwyster uchaf blaenorol (h.y., cyn cychwyn ar y rhaglen ddysgu) i ddynion a menywod yn fras yr un fath (e.e., Cyn-Lefel Mynediad – ychydig dan bedwar o bob pump i ddynion a menywod).

**Ffigwr 5.4: Cyfran y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd: rhyw**




N = 237 Ffynhonnell: MMU, 2016, data LLWR


5.14 32 oedd oedran cymedrig dysgwyr, gyda dim ond ychydig dros ddwy ran o dair rhwng 21 a 43 oed. Gwelwyd bod y dysgwyr iau yn fwy tebygol o gwblhau'r holl weithgareddau dysgu a gychwynnwyd ganddynt).

5.15 Wrth archwilio'r lefel flaenorol uchaf o gymhwyster, yr oedd gan dros dri chwarter (78 y cant) gymhwyster uchaf ar Gyn-Lefel Mynediad. Yr oedd gan bedwar dysgwr (dau y cant) gymhwyster Lefel Mynediad; 15 (chwech y cant) â chymhwyster Lefel 1; 25 (11 y cant) â chymhwyster Lefel 2 a saith o ddysgwyr (tri y cant) Lefel 3. Un dysgwr yn unig oedd â chymhwyster Lefel 4 (sy'n cyfateb i Dystysgrif AU neu HNC).

5.16 Cofnodwyd ychydig dros chwarter (28 y cant) o ddysgwyr yn yr LLWR fel rhai ag anabledd neu anhawster dysgu[35]. Cofnodwyd manylion prif angen[36] y dysgwyr hyn: yr oedd gan 18 dysgwr (ychydig dros chwarter) 'anawsterau corfforol a/neu feddygol'; yr oedd 15 (ychydig dan chwarter) 'Ddyslecsia'; yr oedd gan 13 (un o bob pump) 'anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol'; chwech (ychydig dan un o bob deg) 'anawsterau dysgu cymedrol'; ac yr oedd gan chwech (ychydig dan un o bob deg) 'anawsterau dysgu cyffredinol'[37].

5.17 Fel y gwelir yn Ffigwr 5.5, cwblhaodd cyfran uwch o ddysgwyr ag anabledd a/neu anhawster dysgu y gweithgareddau dysgu a gychwynnwyd ganddynt (ychydig dan dri o bob pump, o gymharu â llai na hanner y dysgwyr heb anabledd a/neu anhawster dysgu). Yr oeddent hefyd yn fwy tebygol na'r rhai heb anabledd a/neu anhawster dysgu i gychwyn dau neu fwy o weithgareddau dysgu (71 y cant o gymharu â 59 y cant). Mae'n werth sylwi fod y lefel cymhwyster flaenorol (h.y., cyn cychwyn y rhaglen ddysgu) y rhai gydag anabledd a/neu anhawster dysgu yn dueddol o fod yn is na'r rhai heb (Lefel Mynediad neu'n is – bron i naw o bob deg o'r rhai heb anabledd a/neu anhawster dysgu, o gymharu â thri chwarter o'r rhai heb anabledd a/neu anhawster dysgu).

**Ffigwr 5.5: Cyfran y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd: dysgwyr gyda a heb anabledd a/neu anhawster dysgu**




N = 237 Ffynhonnell: MMU, 2016, data LLWR

[35] Mae cofnodion am anableddau ac anableddau dysgu yn y LLWR fel y'u pennir gan y dysgwr, ac eithrio lle na allant bennu'r wybodaeth hon, a bod rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr yn rhoi'r wybodaeth. Mae mwy o wybodaeth am y modd y cofnodir anableddau ac anawsterau dysgu yn y LLWR ar gael yma. http://gov.Wales/docs/dcells/publications/141218-recording-of-learners-learning-difficulties.pdf. Mae'n bwysig nodi fod LLWR ac NDelius fel ei gilydd yn cadw cofnod ynghylch a oes gan droseddwr anhawster dysgu, ond mae'r wybodaeth yn cael ei gasglu mewn ffyrdd gwahanol ym mhob system ac nid oes modd eu cymharu.
[36] Gall fod gan ddysgwr gyfuniad o'r anghenion hyn, ond dim ond y prif angen a gofnodwyd.
[37] SPLD – Dyspracsia=1; SPLD – ADHD=2; Anawsterau dysgu difrifol =1; Nam ar y golwg =2; Nam clyw =1; Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu = 1.

### Adnabod y sawl sy'n gymwys ac a all elwa

5.18 I ychwanegu cyd-destun i'r ffaith fod nifer y dysgwyr wedi cwympo yn ystod y cynllun peilot, ac i sylwadau gan randdeiliaid fod llai wedi eu cyfeirio at y ddarpariaeth, ceisiodd y gwerthusiad ymchwilio i ba raddau yr oedd y ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol wedi ei thargedu'n effeithiol tuag at droseddwyr cymwys, ac i ba raddau yr oedd grwpiau neu unigolion a ddylasai fod wedi derbyn y ddarpariaeth ond na chawsant ef. Yn anffodus, am na chedwir unrhyw gofnodion canolog am droseddwyr sy'n addas neu'n gymwys i'w cyfeirio at ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol, neu sy'n cael eu cyfeirio mewn gwirionedd, doedd dim modd cymharu cofnodion am ddysgwyr gyda chofnodion am droseddwyr cymwys/a gyfeiriwyd.

5.19 Fel yr amlinellwyd yn y fethodoleg (gweler Adran 3), ceisiodd y gwerthusiad felly ddeall yn well y bwlch rhwng adnabod angen a faint a aeth ar raglenni trwy gymharu'r holl ddysgwyr hynny a nodwyd yn set ddata LLWR fel rhai a gychwynnodd weithgareddau dysgu, gyda throseddwyr y nododd eu cofnodion yn set ddata NDelius NOMS y gallasent fod ag angen ymyriad Sgiliau Hanfodol. Y bwriad oedd helpu i ddeall cyfradd cyfranogi ymysg troseddwyr a allasai fod yn gymwys am weithgareddau dysgu'r cynllun peilot SHDdC. Idylid cydnabod, fodd bynnag, na fyddai rhai troseddwyr gydag angen Sgiliau Hanfodol fod wedi bod yn briodol i'w cyfeirio at ddarpariaeth SHDdC oherwydd:

- Y gallent fod mewn gwaith eisoes – sy'n golygu nad oeddent yn gymwys;
- Eu bod, efallai, wedi cwblhau hyfforddiant eisoes (heb ennill cymwysterau) ac na fuasent yn elwa o fwy o hyfforddiant; a/neu,
- Nad oeddent, efallai, yn barod am hyfforddiant – hwyrach eu bod yn derbyn cefnogaeth gyda phroblemau eraill yr oeddent yn mynd i'r afael â hwy, a allasai fod wedi bod â mwy o frys na Sgiliau Hanfodol.

5.20 Mae Atodiad C yn rhoi manylion am sut yr oedd data am ddysgwyr a throseddwyr eraill yn cael eu casglu a'u cyfatebu ar gyfer yr astudiaeth. Nodwyd 223 o'r 237 dysgwr yn set ddata LLWR yn set ddata NDelius NOMS. Cymharwyd nodweddion y 223 dysgwr â nodweddion y 2,698 o droseddwyr yn set ddata NDelius NOMS,nad oeddent, er eu bod yn dangos angen posib am ddarpariaeth Sgiliau Hanfodol, wedi ymgymryd â darpariaeth y cynllun peilot SHDdC.

5.21 Mae Tabl 5.1 yn cymharu niferoedd troseddwyr gydag angen Sgiliau Hanfodol a nifer y troseddwyr sy'n ymrestru/dechrau ar hyfforddiant Sgiliau Hanfodol ym mhob ardal gyflwyno SHDdG. Dengys yn glir fod y niferoedd a dderbyniodd ddarpriaeth yn fychan iawn mewn rhai ardaloedd, o'u cymharu â'r angen posib.

**Tabl 5.1: Nifer troseddwyr gydag angen Sgiliau Hanfodol o gymharu â nifer y troseddwyr a ymrestrodd/gychwynnodd ar hyfforddiant hyfforddiant Sgiliau Hanfodol ym mhob ardal gyflwyno SHDdG**

| Rhanbarth | Nifer troseddwyr gydag anghenion Sgiliau Hanfodol a gofnodwyd | Nifer troseddwyr yn derbyn hyfforddiant |
|---|---|---|
| Rhanbarth 1(Môn, Gwynedd, Conwy) | 214 | * |
| Rhanbarth 2 (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam) | 314 | 6 |
| Rhanbarth 3 (De-Orllewin Cymru a'r Canolbarth – Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot) | 344 | 35 |
| Rhanbarth 4 (De-Orllewin Cymru a'r Canolbarth – Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys) | 245 | 46 |
| Rhanbarth 5 (De-Ddwyrain Cymru a'r Cymoedd – Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Casnewydd, Sir Fynwy) | 552 | 45 |
| Rhanbarth 6 (De-Ddwyrain Cymru a'r Cymoedd – Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Penybont) | 425 | * |
| Rhanbarth 7 (De-Ddwyrain Cymru a'r Cymoedd – Bro Morgannwg a Chaerdydd) | 604 | 86 |
| Cyfanswm | 2698 | 223 |

Ffynhonnell: Carney Green, 2016

* Yr oedd nifer y troseddwyr oedd yn derbyn hyfforddiant yn yr ardaloedd hyn yn rhy fach i adrodd amdano (≤ 5).

**Adran gyfeirio**

Arrivo Consulting Limited (2013) *Review of projects working with ex-offenders.* Cronfa'r Loteri Fawr https://www.biglotteryfund.org.uk/-/media/Files/Research%20Documents/er_learning_exoffenders_final.pdf

Bouffard, J., Mackenzie, D. & Hickman, L. (2000), 'Effectiveness of Vocational Education and Employment Programs for Adult Offenders: A Methodology-Based Analysis of the Literature'. *Journal of Offender Rehabilitation*, cyf. 31, rhifyn 1-2, 2000. tudalennau 1-41 http://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1300/J076v31n01_01

Bounceback Project (2016, *Welcome to Bounceback!* http://bouncebackproject.com/ [cyrchwyd 02.09.2016]

Bristol, Gloucestershire, Somerset & Wiltshire CAC (2016), Employment, Training and Education. http://bgswcrc.co.uk/content/view/ete-skills [cyrchwyd 01.09.2016]

Brown, J., D. (2004) 'Managing the Transition from Institution to Community: A Canadian Parole Officer Perspective on the Needs of Newly Released Federal Offenders', *Western Criminology Review* 5(2), 97-107

Buck, M., L. (2000) *Getting Back to Work: Employment programmes for Ex-Offenders*, New York. Public / Private Ventures (ERIC)

Canton, R., Hine, J. a Welford, J. (2011*) Outside Chances: Offender Learning in the Community* Leicester de Montford University https://www.researchonline.org.uk/sds/search/go.do%3Bjsessionid=2521E1A1EF21F41A9763166AD52171EC?action=addToReadingList&docFlag=true&ref=B19219

Changing Paths (2016), *About Us*, http://www.changingpaths.co.uk/about-us/ [cyrchwyd 02.09.2016]

Clinks (2014a) *Providing Employment And Training Opportunities For Offenders: Growing Sustainable Work Integration Social Enterprises: A Report Of Learning*

*From this Programme,* Home Office / Clinks
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/305974/Providing_employment_training_opportunities_for_offenders.pdf

Clinks (2014b) *Providing Employment And Training Opportunities For Offenders* http://www.clinks.org/resources-case-studies/providing-employment-and-training-opportunities-offenders#cs [cyrchwyd 01.09.2016]

Employability Scotland (2012) Promoting Employability for Ex-offenders http://www.employabilityinscotland.com/media/119186/ex-offenders_good_practice_guide.pdf [38]

European Union Cronfa Gymdeithasol Ewrop yr Undeb Ewropeaidd (2015) *Canllaw i Ddarparwyr Rhaglenni Gwaith: Gorfodaeth.* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/505310/wp-pg-chapter-3a.pdf

Foster, R., Small, L., Foster, S., Skrine, O., Hunter, G. & Turnbull, P. (2013), *Evaluation of the Employment and Reoffending Pilot: Lessons learnt from the planning and early implementation phase,* London: MoJ. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/265287/employment-reoffending-cynllun peilot.pdf

Grantham, D., Andrewartha, D. & Shaw, A. (2014) *YSS ESS, Second Quarter Report, July-September 2014* http://yss.org.uk/wp-content/uploads/2015/01/Enhanced-Support-for-Supervision-6-month-report-September2014.pdf

Halsey, K., Martin, K. a White, R. (2006) *The Implementation of OLASS: An assessment of its impact one year on,* National Foundation for Educational Research, DfES Publications http://dera.ioe.ac.uk/6561/1/RR810.pdf

[38] Nid yw'r adroddiad llawn bellach ar gael. Dolen i ddetholiad sydd yma.

Her Majesty's Inspectorate of Probation (2006), *'Working to Make Amends': An Inspection of the Delivery of Enhanced Community Punishment and Unpaid Work by the National Probation Service*, London: Home Office.

Lavelle and McPherson (2004) 'Variables Affecting Successful Reintegration as Perceived by Offenders and Professionals', *Journal of Offender Rehabilitation*
Cyfrol 40, Rhifyn 1-2

Learning Skills Council (2011), NE; Offender Mentoring Project http://www.mandbf.org/wp-content/uploads/2011/02/LSC-Offender-Mentoring-Pilot-Project-Report.pdf

Leukefeld, C., Staton, M. a Webster, M. (2003) 'An Employment Intervention for Drug-Abusing Offenders' *Federal Probation* 27

London Borough of Islington IOM (2015) *Draft Specification 2015-2017 for the provision of a Community Reintegration Service (CReS) for Integrated Offender Management clients* http://www.islington.gov.uk/publicrecords/library/Procurement/Information/Forms/2014-2015/%282014-11-20%29-1415-200-Specification-for-upload-market-test-stage.pdf

London Community Rehabilitation Company (2016), *Employment and Skills for Offenders*, http://www.londoncrc.org.uk/what-we-do/employment-and-skills-for-offenders/ [cyrchwyd 01.09.2013]

McEvoy, K. (2008) *Enhancing Employability in Prison and Beyond: A Review of Literature* Queen's University Belfast. NIACRO

McIvor, G. (2002), *What Works in Community Service?* – Criminal Justice Social Work Briefing Paper, 6. Criminal Justice Social Work Development Centre for Scotland. http://rms.stir.ac.uk/converis-stirling/publication/11870

Ministry of Justice (2013), *Transforming Rehabilitation: A revolution in the way we manage offenders*, Consultation CP1/2013, London: The Stationery Office.

Molnar, H. ad Hopkins, R. (2006) *Evaluation of the Offender Education and Training in Adult Community Education (ACE) Initiative For Corrections Victoria* MC Media &Associates Pty. Ltd.

http://www.corrections.vic.gov.au/utility/publications+manuals+and+statistics/evaluation+of+the+offender+education+and+training+in+adult+community+education+initiative+-+pdf

Rex, S., Gelsthorpe, L., Roberts, C. & Jordan, P. (2004*), What's Promising in Community Service: Evaluation of Seven Pathfinder Projects*. London: Home Office.

Tomorrow's People (2016), *Tomorrow's People - Getting Out To Work Project* https://www.livewellliverpool.info/Services/2000/Tomorrow-s-People
[cyrchwyd 02.01.2016]

Wilson, E. (2014), *On behalf of opportunities Fife: A Review of Ex-Offender Employability in Fife*, Apex Scotland. http://www.fifevoluntaryaction.org.uk/downloads/ApexEx-Offender.pdf

YSS (2016) What We Do: Employability http://yss.org.uk/yss-central/what-we-do/employability/ [cyrchwyd 02.09.2016]

## Atodiad A: Termau chwilio yn yr adolygiad llenyddiaeth o'r arferion gorau

A.1 Yr oedd y termau chwilio a ddefnyddiwyd fel sail o wybodaeth i'r adolygiad o arferion gorau yn cynnwys:

- Sgiliau Hanfodol oedolion o droseddwyr
- Sgiliau Hanfodol oedolion o droseddwyr cymunedol (gorfodol)
- Hyfforddiant sgiliau cyflogaeth i droseddwyr (gorfodol)
- Hyfforddiant sgiliau cyflogaeth i droseddwyr
- Hyfforddiant arbenigol cyflogaeth i droseddwyr (gorfodol)
- Hyfforddiant swyddi i gyn-droseddwyr
- Rhaglenni cyflogi cyn-droseddwyr
- Gwerthuso cyflogadwyedd troseddwyr (gorfodol)

**Atodiad B: Adolygiad llenyddiaeth o’r arferion gorau– Canfyddiadau manwl**

B1. Mae’r atodiad hwn yn rhoi trosolwg byr o lenyddiaeth gyfoes arbenigol yn y DG ac yn rhyngwladol am yr arferion gorau wrth gyflwyno hyfforddiant sgiliau hanfodol i droseddwyr ar ddedfrydau yn y gymuned. Mae’r adolygiad o’r llenyddiaeth ac arferion da yn rhoi crynodeb o feddwl cyfoes yn y maes.

B2. Ychydig iawn o lenyddiaeth yn canoli ar droseddwyr ar ddedfrydau yn y gymuned a gafwyd o’r chwilio, gyda’r canlyniad mwyaf cyffredin yn canolbwyntio ar brosiectau carchar neu adsefydlu. Nodwedd gyffredin ar draws canlyniadau’r chwiliad hefyd oedd fod prosiectau yn cymryd agwedd ehangach, fwy seiliedig ar ‘gyfalaf cymdeithasol’ at hybu cyflogadwyedd yn hytrach nag ymroi yn llwyr i gyflwyno hyfforddiant. Pwysleisiwyd yn aml bwysigrwydd cefnogi troseddwyr i ddatblygu eu cyfalaf cymdeithasol fel allwedd i gyflogadwyedd. Cyflwynwyd llawer o’r prosiectau hyn gan y sector wirfoddol, weithiau ond nid o hyd mewn partneriaeth gyda gwasanaethau cyfiawnder troseddol statudol. Yn llai cyffredin ar draws canlyniadau’r chwiliad oedd rhai yn ymwneud â thermau mwy penodol megis ‘cyflogadwyedd/hyfforddiant o fewn i ddedfrydau cymunedol’. Yn yr un modd, ychydig iawn o ganlyniadau chwiliad oedd yn ymwneud â gwerthuso mentrau o’r fath. Cymerir y llenyddiaeth sy’n ymdrin ag enghreifftiau o arfer o spectrwm eang o brosiectau a gweithgareddau, o bob rhan o’r D.U. yn ogystal â nifer fechan o esiamplau rhyngwladol.

**Adroddiadau**

B3. Bwriad *adroddiad a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref (Clinks, 2014a*[39]*)* gan Clinks a Social Firms UK yw ‘ymchwilio ac asesu rôl mentrau cymdeithasol i alluogi troseddwyr ifanc ac oedolion i gyrchu cyfleoedd hyfforddi a gwaith’ a thrwy hynny oresgyn rhwystrau i waith. Cafodd dros hanner y prosiectau a adolygwyd eu cyflwyno mewn partneriaeth â mudiadau cyfiawnder troseddol.

B4. Yn y rhan fwyaf o achosion, er y gwelwyd gostyngiad tymor-byr mewn aildroseddu gan y cyfranogwyr, nid oedd data i arddangos effaith yn y tymor hwy ar gael (yr oedd llawer o’r prosiectau yng nghyfnod cynnar eu rhedeg). Fodd bynnag,y mae’r adroddiad yn nodi ‘amrywiaeth o fewnwelediadau buddiol a gwersi allweddol’ o’r astudiaethau achos. Un o’r rhain yw gwerth cynnig sgiliau sylfaenol a hyfforddiant sgiliau ac ar yr un pryd, datblygu ymddygiad da cysylltiedig â gwaith, megis prydlondeb a phresenoldeb cyson, ond ochr yn ochr hefyd ag eraill megis:

- Pwysigrwydd helpu pobl i ymdrin â rhwystrau eraill i gyflogadwyedd megis llety, rheoli dyledion, diffyg hunan-barch, a sicrhau dogfennau adnabod a gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG);

[39] A cf Clinks (2014b) am hanes llawn yr 20 astudiaeth achos

- Adnabod marchnad realistig am gyfloedd gwaith i'r grŵp targed, a thrafod a chysylltu gyda chyflogwyr i ymdrin â chanfyddiadau negyddol o droseddwyr / cyn-droseddwyr;
- Datblygu proses cam wrth gam, gan gychwyn gyda gweithgareddau i adeiladu hyder a hunan-barch ac yn datblygu llwybr; o hyfforddi i brofiad gwaith/gwirfoddoli, i waith taledig, i gyflogaeth wedi'i drefnu a'i drafod;a
- Creu cyfleoedd lle gall cyfranogwyr ddatblygu cyfalaf cymdeithasol – gan ganiatáu iddynt roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned a thrwy hynny ddatblygu ymdeimlad o hunan-werth.

B5. Mae adroddiad *Employability Scotland (2012)* ar arfer da i hybu cyflogadwyedd ymysg cyn-droseddwyr hefyd yn cynnig llawer enghraiifft o astudiaethau achos. Ar draws yr astudiaethau hyn, dyfynna'r adroddiad nifer o ffactorau a gyfrannodd at ddeilliannau cadarnhaol, sydd yn adleisio ffactorau allweddol a amlygwyd yn adroddiad Clinks (2014a), sef yn bennaf werth agwedd holistig, llawn integredig sy'n canoli ar y cleient, ac o agweddau partneriaeth cilyddol ar draws cydweithrediadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

B6. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn gosod allan werth defnyddio arfau asesu cadarn a phriodol megis 'Employment Readiness Scale'[40] i sefydlu anghenion gwaelodlin a thargedau ar draws y grŵp cleient. Yr oedd dulliau yn caniatáu nodi man cychwyn safonedig a mecanwaith oedd yn cael ei rannu i fesur cynnydd; yr oedd diffyg hyn wedi cyfyngu ar gefnogaeth mewn partneriaethau hyd yma. Mae'n werth nodi fod gwŵpiau cleient dau o'r prosiectau a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn (yn Fife[41] a Midlothian[42]) yn cynnwys troseddwyr oedd ar Orchmynion Ad-dalu Cymunedol ac felly yr oedd gweithgareddau a gyflwynwyd trwy'r prosiectau hyn yn orfodol.

B7. Adolygodd adroddiad ar gyfer *Cronfa'r Loteri Fawr* (Arrivo Consulting, 2013) brosiectau oedd yn gweithio gyda chyn-droseddwyr (un ohonynt– 'Transition to Employment' yn cael ei redeg gan elusen yn Ayr oedd yn canoli'n benodol ar ddiffyg gwaith yn y gymuned). Adeg yr adolygiad cyfredol ar gyfer yr adroddiad hwn, bu'r prosiect yn rhedeg am lai na deuddeng mis ac yr oedd felly mewn cyfnod cynnar ar gyfer gwerthuso (ac nid oedd gwybodaeth am effeithiau ar gael). Yn erbyn bwriad o gael 50 clieient y flwyddyn, yr oedd y prosiect yn honni peth llwyddiant, gyda saith cleient oedd wedi 'symud i gyrchfannau cadarnhaol': tri i waith, dau i goleg, a dau i gyfleoedd gwirfoddol; yr oedd un arall yn ymchwilio i fod yn hunan-gyflogedig. Mae'r prosiect hwn yn gweithio gyda throseddwyr ar Ad-dalu Cymunedol a gyfeiriwyd gan

[40] Graddfa a ddefnyddir yn Fife, lle mae cleientiaid yn rhoi darlun o'u cyflogadwyedd a'u nodweddion personol, a thrwy hynny nodi eu hanghenion am gefnogaeth a chael eu gosdd yn bendant wrth galon y broses.
[41] Fife: Employment Readiness Scale – yn golygu darparu cefnogaeth cyflogadwyedd yn y gymuned.
[42] Midlothian Training Services (MTS) – lle'r oedd troseddwyr yn gweithio ar gyfres o brosiectau tirweddu. Mynediad hefyd at amrywiaeth o wasanaethau cyflogadwyedd gan gynnwys Clwb Gwaith wythnosol, cefnogaeth wrth chwilio am swydd a hyfforddiant sgilau craidd (gan gynnwys TG).

weithwyr cyfiawnder troseddol. Mae'n canolbwyntio ar sgiliau gwaith a chwilio am waith, yn cael ei gyflwyno'n unigol ac, fel y prosiectau a drafodwyd uchod, yng nghyd-destun cefnogaeth ar draws amrywiaeth o broblemau. Pwysleisir hyn gan y prosiect fel allwedd llwyddiant, ynghyd â 'buddsoddi amser i ddatblygu perthynas seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng y gweithiwr a phob cleient' i allu adnabod ac ymateb i anghenion yr unigolyn. Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio'r angen i ofalu bod cefnogaeth mewn 'dilyniant priodol', gan awgrymu nad yw cyflogaeth yn aml yn nod tymor-byr realistig hyd nes yr ymdriniwyd â materion ac anghenion eraill.

B8. Mae adroddiad gwerthuso ar gyfer y *Weinyddiaeth Gyfiawnder* (Foster *et al*, 2013)*,* ar gamau cynnar eu cynllun peilot cyflogaeth ac aildroseddu yn nodi rhai gwersi gwerth eu dysgu. Rhoes y cynllun peilot hwn fynediad gorfodol 'Diwrnod Cyntaf' i'r '*Rhaglen Waith'* i bawb oedd yn gadael carchar ac yn hawlio Lwfans Ceiswyr Swyddi. Er ei fod yn ymdrin â'r rhai oedd wedi gadael carchar ac felly nid yr un grŵp targed â'r fenter yr ymdrinnir â hi yn yr adroddiad presennol, mae'n werth nodi y teimlwyd fod sefydlu strwythur llywodraethiant unswydd yn help i sicrhau bod gwasanaethau a gyd-gomisiynwyd rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder (WG) a'r DWP yn cael eu cyflwyno'n effeithiol; fod darparwyr yn fwy llwyddiannus pan oedd ganddynt fwy o wybodaeth am eu cleientiaid; a'i bod yn bwysig i staff oedd yn rheoli troseddwyr (staff carchardai yn yr achos hwn) adeiladu perthynas gyda darparwyr gwasanaeth yn y gymuned.

B9. Cynhaliodd Wilson (2014) adolygiad o gyflogadwyedd cyn-droseddwyr yn Fife, oedd yn canoli ar asesu anghenion a dyheadau defnyddwyr gwasanaeth, rhwystrau i fwrw ymlaen i gyflogadwyedd, a'u profiadau. Yn bwysig iawn, nod yr adolygiad hwn oedd ymchwilio i effeithiolrwydd modelau cyflwyno darpariaeth gwasanaeth ar draws yr ardal ddaearyddol (op cit). Yn *A review of ex-offender employability in Fife* (Wilson, 2014) mae Wilson yn cefnogi agweddau holistig sy'n canoli ar yr unigolyn, darpariaeth unswydd briodol i oedran a rhyw, adeiladu hyder, datblygu personol, adeiladu galluedd penodol ar gyfer gwaith, a mentora gan gyfoedion. Y mae, fodd bynnag, yn cydnabod adolygiad llenyddiaeth McEvoy (2008) o waith effeithiol (*Enhancing Employability in Prison and Beyond*), sy'n awgrymu diffyg tystiolaeth gadarn am effeithiolrwydd agweddau o'r fath. Fodd bynnag, er i McEvoy (2008) awgrymu diffyg tystiolaeth gadarn ar hyn ac yn ei drafodaeth o hanes gwleidyddol llinach Beth Sy'n Gweithio o arfer a pholisi, y mae'n cyfeirio at ymchwil Fforwm Ewropeaidd Cyflogaeth Troseddwyr (FfECT, 2002 dyfynnir yn McEvoy, 2008). Amlygodd ymchwil FfECT yn ei ganfyddiadau sawl thema o ran yr arferion gorau, a'r un mwyaf perthnasol i'r adolygiad presennol yw pwysigrwydd cyflwyno hyblyg i unigolion (FfECT, 2002 dyfynnir yn McEvoy, 2008). Dyfynnwyd hyn fel rhywbeth perthnasol i lwyddiant prosiectau sy'n gweithio gyda throseddwyr a chyn-droseddwyr o fewn darpariaeth cyflogadwyedd (op cit).

B10. Mewn adroddiad ymchwil sydd yn edrych i mewn i anghenion dysgu a sgiliau troseddwyr yn y gymuned, mae Canton *et al* (2011) yn pwysleisio pwysigrwydd

asesu cychwynnol cadarn ac adolygu cyson, gan dynnu sylw hefyd at y ffaith fod mwyafrif yr ymatebwyr yn rhoi gwerth arbennig ar gael dewis o ran ymwneud â'r ddarpariaeth. Mae'r awduron yn dadlau y byddai elfen orfodol yn y ddarpariaeth wedi cynyddu gwrthwynebiad i ymwneud yn sylweddol. Ar y sail hwn, maent yn argymell y dylai rheolwyr troseddwyr (neu ddarparwyr eraill) ddefnyddio agweddau creadigol i gael y cleientiaid i gymryd rhan, hyd yn oed yng nghyd-destun gorchmynion llys gorfodol. Fel gyda thystiolaeth arall a ddyfynnwyd uchod, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyfeirio at werth darpariaeth unswydd a phartneriaethau sefydledig ac ystyrlon rhwng y system cyfiawnder troseddol a chyflogwyr.

**Prosiectau unigol**

B11. Cynllun peilot oedd yr *Offender Education and Training in Adult Community Education (ACE) Initiative* a redwyd o ddiwedd 2004 tan fis Rhagfyr 2006 yn Victoria, Awstralia ac a werthuswyd gan Molnar a Hopkins (2006). Bu mudiadau Addysg Gymunedol i Oedolion (AGO) yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Ceryddol Cymunedol; cyfeiriwyd 279 o droseddwyr yn ystod y cyfnod gwerthuso gydag AGO yn gorfod cael o leiaf hanner ohonynt i gwblhau 200 awr o hyfforddiant; yn ogystal â symud ymlaen i addysg bellach neu waith. Yr oedd darpriaeth yn cynnwys cysylltiadau at amrywiaeth o gyrsiau galwedigaethol a achredwyd[43]. Fel yn y mentrau a grybwyllwyd eisoes, yr oedd asesu yn allweddol; roedd gofyn i fudiadau AGO asesu pob troseddwr yn gynhwysfawr a datblygu cynllun hyfforddi unigol fyddai'n adlewyrchu eu huchelgeisiau addysg, hyfforddiant a gwaith. Dywedodd Molnar a Hopkins (*ibid*) fod canlyniadau'r cynllun peilot yn 'rhesymol iawn'. Yn ystod y cyfnod gwerthuso:

- cyfeiriwyd 279 o droseddwyr, gyda 229 ohonynt yn mynychu asesiad; o'r rhain, yr oedd 147(64%) wedi ymrestru a/neu wedi cwblhau eu hyfforddiant adeg y gwerthuso. Cofnodwyd 53 deilliant (200 awr o astudio, addysg bellach neu waith). O'r rhai a ymrestrwyd neu a gwblhaodd eu hymwneud, yr oedd 36 y cant wedi cwbhlau 200 awr o hyfforddiant.[44]

B12. Nodwyd:

'fod gallu mudiadau AGO i gynllunio rhaglenni hyfforddi a datblygu personol i gwrdd ag anghenion troseddwyr unigol yn nodwedd allweddol o'r cynllun peilot ac ymddangosodd rhai modelau o arfer. Nodwyd lefelau uchel o ymwneud rhwng troseddwyr a Darparwyr AGO, er mai yn wirfoddol yr aeth mwyafrif y troseddwyr a ymgymerodd â'r hyfforddiant hwn, hyd yn oed os nad oedd yn cyfrannu tuag at

[43] Roedd natur hyn yn amrywio mewn gwahanol fannau, ond ymhlith enghreifftiau yr oedd Garddwriaeth, TG, mecaneg moduron, hylendid bwyd, gofal yr henoed a gwasanaethau harddwch; yr oedd gwahanol ardaloedd yn blaenoriaethu gwahanol lefelau o gymhwyster.

[44] Nid oedd data ar gael ynghylch pa astudio pellach neu waith a gafwyd.

Oriau Gwaith Cymunedol. Cyfeiriodd mwyafrif y troseddwyr a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthuso at yr amgylcheddau dysgu cyfeillgar a hwyliog, a bod hyn yn gadarnhaol iawn. Dywedasant fod yr hyfforddiant wedi rhoi mwy o hyder iddynt; roeddent yn gallu canolbwyntio'n well; a gallent bellach chwilio am waith neu astudio pellach mewn meysydd o ddiddordeb iddynt.'

B13. Nodwyd yr 'elfennau mwyaf effeithiol' canlynol o'r modelau a ddefnyddiwyd:

- Cyswllt a chyfnewid gwybodaeth effeithiol o fewn mudiadau sy'n cymryd rhan a rhyngddynt;
- Darparu cyngor o safon galwedigaethol uchel i droseddwyr am gyfleoedd hyfforddi/gwaith perthnasol a gwasanaethau datblygu personol
- Cynnwys cyrsiau sydd wedi eu hachredu yn alwedigaethol
- Cyrsiau sy'n rhoi i droseddwyr sgiliau lluosog i wella eu dewisiadau cyflogaeth
- Integreiddio sgiliau llythrennedd a rhifedd yn greadigol i mewn i hyfforddiant galwedigaethol
- Gofalu y gall troseddwyr symud yn gyflym trwy bob cam (cyfeirio at waith) Cyflwyno dysgu yn hyblyg gan gynnwys yn unigol, y tu allan i oriau ac yn y gwaith;
- Cyswllt effeithiol gyda rhwydweithiau swyddi a/neu asiantaethau cyflogaeth

B14. *Enhanced Support for Supervision (Warwickshire & West Mercia):* prosiect yw hwn sy'n cael ei gyflwyno gan YSS, mudiad elusennol yn gweithio gyda grwpiau bregus a chyda chleientiaid y gwasanaeth prawf ar draws amrywiaeth o feysydd angen, gan gynnwys Addysg, Hyfforddiant a Gwaith (AHG). Mewn adroddiad adolygu chwarterol am y prosiect, mae'r staff cyflwyno yn disgrifio'r maes gwaith hwn fel a ganlyn (Grantham *et al*, 2014):

*"*Caiff troseddwyr sy'n cael eu symbylu i ymdrin â'u hanghenion AHG gyfle i fynychu Clwb Swyddi wythnosol i edrych ar eu gofynion AHG penodol yn ogystal â datblygu cynlluniau cefnogi cydweithredol i osod nod, a cheisio sicrhau swyddi y maent yn eu mwynhau. Bydd troseddwyr yn cael eu cefnogi i gael cymwysterau cysylltiedig â gwaith a sgiliau cyflogadwyedd. Mae modd cynnig mentora cysylltiedig â gwaith hefyd. Anogir troseddwyr i adeiladu perthynas gadarnhaol o hyder gyda gweithwyr allweddol a gwirfoddolwyr medrus, cydymdeimladol a hyblyg`.'

B15. Maent yn cefnogi cyfanswm o 191 deilliant AHG yn erbyn 341 a gyfeiriwyd at y cynllun yn gyffredinol (ni nodir faint a gymerodd ran na faint oedd disgwyl i gymryd rhan yn y rhan AHG, na chwaith a ellir adrodd am fwy nag un deilliant am un unigolyn) fel a ganlyn[45]:

'cafodd 6 waith llawn amser; cafodd 4 waith rhan-amser; cafodd 8 gyfweliadau am swyddi; cychwynnodd leoliad gwaith; pasiodd 3 eu prawf CSCS; mae 13 yn adolygu ar gyfer eu profion CSCS gyda'u gweithwyr allweddol; bu 6 ar gwrs hyfforddi galwedigaethol'.

B16. Maent yn adrodd:

'gwelliant o 48% ar achosion a gaewyd[46] i'r unigolion hynny oedd â phroblemau addysg arwyddocaol yn yr Adolygiad Anghenion Cychwynnol a welliant o 27% ar achosion a gaewyd i'r unigolion hynny oedd â phroblemau cyflogaeth arwyddocaol yn yr Adolygiad Anghenion Cychwynnol.' (*ibid*).

B17. Ni ddywedir a yw cymryd rhan mewn gweithgareddau AHG yn orfodol ai peidio; fodd bynnag, mae'r pwyslais ar symbylu yn awgrymu nad yw.

**Cyflwyno hyfforddiant ar gyfer gwaith a sgiliau**

B18. Mae pwysigrwydd gwaith a sgiliau ar gyfer gwaith wedi ei hen gydnabod mewn gwaith gyda throseddwyr, ond ni ddatgelodd y chwiliad fawr ddim henesion/gwerthusiadau diffiniol o ymyriadau sgiliau cyflogaeth yn y gymuned. Mae nifer o gwmniau adsefydlu cymunedol (CAC) yn cyfeirio at eu hymdrechion yn y maes hwn. Mae CAC Llundain(2016), er enghraifft, yn disgrifio yn gyffredinol ar eu gwefan[47] eu gwaith cydweithredol gydag amrywiaeth o ddarparwyr hyfforddiant a cholegau Addysg Bellach er mwyn rhoi i gleientiaid y sgiliau sydd eu hangen i gael cyfle am waith; cyfeirir at gynnig sgiliau llythrennedd a rhifedd allweddol i'w cleientiaid, yn ogystal â chymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol mewn maes o ddiwydiant perthnasol o'u dewis, a chyswllt hefyd gyda chyflogwyr er mwyn adnabod y swyddi sy'n cyfateb orau i'w cleientiaid. Yn yr un modd, mae gwefan CAC Bryste, Sir Gaerloyw, Gwlad yr Haf a Swydd Wiltshire (2016)[48] yn nodi arferion yn y maes hwn gan gynnwys sgiliau allweddol, hyfforddiant swyddi penodol a

[45] Data chwarterol ar gyfer y prosiect yw hyn ac mae'n grynodeb o ddata a gyd-grynhowyd ar draws Caerwrangon, Kidderminster, Redditch, Swydd Amwythig, Telford a Swydd Henffordd.
[46] Mae achos wedi'i gau yn cyfeirio at gwrdd ag anghenion dan y saith llwybr i leihau aildroseddu– llety; alcohol; cyffuriau; iechyd; addysg; gwaith; cyllid; plant, teulu a pherthynas; ac agwedd, meddwl ac ymddygiad.
[47] http://www.londoncrc.org.uk/what-we-do/employment-and-skills-for-offenders/.
[48] http://bgswcrc.co.uk/content/view/ete-skills.

gweithio'n agos gyda chyflogwyr yn ogystal a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol; mae hefyd yn nodi fod holl staff CAC Bryste yn gynghorwyr gyrfaoedd cymwys  Fel gyda'r llenyddiaeth arall a ddyfynnwyd ynghynt, mae CAC Bryste yn disgrifio eu darpariaeth hwy mewn termau holistig o'r  amrywiaeth o anghenion perthnasol ymylol (neu fel y disgrifir uchod, 'mewn dilyniant') y gweithir drwyddynt gyda'r cleientiaid i'w gwneud yn fwy cyflogadwy. Ni chynigir mwy o wybodaeth am, er enghraifft, gyfraddau cyfranogi a chymwysterau.

B19. Eto, wrth sefydlu gwasanaeth ail-integreiddio cymunedol i gleientiaid IOM, mae Bwrdeistref Islington yn Llundain (2015) yn cyfeirio at bwysigrwydd cysylltu gwahanol fathau o ddatblygiad cyfalaf cymdeithasol gan gynnwys cyflogadwyedd, ond heb fanylu ar y modd mae eu prosiect yn gwneud hyn.

B20. Mae'r Gwasanaeth  Dysgu a Sgiliau i Droseddwyr (OLASS) bellach wedi bod ar waith ers 11 mlynedd gyda'r nod o integreiddio addysg i droseddwyr yn y carchar a thu hwnt gyda darpariaeth academaidd a galwedigaethol prif-ffrwd. Mae'r gwerthusiad diweddaraf o'i weithredu (Halsey *et al*, 2006), seiliedig ar gyfweliadau gyda 51 o gynrychiolwyr gwahanol asiantaethau mewn tri rhanbarth dethol) yn nodi gwelliannau mewn asesu, gweithio mewn partneriaeth a darpariaeth yn y carchar, ond llai o gynnydd mewn darpariaeth yn y gymuned. Lle nodwyd cynnydd gan staff a gyfwelwyd, yr oedd yn dueddol o fod yn gysylltiedig ag agwedd darparwyr newydd (e.e., hyfforddiant i staff, cyrsiau wedi eu teilwrio i droseddwyr). Yn y cyfamser, dywedwyd fod a wnelo diffyg cynnydd â diffyg arian i ddarpariaeth gymunedol, colegau prif-ffrwd yn methu â chynnwys troseddwyr (e.e., anhyblygrwydd ynghylch dyddiadau cychwyn cyrsiau) a dim estyniad ar ofynion contractaidd ar gyfer darpariaeth gymunedol. Daeth ugain o'r hanner cant ac un a gyfwelwyd i'r casgliad fod y ddarpariaeth yn y gymuned yn canolbwyntio'n gryfach ar gyflogadwyedd ers OLASS (yr oedd hyn fymryn yn is na'r farn gyfatebol am gynnydd mewn carchardai).

**Gofynion ar gyfer cymryd rhan**

B21. Cwestiwn sy'n codi ynghylch mentrau cyflogadwyedd gyda throseddwyr yw a yw o gymorth ai peidio i fynnu eu bod yn gymryd rhan. Nid yw canllawiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop o blaid gofyniad o'r fath (Cronfa Gymdeithasol Ewrop yr Undeb Ewropeaidd, 2015) lle mae'r gweithgaredd a 'orchmynir' o fewn ffiniau'r gyfraith a pholisi a lle tybir ei fod yn rhesymol i amgylchiadau'r unigolyn, a lle mae'r unigolyn yn deall canlyniadau methu cydymffurfio.

B22. Mae rhai ysgrifenwyr yn amheus o ddefnyddio gorfodaeth. Dywed (Gendreau a Cullen, 1996 a ddyfynnir yn Brown, 2004) er enghraifft, fod angen llai o o strwythur i barôl, gan awgrymu, er bod tystiolaeth o ddeilliannau cadarnhaol o fwy o strwythur a goruchwyliaeth, yr erys cwestiwn ynghylch gwerth ymyriadau 'ymwthiol'. Yn y cyfamser, nododd ymchwil Buck (2000) fod cyfranogwyr gwirfoddol mewn rhaglenni cyflogaeth yn fwy tebygol o gael deilliannau cadarnhaol na'r rhai y gorfodwyd iddynt

gymryd rhan (Buck, 2000). Cyfeiria rhaglen ACE Awstralia (*ibid*), fel y nodir uchod, at radd uchel o gyfranogi gwirfoddol fel un o ddangosyddion cadarnhaol y rhaglen.

B23. Fodd bynnag, y mae gorfodaeth i raddau mwy neu lai yn nodwedd o lawer o gynlluniau cyflogadwyedd troseddwyr. Yr oedd rhaglen ACE, o leiaf un o brosiectau Caerwrangon a mentrau yn yr Alban oedd yn cynnwys troseddwyr ar Ad-Dalu Cymunedol uchod (*ibid*) yn cynnwys cleientiaid a orfodwyd; yr oedd hyn hefyd yn wir ym mhrosiectau Arloeswyr Gwasanaeth Cymunedol (Rex *et al*, 2004) a Chosbau Cymunedol Estynedig (HMIP, 2006) yng Nghymru a Lloegr, gyda'r cyntaf yn cael ei ddisgrifio fel 'addawol' (Rex *et al*) lle'r oedd yn canolbwyntio ar achredu sgiliau (yn ogystal â modelu cymdeithasol cadarnhaol[49]). Nodwyd elfennau eraill megis agwedd ail-integreiddio at gyflwyno dedfrydau fel rhai oedd yn cyfrannu at yr hyn oedd yn gadarnhaol yn y model hwn (McIver, 2002) ond yr awgrym yw nad yw gorfodaeth yn anghydnaws ag agwedd effeithiol yn y maes hwn. O ystyried graddfa'r symbyliad ar ran y troseddwr, gall cydymffurfio ag adrodd gorfodol gyfrannu at ddeilliannau llwyddiannus (Lavelle a McPherson, 2004), tra bod Leukefeld *et al* (2003) yn gweld bod ymwneud gorfodol o fewn treialon llys cyffuriau yn rhywbeth cadarnhaol i gleientiaid oedd yn defnyddio cyffuriau.

B24. Mae pwynt o waith Canton *et al* (2011) a grybwyllir uchod yn werth ei ailadrodd yn y cyd-destun hwn. Dywedant fod elfen orfodol yn y math hwn o ddarpariaeth yn creu gwrthwynebiad i ymwneud. Fodd bynnag, gan dderbyn y bydd gorfodaeth ar adegau yn elfen mewn mentrau cyflogadwyedd cyfiawnder troseddol, maent yn argymell y dylai rheolwyr troseddwyr (neu ddarparwyr eraill) fod yn greadigol er mwyn cael cleientiaid i gymryd rhan, hyd yn oed yng nghyd-destun gorchmynion llys gorfodol.

**Mentrau eraill**

B25. Cynhyrchodd y chwiliad wybodaeth am amrywiaeth o brosiectau eraill ym maes hybu cyflogadwyedd / sgiliau gwaith gyda throseddwyr, er heb unrhyw dystiolaeth glir am werth nac effaith eu hagwedd. Felly, er na ellir gweld yr enghreifftiau hyn fel 'arferion gorau', y maent yn rhoi syniad o agweddau cyfoes a pherthnasol a gellir eu gweld fel arwyddion o dueddiadau cyfredol mewn cyflwyno, er gyda'r rhybudd na fu'r agweddau hyn yn gyffredinol yn destun gwerthuso cadarn. Ymysg yr enghreifftiau hyn yr oedd:

- Prosiectau Mentora yng Ngogledd-Ddwyrain Lloegr (Cyngor Sgiliau Dysgu, 2011) ac yn Lerpwl (Tomorrow's People, 2016) oedd yn ceisio defnyddio mentora i wella sgilau bywyd a gobeithion troseddwyr a chyn-droseddwyr am waith. Mae gwerthusiad prosiect y Gogledd-Ddwyrain (*ibid*) yn gosod allan rai deilliannau cadarnhaol i'r unigolion a gymerodd ran a'i fod wedi cael derbyniad da, gan nodi, er hynny, 'fod mentora troseddwyr yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei ddarparu fel rhan o

[49] Pwrpas modelu cyn-gymdeithasol yw newid ymddygiad cleient trwy arddangos ac atgyfnerthu mathau cadarnhaol o ymddygiad cymdeithasol.

rwydwaith o gefnogaeth’. Mae ei rôl yn fwy o gefnogi na hyfforddi, fodd bynnag, ac nid yw’r gwerthusiad yn gosod allan gyswllt pendant rhwng cefnogaeth a deilliannau cyflogadwyedd.

- Prosiect Bounceback (Llundain): menter gymdeithasol (ac elusen) sy’n gweithio gyda charcharorion ‘trwy’r glwyd’ i ddarparu hyfforddiant a chyfle am waith, gan gynnwys cyfleoedd mwy tymor-hir i weithio gyda’r mudiad trwy eu braich menter gymdeithasol. Tra bod Bounceback yn cynni hyfforddiant ac achredu wedi’i gyfeirio at alwedigaethau yn unig, mae eu gwaith yn berthnasol oherwydd bod cymryd rhan yn wirfoddol. Diddorol nodi fod Bounceback ar yr un pryd yn cynnig hyfforddiant yn y carchar (CEM Brixton) yn ogystal ag yn y gymuned. Mae’r ddau bwynt mynediad fel ei gilydd yn gymwys i symud ymlaen i waith yng nghangen menter gymdeithasol y mudiad. Mae Bounceback yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill fel Shelter a Novus ar draws y ddau bwynt mynediad. Er nad oes tystiolaeth gwerthusol sylweddol ar gael am lwyddiant y prosiect, dengys Bounceback y gallant, fel mudiad cymharol fach, er hynny gael deilliannau pedant iawn o ran gwaith a chyflogadwyedd trwy’r hyfforddiant galwedigaethol a’i gyswllt uniongyrchol a braich menter gymdeithasol y mudiad (Bounceback Project, 2016).
- Changing Paths: darparu hyfforddiant, mentora gyda chefnogaeth, profiad gwaith ac yn y pen draw yn hwyluso swyddi llawn-amser yn bennaf mewn arlwyo ac adeiladu i droseddwyr, cyn-droseddwyr a’r rhai fu’n ddiwaith am amser hir (Changing Paths, 2016) Good Stuff Furniture: cyflwynir gan YSS ac y mae presenoldeb yn orfodol. Y mae’n ‘ofyniad gweithgaredd penodol i gwrdd ag anghenion troseddwyr benywaidd yng Nghaerwrangon’ (gall gorfodaeth yn yr achos hwn gynnig yn rhannol o leiaf ofyniad credadwy i’r llys). Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant sgiliau (mewn adfer dodrefn), profiad gwaith a sesiynau ychwanegol yn ymdrin ag elfennau megis gwaith, hyfforddiant ac addysg (gwyboaeth, cyngor a chanllawiau) gyda phwyslais ar hunan-gyflogaeth a menter lle bo hynny’n briodol, iechyd corfforol a maeth, lles emosiynol, cyllid a dyled, a pherthynas (gan gynnwys magu plant). ‘Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth gyd-destun cymdeithasol, economaidd a theuluol bywydau menywod, yn enwedig magu plant a chyfrifoldebau gofal ac yn ymdrin ag achosion gwaelodol ymddygiad troseddol’.

### Crynodeb o’r llenyddiaeth

B25. Defnyddiodd yr adolygiad llenyddiaeth amrywiaeth eang o dermau chwilio penodol i amcanion y prosiect yn gyffredinol. Er bod y termau chwilio yn eang yng nghyswllt canolbwynt penodol y prosiect ymchwil, yr oedd gan nifer cyfyngedig o esiamplau o lenyddiaeth a ddychwelwyd nod o werthuso cyflwyno hyfforddiant sgiliau hanfodol i (gyn)droseddwyr. Fodd bynnag, fe wnaeth yr adolygiad llenyddiaeth amlygu llawer o ffactorau arwyddocaol ynghylch yr arferion gorau, mewn cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol. Ymysg y themâu arfer gorau oedd fwyaf perthnasol i’r cynllun peilot SHDdC a darpriaeth yn y dyfodol yr oedd:

- Cyflwyno darpriaeth unigol neu unswydd ar gyfer pob cleient
- Pwysigrwydd defnyddio arfau asesu cadarn a phriodol
- Defnyddio agwedd holistig tuag at gyflwyno sgiliau hanfodol

**Atodiad C: Adennill a chyfatebu data ar y sawl sy'n derby darpariaeth SHDdC a'r sawl nad ydynt**

C1. Mae'r atodiad hwn yn rhoi mwy o fanylion am sut y cynhyrchodd Tîm Perfformiad ac Ansawdd NOMS yng Nghymru y setiau data angenrheidiol gan ddefnyddio Data LLWR a NDelius NOMS.

**Data NDelius NOMS**

C2. Er mwyn adnabod achosion posib oedd yn dangos angen am ymyriad Sgiliau Hanfodol, i ddechrau, detholwyd pob un o achosion GPC Cymru a CAC Cymru gyda Gorchymyn Prawf cyfredol (ar 23/06/16).

C3. Yna defnyddiodd NOMS gwmpas cymharol eang i ddal cymaint o achosion posib ag oedd modd, lle nodwyd unrhyw rai o'r amrywynnau canlynol:

- Problemau gyda darllen (OASys)
- Problemau gydag ysgrifennu (OASys)
- Problemau gyda rhifedd (OASys)
- Anawsterau dysgu a/neu anabledd (NDelius)
- Pryderon am ddarllen/llythrennedd (NDelius)
- Pryderon am rifedd (NDelius)
- Pryderon am iaith/cyfathrebu (NDelius)
- Pryderon sgrinio sgiliau (NDelius)

C4. Detholwyd 2,921 achos fel hyn. Yr oedd 223 o'r rhain hefyd yn set ddata LLWR, wedi'u cofnodi fel rhai a gychwynnodd weithgareddau dysgu cynllun peilot SHDdC. Yr oedd 2,698 heb fod yn y LLWR.

**Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)**

C5. Yr oedd tri tab data yn ffeil wreiddiol LLWR ar gyfer cyfatebu – RawData, DistinctLearners, a DistinctProgrammes. Yr oedd y data a ddefnyddiwyd ar gyfer proses gyfatebu'r data o'r tab DistinctLearners oedd yn cynnwys Cyfenw, Enw Cyntaf, Dyddiad Geni (DG), ac amrywynnau Rhyw. Rhestrwyd cofnodion am gyfanswm o 237 o ddysgwyr yn y tab DistinctLearners. Trosglwyddwyd y data hyn i gronfa ddata Access ar gyfer cyfatebu. Defnyddiodd y broses gyfatebu gyfuniad o'r arferion canlynol i gysylltu data i NDelius:

- Cyfatebiaeth ar Enwau Cyntaf a Chyfenwau gan ddefnyddio cyfuniad o algorithmau cyfatebu niwlog SOUNDEX ac NYSIIS.
- Yr oedd cyfatebu niwlog ar ddyddiadau geni yn cyfrif am ddyddiadau wedi'u trawsosod/camgymeriadau teipio.

C6. Cafwyd cyfatebiaeth i 223 o'r 237 dysgwr[50].

C7. Unwaith i'r broses gyfatebu gael ei chwblhau'n llwyddiannus, atodwydwyd Cyfatebiad Teip a RhCN (Rhif Cyfeirio NDelius) i'r set ddata wreiddiol. Y RhCN oedd y maes allweddol fel bod modd cysylltu ymlaen i wrthrychau data NDelius/OASys.

C8. Trosglwyddwyd y set ddata hon wedyn i gronfa ddata Access derfynol gyda dolenni i ffynonellau data craidd NDelius ac OASys NOMS (a allforiwyd yn ddyddiol). Crewyd ymholiad cyfoesi i gynhyrchu ID Dolennu ar gyfer pob achos (wedi'i lunio o rif dilynol, 2 ddigid cyntaf y DG, llythyren gyntaf y Cyfenw a llythyren gyntaf yr enw cyntaf) e.e., 1804HB. Cymhwyswyd hyn i'r set ddata a hefyd i ddata arall yn nhaenlen LLWR (Raw Data a Distinct Programmes). Cafodd yr eitemau data ychwanegol eu cynnwys yn ôl y galw.

[50] Mae rhesymau dros fethu â chyfatebu yn debyg o gynnwys enwau anghywir neu wedi eu sillafu'n wael, neu ddyddiadau geni anghywir/wedi'u hamcangyfrif yn un set ddata neu'r ddwy.

**Atodiad D: Arfau Gwaith Maes**

D1. Dyma’r arfau a gynhwysir yn yr Atodiad hwn:

- Y daflen wybodaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfweliadau unigol gyda GPC, CAC ac arweinwyr darparu
- Ffurflen gydsynio’r ymchwil
- Y canllaw pwnc cyfweliadau lled-strwythuredig ar gyfer y cyfweliadau unigol gyda GPC, CAC ac arweinwyr darparu
- Y daflen wybodaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg onlein gyda rheolwyr troseddwyr a hyfforddwyr GPC a CAC
- Cwestiynau’r arolwg arlein ar gyfer rheolwyr troseddwyr a hyfforddwyr GPC a CAC

**Taflen wybodaeth (defnyddiwyd ar gyfer cyfweliadau unigol)**

*Cyflwyniad*

Comisiynwyd Carney Green a Phrifysgol Fetropolitan Manceinion (MMU) i gynnal gwerthusiad proses o'r rhaglen beilot Sgiliau Hanfodol i rai ar ddedfrydau yn y gymuned (SHDdC) ar ran Llywodraeth Cymru.

Bydd y tîm gwerthuso yn ymgynghori gydag arweinwyr rhanbarthol GPC, arweinwyr rhanbarthol CAC, rheolwyr swyddfa GPC a CAC, arweinwyr darparwyr cyflwyno, a rheolwyr troseddwyr, yn ogystal ag adolygu data ar droseddwyr cymwys a'r rhai sy'n ymwneud â'r cynllun peilot.

Pwrpas ein trafodaeth yw ymchwilio i'ch profiad a'ch dealltwriaeth o'r cynllun peilot. Bydd eich ymatebion yn ddienw ac yn cael eu trin yn hollol gyfrinachol. Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hwn yn hollol wirfoddol a gallwch newid eich meddwl ar unrhyw adeg.

Caiff y wybodaeth a roddwch ei ddefnyddio, ochr yn ochr a'r hyn a roddir gan gyfranogwyr eraill yn yr ymchwil, i asesu llwyddiant yr agwedd newydd at gyflwyno hyfforddiant Sgiliau Hanfodol i droseddwyr yn y gymuned, ac i roi argymhellion fel sail o wybodaeth i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol trwy'r rhaglen gyflogadwyedd oedolion newydd yng Nghymru. Darperir canlyniadau'r gwerthusiad proses mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru, a all gael ei gyhoeddi.

Darllenwch y daflen wybodaeth isod. Mae ffurflen gydsynio i'w llenwi os cytunwch i gymryd rhan yn yr ymchwil.

| | |
|---|---|
| Teitl y Prosiect Ymchwil | Gwerthusiad proses o'r rhaglen beilot Sgiliau Hanfodol i rai ar ddedfrydau yn y gymuned (SHDdC) |
| Tim Ymchwil | Caiff y cynllun peilot ei werthuso gan dîm o ymchwilwyr annibynnol o Carney Green a Phrifysgol Fetropolitan Manceinion ar ran Llywodraeth Cymru. |
| Enw'r Ymchwilydd sy'n cynnal y cyfweliad heddiw. | I'w fewnbynnu |
| Manylion cyswllt yr Ymchwilydd | I'w fewnbynnu |
| Rheolwr y Prosiect Gwerthuso | Evelyn Hichens, Carney Green<br>evelyn.hichens@carneygreen.com 07494 449840 |
| Arweinydd Gwerthso MMU | Hannah Smithson, MMU<br>h.l.smithson@mmu.ac.uk, 0161 2473442 |
| Enw a manylion cyswllt unigolyn o Lywodraeth Cymru | Sara James<br>sara.James@Wales.gsi.gov.uk, 029 2082 6812 |
| Nod yr ymchwil hwn | Nod y tîm gwerthuso yw ymchwilio i weithredu agwedd y cynllun |

| | |
|---|---|
| | peilot, asesu llwyddiant yr agwedd newydd a gwneud argymhellion er mwyn bod yn sail i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol. |
| Beth fydd canlyniadau'r gwerthuso? | Bydd y tîm gwerthuso yn ysgrifennu adroddiad i Lywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall yn well sut y gweithredodd y cynllun peilot a dysgu gwersi y gellir eu defnyddio ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol. |
| Pam eich bod eisiau i mi gymryd rhan? | Cawsoch eich dewis i gymryd rhan am eich bod yn rhanddeiliad sy'n ymwneud â chyflwyno'r cynllun peilot. |
| Beth fydd hyn yn olygu? | 1 cyfweliad yn para rhwng 45 munud ac awr. Cynhelir y cyfweliad dros y ffôn ar amser a dyddiad sy'n gyfleus i chi. |
| Sut caiff data gennyf ei gofnodi? | Gyda'ch caniatâd, caiff cyfweliadau eu recordio gan ddefnyddio Dictaphone digidol a'u trawsgrifio. Bydd recordiad y cyfweliad yn cael ei ddileu wedi'r trawsgrifio.<br><br>Os na roddir caniatâd i recordio'r cyfweliad yn ddigidol, byddwn yn gofyn caniatâd i gael cymryd nodiadau ysgrifenedig. Bydd nodiadau a gymerir adeg cyfweliadau yn cael eu teipio a'r nodiadau ysgrifenedig yn cael eu dinistrio. |
| Sut caiff y data ei storio? | Caiff eich data storio'n ddiogel yn unol â Deddf Diogelu Data. Mae hyn yn golygu y caiff pob recordiad digidol, trawsysgrif a nodiadau teipiedig o gyfweliadau eu storio'n electronig mewn systemau cyfrifiadurol wedi'u hamgryptio a'u diogelu gan fur cadarn. Cyfyngir mynediad i aelodau'r tim ymchwil. Dim ond aelodau'r tim ymchwil gaiff fynd at eich data. Caiff eich data ei gadw'n ddiogel yn unol â Deddf Diogelu Data, am gyfnod o hyd at ddwy flynedd wedi cwblhau'r prosiect rhag ofn y cyfyd unrhyw ymholiad neu her. Wedi hynny, caiff ei ddinistrio'n ddiogel. |
| Fydd hyn yn gyfrinachol? | Bydd. Bydd eich ymatebion yn ddienw. Pan fyddwn yn adrodd am ein canfyddiadau, ni fyddwn yn enwi unigolion. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn defnyddio unrhyw rai o'ch manylion personol yn ein hadroddiad. |
| Beth os byddaf yn newid fy meddwl? | Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hwn yn hollol wirfoddol. Rydych yn rhydd i wrthod ateb unrhyw gwestiwn. Gallwch hefyd dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg yn ystod y cyfweliad ac o fewn pythefnos o gymryd rhan.<br><br>Wedi hyn, caiff eich ymatebion eu mewnbynnu i'w dadansoddi. Os dymunwch dynnu allan, cysylltwch â rheolwraig y prosiect gwerthuso, Evelyn Hichens, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. |

**Ffurflen Gydsynio – un copi ar gyfer ymchwil ac un copi i'r cyfranogwr**

Teitl y prosiect: gwerthusiad proses o'r cynllun peilot Sgiliau Hanfodol i'r rhai ar ddedfrydau yn y gymuned (SHDdC).

**Enw'r Ymchwilydd**: ______________________________________________

**Enw'r Cyfranogwr:** ______________________________________________

| **Gosodiadau** | **Ie?** | **Na?** |
|---|---|---|
| Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y daflen wybodaeth ar gyfer yr astudiaeth uchod. | | |
| Cefais gyfle i ystyried y wybodaeth, holi cwestiynau a chael atebion boddhaol iddynt. | | |
| Rwy'n deall fy mod yn cymryd rhan o'm gwirfodd ac fy mod yn rhydd i beidio ag ateb cwestiynau yn ystod y cyfweliad ac i dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg yn ystod y cyfweliad ac o fewn pythefnos o gymryd rhan heb roi unrhyw reswm, heb i hyn effeithio ar fy hawliau cyfreithiol. | | |
| Rwy'n deall y caiff data a roddir gennyf ei storio yn unol â Deddf Diogelu Data. | | |
| Rwy'n cydsynio i'r cyfweliad gael ei recordio yn ddigidol. | | |
| Rwy'n cydsynio i nodiadau ysgrifenedig gael eu cymryd o'r cyfweliad. | | |
| Rwy'n cydsynio i gymryd rhan yn yr astudiaeth | | |

______________________________________________

| Enw'r cyfranogwr | Dyddiad | Llofnod |
|---|---|---|

______________________________________________

| Enw'r sawl sy'n cymryd y cydsyniad (ymchwilydd) | Dyddiad | Llofnod |
|---|---|---|

**Canllaw cyfweliad lled-strwythuredig**

*Canllaw i bynciau cyfweliad lled-strwythuredig yw hwn. Caiff ei ddefnyddio'n ganllaw i'r drafodaeth. Gan ei fod yn lled-strwythuredig, ni fydd pob cwestiwn yn cael ei ofyn yn uniongyrchol neu ni fydd yn berthnasol i bawb yr ymgynghorir â hwy.*

Comisiynwyd Carney Green a Phrifysgol Fetropolitan Manceinion (MMU) i gynnal gwerthusiad proses o'r rhaglen peilot Sgiliau Hanfodol i rai ar ddedfrydau yn y gymuned (SHDdC) ar ran Llywodraeth Cymru.

Nod gwerthusiad y broses yw asesu llwyddiant yr agwedd newydd, a gwneud argymhellion, ar sail tystiolaeth gadarn (a gasglwyd trwy ddadansoddi data eilaidd, a chyfweliadau ac arolwg arlein gyda rhanddeiliaid, ac adolygiad o arferion gorau mewn mannau eraill), fel sail o wybodaeth i ddarparu'r gwasanaethau hwn yn y dyfodol trwy'r rhaglen cyflogadwyaeth oedolion newydd yng Nghymru.

Cynhaliodd y tîm gwerthuso gyfweliadau eisoes gyda rhanddeiliaid allweddol yn natblygiad a chyflwyno'r cynllun peilot. Arweiniodd y trafodaethau hyn at ddealltwriaeth glir o ddatblygiad y cynllun peilot a'i resymeg; ei weledigaeth tymor-hir a'r gweithgareddau a'r deilliannau sydd eu hangen i gyrraedd y nod hwn.

Mae'r tîm gwerthuso yn awr yn y broses o gynnal trafodaethau unigol dros y ffôn gyda'r rhai fu'n ymwneud â chyflwyno'r cynllun peilot (gan gynnwys cynrychiolwyr o'r mudiadau cyflwyno, GPC a CAC).

Pwrpas y trafodaethau hyn yw edrych i mewn i'ch profiadau a'ch dealltwriaeth o'r cynllun peilot hyd yma. Fe gymer y drafodaeth rhwng 45 munud ac awr. Bydd eich ymatebion yn ddienw ac yn cael eu trin yn hollol gyfrinachol. Mae cyfranogi yn yr ymchwil hwn yn hollol wirfoddol. Rydych yn rhydd i wrthod ateb unrhyw gwestiwn. Gallwch hefyd dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg yn ystod y cyfweliad ac o fewn pythefnos o gymryd rhan. Wedi'r cyfnod hwn caiff eich ymatebion eu mewnbynnu i'w dadansoddi. Os dymunwch dynnu allan, cysylltwch â Rheolwraig Tim y Prosiect Gwerthuso, Evelyn Hichens, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar y daflen wybodaeth.

Caiff y wybodaeth a ddarparwch ei ddefnyddio, ochr yn ochr ag eraill a gymerodd ran yn yr ymchwil, i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am y modd mae'r cynllun peilot wedi gweithredu mewn gwirionedd, ymchwilio i'r rhesymau dros newidiadau yn y gyfradd gyfranogi mewn Sgiliau Hanfodol, a rhoi tystiolaeth i Lywodraeth Cymru am y mecanweithiau arfer gorau ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth hon.

Ydych chi'n hapus i'r drafodaeth gael ei recordio er mwyn helpu'r broses o ddadansoddi'r ymatebion? Bydd pob ymateb yn gyfrinachol ac ni fydd modd eich adnabod chi yn bersonol

yn yr adroddiad.  Caiff pob data ei storio'n ddiogel yn unol â Deddf Diogelu Data a dim ond aelodau'r tim ymchwil gaiff fynd at eich data. Caiff  y wybodaeth ei gadw'n ddiogel am gyfnod o hyd at ddwy flynedd wedi cwblhau'r prosiect rhag ofn y cyfyd unrhyw ymholiad neu her. Wedi hynny, caiff ei ddinistrio'n ddiogel.

Oes gennych chi gwestiynau am yr ymchwil neu eich cyfranogiad?

*Llenwch y ffurflen gydsynio ar wahân cyn cychwyn y cyfweliad a gwiriwch fod y cyfranogwr yn barod i fwrw ymlaen*

*Cefndir*

1. A fedrwch ddatgan i ba fudiad yr ydych yn gweithio a disgrifio eich swyddogaeth benodol? Ers faint y buoch yn gweithio yn y swydd hon?
2. A fedrwch ddisgrifio eich dealltwriaeth o'r rhesymeg dros y cynllun peilot a'i amcanion?
3. Beth oedd rôl GPC/CAC/darparwr cyflwyno/ymatebydd yng nghyflwyno'r cynllun peilot? A fedrwch roi disgrifiad byr o'ch ymwneud /rôl yng nghyswllt y cynllun peilot SHDdC?
4. Ydych chi'n teimlo y dylid ymgorffori  SHDdC i ddarpariaeth ehangach sgiliau cyflogadwyedd oedolion fel sy'n cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru? Esboniwch eich rhesymeg.

*Gweithredu*

5. A fuoch yn ymwneud o'r blaen â chyflwyno Sgiliau Hanfodol i' rhai ar ddedfrydau yn y gymuned? – Os felly, sut oedd agwedd y cynllun peilot yn wahanol i'r hyn oedd yn cael ei gyflwyno dan reolaeth NOMS?
6. Faint o amser a gymerodd i'r agwedd newydd gael ei sefydlu ac i'r cyflwyno ddechrau? (Cychwynnodd y contract yn Ebrill 2015; pa mor hir oedd hi cyn i'r systemau fod yn eu lle ac i'r cyflwyno gychwyn?)
7. Sut y cafodd y newidiadau eu cyfleu i'r asiantaethau oedd yn bartneriaid? A gafodd rhesymeg yr agweddau newydd ei gyfleu yn glir? A roddwyd digon o wybodaeth?
8. A  oedd unrhyw heriau yng ngweithredu cychwynnol yr agwedd newydd at gyflwyno Sgiliau Hanfodol? Sut yr ymdriniwyd â'r heriau hyn neu eu goresgyn?
9. Pa agwedd a gymerwyd i gyflwyno'r hyfforddiant Sgiliau Hanfodol? Yn lle y cyflwynwyd yr hyfforddiant? Os mai yn fewnol, pa mor aml yr oedd darparwyr cyflwyno yn swyddfeydd CAC/GPC?

10. A fu unrhyw lwyddiannau allweddol yng ngweithredu'r agwedd newydd ar y cychwyn? Nodwch enghreifftiau (e.e., gweithio mewn partneriaeth, hyblygrwydd agwedd, ffyrdd newydd o ddwyn troseddwyr i mewn).

11. Beth yw cryfderau a gwendidau allweddol dyluniad y cynllun peilot? Sut mae hyn yn cymharu â chryfderau a gwendidau allweddol yr agwedd flaenorol?

*Cymhwysedd a chyfeirio*

12. Beth yw eich dealltwriaeth o'r meini prawf cymhwysedd i gyfeirio troseddwyr i'r rhaglen? A newidiodd y rhain dros einioes y rhaglen?

13. Fedrwch chi ddisgrifio sut y digwyddodd y broses gyfeirio i ddarparwyr cyflwyno ar lawr gwlad? Pa wybodaeth a roddwyd i'r darparwyr cyflwyno? A ddefnyddir Ffurflen Gyd-Gyfeirio Sgiliau Hanfodol GPC a CAC?

14. I'r darparwyr cyflwyno – A lwyddodd y broses asesu a ddefnyddiwyd gan GPC a CAC i adnabod cyfranogwyr cymwys? Rhowch reswm dros eich ateb.

15. Sut y cafodd gofynion iaith Gymraeg grwp cleient y cynllun peilot SHDdC eu hadnabod, eu cofnodi a'u trin? A wneir hyn yn y cyfnod cyfeirio? (o ran cyfathrebu gyda chleientiaid a chyflwyno hyfforddiant Sgiliau Hanfodol trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog)

16. Yn ymarferol, beth oedd y broses ar gyfer asesu anghenion Sgiliau Hanfodol troseddwyr? Pa arfau a ddefnyddir? (A ddefnyddiwyd/ddatblygwyd unrhyw arfau newydd fel rhan o'r cynllun peilot hwn?) Pryd mae angen am sgiliau yn cael ei asesu?

17. Pa resymau a roddwyd dros i droseddwyr cymwys beisio a derbyn hyfforddiant? Beth sy'n digwydd os nad yw troseddwyr cymwys eisiau derbyn hyfforddiant trwy'r cynllun peilot? A gynigir yr hyfforddiant yn nes ymlaen? A ydynt yn cael eu cyfeirio at ddarpariaeth wahanol? A oes unrhyw rwystrau mewnol /allanol yn eu hatal rhag ymwneud?

18. A oedd lleoliad daearyddol yr hyfforddiant a gynigiwyd trwy gyfrwng y darparwyr hyfforddiant yn ddigonol ac yn briodol i grŵp cleient y cynllun peilot SHDdC gymryd rhan? A ataliodd hyn unrhyw droseddwyr cymwys rhag ymwneud?

19. A fu unrhyw achosion lle na fydd yn briodol /addas cyfeirio troseddwr cymwys at ddarparwyr cyflwyno'r cynllun peilot? Esboniwch y rhesymau. Beth ddigwyddodd?

20. Sut oedd cyfranogwyr y cynllun peilot SHDdC yn cael eu cefnogi i fanteisio ar y cynnig hyfforddiant Sgiliau Hanfodol? Pa rôl a gymerodd GPC/CAC a'r darparwyr cyflwyno o ran cefnogi hyn?

*Cyflwyno Sgiliau Hanfodol*

*A wnewch seilio'r atebion canlynol ar achos nodweddiadol, ac amlygu i ba raddau y dilynodd achosion eraill batrwm tebyg.*

21. Sut gwnaeth y darparwr cyflwyno asesu lefel sgiliau ac angen datblygu unigolyn? Pa arfau a ddefnyddiwyd? (e.e., WEST neu erfyn arall a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru)

22. Pa wybodaeth a fewnbynnwyd i'r Cynllun Dysgu Unigol (CDU)? Sut y defnyddir y CDU yn ystod ymwneud yr unigolyn â'r cynllun peilot?

23. Pa weithgareddau, Sgiliau Hanfodol neu eraill, a gynigiwyd i droseddwyr cymwys SHDdC? Pa gymwysterau achrededig sy'n cael eu cynnig?

24. Pa ymwneud/rôl oedd gan CAC/GPC gyda'r troseddwr yn nghyswllt ei hyfforddiant Sgiliau Hanfodol unwaith iddo/i gael ei g/chyfeirio at y corff cyflwyno?

25. Sut cafodd yr ymwneud ei fonitro unwaith i droseddwyr cymwys ymrestru gyda'r darparwr? Pa rôl sydd gan GPC/CAC yn hyn?

26. Beth oedd y cryfderau a gwendidau allweddol wrth gyflwyno'r cynllun peilot?

27. A oes unrhyw feysydd cyflwyno a nodir gennych chi fel arfer arbennig o effeithiol? Rhowch esiamplau ac esboniadau.

*Ymwneud troseddwyr*

28. Sut buasech chi'n disgrifio ymwneud y troseddwyr unwaith iddynt ymrestru ar y rhaglen hyfforddi? Sut yr adolygwyd presenoldeb? Pa fecanweithiau oedd ar gael i annog presenoldeb unwaith i'r unigolyn ymrestru ar y cynllun peilot? Ymchwiliwch rwystrau mewnol ac allanol i ymwneud (e.e., amgylchiadau'r cartref, mynediad at gludiant).

29. Sut yr oedd lefel yr ymwneud â Sgiliau Hanfodol yn cymharu a'r hyn o gyflwynwyd yn ystod y contract blaenorol dan NOMS? A yw ymchwiliadau cychwynnol wedi dangos cyfraddau ymwneud is ers y cynllun peilot hwn? A oes unrhyw beth y gellid ei wneud/bod wedi ei wneud i gynyddu cyfraddau cyfeirio?

30. A oes strategaethau ar gael i droseddwyr pan fyddant yn cwblhau eu hymwneud â'r cynllun peilot? Ar ba bwynt maent yn gorffen y rhaglen? (e.e., unwaith iddynt gwblhau eu gorchymyn cymunedol neu drwydded, neu unwaith iddynt gwblhau cymhwyster) At ba ddarpariaeth sgiliau y cyfeiriwyd troseddwyr?

*Monitro ac adrodd*

31. Pa drefniadau monitro ac adrodd a osodwyd/ddefnyddiwyd i gyflwyno'r contract? Pa systemau gwybodaeth a ddefnyddir i gofnodi cyfeiriadau ac adennill gwybodaeth monitro? Beth yw'r gofynion monitro ac adrodd ar gyfer CAC/GPC? Pa fanylion sy'n cael eu monitro a'u cofnodi? Beth yw'r amserlenni monitro ac adrodd? Pa mor effeithiol yr atebwyd y gofynion monitro ac adrodd? A ddefnyddiwyd agwedd gyson?

32. Ydych chi'n mynychu cyfarfodydd lle trafodir hyfforddiant Sgiliau Hanfodol yn gyffredinol, neu gynnydd ac ymwneud troseddwyr yn benodol? Pwy sy'n mynychu'r rhain? Pa mor aml y cynhelir y cyfarfodydd? Beth yw nod y cyfarfodydd? (e.e., rhowi cyfoesiad am lwybrau cyrraedd, trafod cyfeiriadau, cytuno ar gefnogaeth i gleientiaid a nodwyd fel rhai mewn perygl o ymbellhau, adnabod arfer da a heriau) Pa mor effeithiol fu'r cyfarfodydd?

33. Pa wybodaeth a rennir rhwng WCRC, GPC a Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (e.e., gwybodaeth cyfeirio, cefnogaeth tra'n dysgu, adborth ar bresenoldeb a chymwysterau a enillwyd, cyrchfannau cleientiaid, a gwybodaeth a chyfeirio)? Pa systemau a phrosesau sydd ar gael i rannu'r wybodaeth hon? Pa adborth a roddir i reolwyr troseddwyr (e.e., a yw darparwyr cyflwyno yn rhannu gwybodaeth am ymddygiad ac agwedd?) Sut yr adroddir am ymddygiad negyddol?

34. A fu unrhyw heriau ynghylch rhannu gwybodaeth? Sut y goresgynwyd yr heriau hyn?

**Taflen wybodaeth arolwg arlein**

Dyma'r daflen wybodaeth a anfonwyd at reolwyr troseddwyr a hyfforddwyr am yr arolwg arlein

---

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru

National Offender Management Service in Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwerthusiad o'r cynllun peilot sgiliau hanfodol i'r sawl sydd ar ddedfrydau yn y gymuned (SHDdG)

# Arolwg i staff gweithredol– Taflen Wybodaeth

---

**Cyflwyniad**

Ym mis Ebrill 2015, lansiodd Llywodraeth Cymru raglen beilot o'r enw Sgiliau Hanfodol i'r Sawl sydd ar Ddedfrydau yn y Gymuned (SHDdG). Rhedodd y rhaglen tan fis Ebrill 2016, gan ddarparu hyfforddiant mewnol mewn sgiliau hanfodol hyd at a chan gynnwys Lefel 2 i'r rhai dros 18 oed. Cafodd y rhaglen ei chyflwyno'n bennaf yn swyddfeydd GPC ac CAC ar hyd a lled Cymru. Cyn lansio'r rhaglen, daeth Llywodraeth Cymru i gysylltiad â chwech o ddarparwyr hyfforddiant i gyflwyno'r hyfforddiant sgiliau oedolion.

Comisiynwyd Carney Green a Phrifysgol Fetropolitan Manceinion (MMU) i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen beilot ar ran Llywodraeth Cymru, i asesu llwyddiant yr agwedd newydd tuag at gyflwyno hyfforddiant sgiliau sylfaenol i droseddwyr yn y gymuned. Bydd adroddiad yr ymchwil yn rhoi argymhellion i fod yn sail o wybodaeth i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

**Cymryd rhan**

Yr ydym eisiau gwneud yn siŵr fod ein gwerthusiad yn galluogi pob swyddogaeth sydd yn rhan o SHDdG i gael cyfle i gyfrannu at y gwerthusiad. Rydym wedi cynnal cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol sy'n rhan o ddatblygu a chyflwyno'r cynllun peilot, a chydag arweinyddion rhanbarthol GPC a'r CAC, a darparwyr cyflwyno. Yr ydym hefyd yn cynnal adolygiad llenyddiaeth a byddwn yn dadansoddi cofnodion gweinyddol sydd wedi eu gwneud yn ddienw ar gyfer derbynyddion hyfforddi cymwys a gwirioneddol, er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o'r cynllun peilot a'i effeithiolrwydd.

Rhan ychwanegol ac allweddol o'r gwerthusiad yw arolwg arlein dienw, i'w lenwi gan reolwyr troseddwyr o GPC ac CAC, a staff gweithredol sy'n darparu hyfforddiant mewn sgiliau hanfodol.

Bydd yr arolwg yn agor yn gynnar ym mis Mehefin am ryw 10 diwrnod. Caiff dolen i'r arolwg ei anfon at ymatebwyr gan staff uwch naill ai yn CAC Cymru, GPC neu Lywodraeth Cymru, trwy reolwyr swyddfa/busnes neu trwy ein pobl gyswllt mewn mudiadau hyfforddi.

Yr ydym eisiau annog cynifer ag sydd modd o reolwyr troseddwyr a hyfforddwyr i lenwi'r arolwg; nid oes raid i reolwyr troseddwyr fod wedi cyfeirio troseddwyr at y ddarpariaeth SHDdG, ac nid oes raid iddynt gael profiad o gael troseddwyr yn ymwneud â'r ddarpariaeth sgiliau. Mae'n bwysig i ni glywed gan amrywiaeth eang o reolwyr troseddwyr a hyfforddwyr, o bob cwr o Gymru, er mwyn cael hanesion seiliedig ar dystiolaeth o lwyddiant y Peilot a fydd yn sail o wybodaeth i ddarpariaeth y dyfodol, a deall yn iawn sut y mae'n gweithio a pha mor effeithiol ydyw.

**Manylion cyswllt**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg, cysylltwch naill ai ag Evelyn Hichens (Rheolwraig Gwerthuso'r Prosiect, Carney Green - evelyn.hichens@carneygreen.com) neu Hannah Smithson (Arweinydd Gwerthuso MMU - h.l.smithson@mmu.ac.uk).neu Sara James, Adran Ymchwil Cymdeithasol a Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru (Sara.James@Wales.gsi.gov.uk).

**Arolwg arlein**

# Gwerthusiad o’r cynllun peilot sgiliau hanfodol i’r sawl sydd ar ddedfrydau yn y gymuned (SHDdC)

## Gwybodaeth am yr astudiaeth

### Cyflwyniad

### Cyflwyniad

Ym mis Ebrill 2015, lansiodd Llywodraeth Cymru raglen beilot o’r enw Sgiliau Hanfodol i’r Sawl sydd ar Ddedfrydau yn y Gymuned (SHDdG). Rhedodd y rhaglen tan fis Ebrill 2016, gan ddarparu hyfforddiant mewnol mewn sgiliau hanfodol hyd at a chan gynnwys Lefel 2 i’r rhai dros 18 oed. Cafodd y rhaglen ei chyflwyno’n bennaf yn swyddfeydd GPC ac CAC ar hyd a lled Cymru. Cyn lansio’r rhaglen, daeth Llywodraeth Cymru i gysylltiad â chwech o ddarparwyr hyfforddiant i gyflwyno’r hyfforddiant sgiliau oedolion.

Comisiynwyd Carney Green a Phrifysgol Fetropolitan Manceinion (MMU) i gynnal gwerthusiad o’r rhaglen beilot ar ran Llywodraeth Cymru.

Darllenwch y wobodaeth isod yn fanwl cyn i chi ddechrau ateb yr arolwg.

### Nod yr arolwg

Pwrpas yr arolwg yw ymchwilio i’ch profiad a’ch dealltwriaeth o’r Rhaglen SHDdC. Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei ddefnyddio, ynghyd â gwybodaeth gan gyfranogwyr eraill yn yr ymchwil, i asesu llwyddiant yr agwedd newydd tuag at gyflwyno hyfforddiant Sgiliau Hanfodol i droseddwyr yn y gymuned. Bydd adroddiad yr ymchwil yn cynnwys argymhellion fydd yn sail i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

### Cyfrinachedd a bod yn ddienw

Bydd eich atebion i’r arolwg yn cael eu cadw’n hollol gyfrinachol. Mae’r holl arolwg yn hollol ddienw (ni fyddwn yn gofyn am adnabod pwy ydych o gwbl) ond er mwyn gwneud yn sicr ein bod yn deall yn llwyr safbwyntiau’r ymatebwyr, yr ydym yn gofyn am wybodaeth am y swydd yr ydych yn wneud a’r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo. Pan fydd yr ymchwil yn gyflawn, bydd data wedi ei wneud yn ddienw yn cael ei basio i Lywodraeth Cymru iddynt hwy ei ddefnyddio i sicrhau ansawdd.

### Rhyddid i dynnu’n ôl

Gwirfoddol hollol yw eich cyfranogiad yn yr arolwg: gallwch roi’r gorau ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, buasem yn gwir werthfawrogi pe gallech gwbhlau’r arolwg. Rhyw 10-15 munud yn unig o’ch amser a gymer. Bydd ymatebion llawnach yn gwella cywirdeb y canfyddiadau a’u dylanwad ar lunio gwell gwasanaethau.

### Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg, cysylltwch naill ai ag Evelyn Hichens (Rheolwraig Gwerthuso’r Prosiect, Carney Green - evelyn.hichens@carneygreen.com) neu Hannah Smithson (Arweinydd Gwerthuso MMU - h.l.smithson@mmu.ac.uk).

**Cefndir**

1. Ticiwch y teitl sy'n disgrifio eich safle orau

| | |
|---|---|
| Rheolwr swyddfa | |
| Rheolwr troseddwyr | |
| Tiwtor cyflwyno | |
| Arall (nodwch) | |

2. A wnewch ddweud o ba ranbarth yr ydych yn gweithredu. (e.e. Gogledd Cymru (Rhanbarth 1), Gogledd Cymru (Rhanbarth 2), De-Orllewin a Chanolbarth Cymru (Rhanbarth 3), De-Orllewin a Chanolbarth Cymru (Rhanbarth 4), De-Ddwyrain Cymru a'r Cymoedd (Rhanbarth 5), De-Ddwyrain Cymru a'r Cymoedd (Rhanbarth 6), a De-Ddwyrain Cymru a'r Cymoedd (Rhanbarth 7) neu Arall (nodwch isod)

| |
|---|
| |

3. Dywedwch i ba fudiad yr ydych yn gweithio a disgrifiwch eich swyddogaeth benodol chi.

| |
|---|
| |

4. Dywedwch beth a ddeallwch am y rhesymeg dros raglen SHDdG. (h.y., eich dealltwriaeth o'i amcanion.)

| |
|---|
| |

5 Rhowch ddisgrifiad byr o'ch ymwneud â chyflwyno'r rhaglen SHDdG? (e.e. asesu cymhwyster troseddwyr am sgiliau hanfodol, a/neu gyflwyno hyfforddiant sgiliau hanfodol i droseddwyr)

| |
|---|
| |

6 Os yn berthnasol, beth yn eich barn chi yw'r cryfderau allweddol yn nyluniad rhaglen SHDdG (bydd cwestiynau yn nes ymlaen yn ymchwilio i'ch barn am weithrediad y cynllun peilot)?

| |
|---|
| |

7 Os yn berthnasol, beth yn eich barn chi yw'r gwendidau allweddol yn nyluniad rhaglen SHDdG?

**Cymhwyster a chyfeirio**

8 Beth yw eich dealltwriaeth o'r meini prawf cymhwyster i droseddwyr gael eu cyfeirio at raglen SHDdG? A newidiodd y rhain dros oes y rhaglen?

9 Yn eich barn chi, a yw cyfranogwyr cymwys yn cael eu hadnabod yn effeithiol?

| | |
|---|---|
| Ydynt | |
| Na | |

Esboniwch eich ateb

10 Beth oedd y broses ar gyfer asesu anghenion sgiliau hanfodol troseddwyr?

11 Pa ddulliau a ddefnyddiwyd i asesu sgiliau?

12 Ym mha gyfnod yn ei d/ddedfryd gymunedol yr aseswyd anghenion sgiliau troseddwr?

13 Allwch chi ddisgrifio'r broses o gyfeirio troseddwyr at y darparwyr cyflwyno?

14 Wnaethoch chi ddefnyddio Ffurflen Gyfeirio Sgiliau Hanfodol yr GPC a'r CAC ar y Cyd?

| | |
|---|---|
| Do | |
| Na | |

15 Esboniwch eich ateb

16 Sut y cafodd anghenion iaith Gymraeg grŵp cleient y Rhaglen SHDdG eu nodi, eu cofnodi a'u hateb?

17 Beth yw'r rhesymau pam nad yw troseddwyr cynnwys yn derbyn cyfeiriad am hyfforddiant SHDdG?

18 Beth ddigwyddodd os nad oedd y troseddwyr cymwys eisiau derbyn y cynnig o hyfforddiant? A gynigiwyd yr hyfforddiant iddynt eto yn nes ymlaen? A gawsant eu cyfeirio at fathau eraill o ddarpariaeth?

**Cyflwyno sgiliau hanfodol**

19 Sut y cyflwynwyd yr hyfforddiant sgiliau hanfodol?

20 Yn lle y rhoddwyd yr hyfforddiant? (yn un o swyddfeydd CAC/GPC, lleoliad penodol ar gyfer hyfforddi, neu rywle arall?)

21 Pa weithgareddau, sgiliau hanfodol neu eraill, a gynigiwyd i droseddwyr oedd yn gymwys am raglen SHDdG?

22 Pa gymwysterau achrededig a gynigiwyd?

23 Pa ymwneud/rôl oedd gan y CAC/GPC gyda'r troseddwr yng nghyswllt ei hyfforddiant sgiliau hanfodol unwaith iddo gael ei gyfeirio at y mudiad cyflwyno?

24 Pa mor effeithiol y mesurwyd ymwneud/presenoldeb y troseddwr unwaith iddo ymuno â'r rhaglen SHDdG?

25 Pa fecanweithiau oedd ar gael i annog ymwneud/presenoldeb unwaith i'r unigolyn ymuno â'r rhaglen SHDdG?

26 Rhowch fanylion unrhyw rwystrau i ymwneud/presenoldeb unwaith i droseddwr dderbyn ei gyfeirio at raglen SHDdG (e.e. amgylchiadau'r cartref, mynediad at gludiant, etc.).

27 Sut oedd lefel yr ymwneud/presenoldeb â sgiliau hanfodol, a gyflwynwyd trwy'r rhaglen ers ei chychwyn ym mis Ebrill 2015, yn cymharu â'r contract blaenorol a gyflwynwyd dan NOMS?

**Monitro ac adrodd**

28 Pa drefniadau monitro ac adrodd a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflwyno'r contract? Pa fanylion gafodd eu monitro a'u cofnodi?

29 Pa mor effeithiol yr atebwyd y gofynion monitro ac adrodd?

30 Pa wybodaeth a rannwyd rhwng CAC Cymru, GPC Cymru a Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (e.e. gwybodaeth am gyfeirio, cefnogaeth yn ystod cyfnod y dysgu, adborth ar bresenoldeb a chymwysterau a enillwyd, cyrchfannau'r cleientiaid, a gwybodaeth a chyfeirio, etc.)?

31 Pa systemau a phrosesau oedd ar gael i rannu gwybodaeth?

32 Pa adborth a roddwyd i reolwyr troseddwyr (e.e. a yw darparwyr cyflwyno yn rhannu gwybodaeth am ymddygiad ac agwedd)?

33 A fu unrhyw heriau ynghylch rhannu gwybodaeth? Sut y goresgynnwyd yr heriau hyn?

Diolch am eich amser

## Atodiad E: Gweithgareddau dysgu a gynigiwyd fesul lefel

| Gweithgaredd dysgu | Darparwr cyflwyno | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwmni Hyfforddi Cambrian** | **Coleg Caerdydd a'r Fro** | **Corfforaeth Marr Cyf.** | **Hyfforddiant Torfaen** |
| Cwblhau a Defnyddio Curriculum Vitae | 0 | 35 | 0 | 43 |
| Siarad a Gwrando, Darparu a Derbyn Gwybodaeth | 0 | 7 | 0 | 0 |
| Craidd Hyfforddi – Sgiliau Meddal | 0 | 92 | 0 | 0 |
| Lefel Mynediad Sgiliau Hanfodol Cymru City & Guilds mewn Cymhwyso Rhif (Mynediad 1) | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Lefel Mynediad Sgiliau Hanfodol Cymru City & Guilds mewn Cyfathrebu (Mynediad 1) | 0 | 0 | 6 | 0 |
| Cymhwyster Sgiliau Gweithredu mewn Saesneg ar lefel Mynediad 1 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Lefel Mynediad Sgiliau Hanfodol Cymru CBAC mewn Cymhwyso Rhif (Mynediad 1) | 0 | 4 | 0 | 0 |
| Lefel Mynediad Sgiliau Hanfodol Cymru CBAC mewn Cyfathrebu (Mynediad 1) | 0 | 7 | 0 | 0 |
| Lefel Mynediad Sgiliau Hanfodol Cymru City & Guilds mewn Cymhwyso Rhif (Mynediad 2) | 0 | 0 | 3 | 0 |
| Lefel Mynediad Sgiliau Hanfodol Cymru City & Guilds mewn Cyfathrebu (Mynediad 2) | 0 | 0 | 6 | 2 |
| Lefel Mynediad Sgiliau Hanfodol Cymru CBAC mewn Cymhwyso Rhif (Mynediad 2) | 0 | 6 | 0 | 0 |
| Lefel Mynediad Sgiliau Hanfodol Cymru CBAC mewn Cyfathrebu (Mynediad 2) | 0 | 12 | 0 | 0 |
| Tystysgrif Estynedig Lefel Mynediad mewn Sgiliau Hanfodol ar gyfer Gwaith a Bywyd (Mynediad 3) | 52 | 0 | 0 | 0 |
| Lefel Mynediad Sgiliau Hanfodol Cymru City & Guilds mewn Cymhwyso Rhif (Mynediad 3) | 4 | 0 | 6 | 0 |
| Lefel Mynediad Sgiliau Hanfodol Cymru City & Guilds mewn Cyfathrebu (Mynediad 3) | 0 | 0 | 12 | 2 |
| Cymhwyster Sgiliau Gweithredu mewn Mathemateg ar lefel Mynediad 3 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Lefel Mynediad Sgiliau Hanfodol Cymru CBAC mewn Cymhwyso Rhif (Mynediad 3) | 0 | 16 | 0 | 0 |
| Lefel Mynediad Sgiliau Hanfodol Cymru CBAC mewn Cyfathrebu (Mynediad 3) | 0 | 21 | 0 | 0 |
| Lefel 1 City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Lefel 1 City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cyfathrebu | 0 | 0 | 3 | 0 |
| Lefel 1 City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cymhwyso Rhif | 1 | 0 | 8 | 0 |
| Lefel 1 City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu | 3 | 0 | 7 | 13 |
| Lefel 1 City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 0 | 0 | 8 | 0 |
| Lefel 1 Pearson Edexcel Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cymhwyso Rhif | 5 | 0 | 0 | 0 |
| Lefel 1 Pearson Edexcel Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu | 4 | 0 | 0 | 0 |


| | Cwmni Hyfforddi Cambrian | Coleg Caerdydd a'r Fro | Corfforaeth Marr Cyf. | Hyfforddiant Torfaen |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 Pearson Edexcel Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Lefel 1 CBAC Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cymhwyso Rhif | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Lefel 1 CBAC Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu | 0 | 14 | 0 | 0 |
| Lefel 2 City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Lefel 2 City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cyfathrebu | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Lefel 2 City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cymhwyso Rhif | 0 | 0 | 8 | 0 |
| Lefel 2 City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu | 0 | 0 | 4 | 3 |
| Lefel 2 City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Lefel 2 Pearson Edexcel Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Lefel 2 CBAC Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cymhwyso Rhif | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Lefel 2 CBAC Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu | 0 | 2 | 0 | 0 |
| ***Cyfanswm*** | ***75*** | ***220*** | ***83*** | ***63*** |

**Atodiad F: Dadansoddiad data meintiol atodol**

**Niferoedd cwblhau yn ôl lefel a dull cyflwyno**

F1. Degys Ffigyrau F.1 ac F.2 mai'r gweithgareddau (gweler Atodiad E) a gwblhawyd amlaf oedd y gweithgareddau Cyn-Lefel Mynediad 'Cwblhau a Defnyddio Curriculum Vitae' (n=53, ychydig dros ddwy ran o dair) a 'Siarad a Gwrando, Rhoi a Derbyn Gwybodaeth (n=6, dros bedwar o bob pump). Y gweithgareddau 'Sgiliau Meddal' (n=28, ychydig dros chwarter) a Lefel Mynediad 3 (n=34, tri o bob deg) oedd leiaf tebygol o gael eu cwblhau. Y gweithgareddau hynny oedd yn cael eu cyflwyno yng nghanolfan darparwr seiliedig ar waith (n=40, ychydig dan dri chwarter) ac mewn dosbarth (n=61, dwy ran o dair) oedd fwyaf tebygol o gael eu cwblhau, ond y rhai oedd yn cael eu cyflwyno trwy ddysgu o bell oedd leiaf tebygol o gael eu cwblhau (n=14, ychydig dan un o bob pump).


**Ffigwr F.1: Lefelau gweithgaredd dysgu: Cyfran pob lefel gwblhawyd**




Ffynhonnell: MMU, 2016, data LLWR

N = 447

**Ffigwr F.2: Dulliau cyflwyno[51]: Cyfran y gweithgareddau a gwblhawyd**





Ffynhonnell: MMU, 2016, data LLWR

N = 447

F2. Dengys Ffigwr F.3 mai o'r holl ddysgwyr hynny a gychwynnodd un gweithgaredd dysgu yn unig, na chwblhaodd rhyw ddwy ran o dair (65 y cant) eu gweithgaredd. Ymysg y sawl a gychwynnodd ddau weithgaredd dysgu, mae cyfran y rhai na chwblhaodd un gweithgaredd yn gostwng fymryn i 59 y cant. O'r 44 dysgwr a gychwynnodd dri neu fwy o weithgareddau, dim ond dau ddysgwr a fethodd gwblhau unrhyw weithgareddau. Ar y llaw arall, o'r 193 dysgwr a gychwynnodd un neu ddau o weithgareddau, methodd 119 dysgwr a chwblhau unrhyw weithgareddau. Gall hyn fod yn arwydd fod dysgwyr mwy galluog yn cychwyn mwy o weithgareddau, a'u bod felly yn fwy tebygol o gwblhau mwy o'u gweithgareddau.

**Ffigwr F.3: Cyfran y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd**




Ffynhonnell: MMU, 2016, data LLWR

N = 237

[51] Yr oedd nifer y gweithgareddau a gyflwynwyd trwy 'ganolfan darparwr gweithle-cymysg a Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW)' yn rhy fychan i adrodd amdanynt (≤ 5).